

S4C /

S4C I BAWB
EVERYONE'S S4C

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2025—2026

AR GYFER Y CYFNOD 01 EBRILL 2025 TAN 31 MAWRTH 2026

HC 182

S4C /

S4C I BAWB
EVERYONE'S S4C

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2025–26**

**Ar gyfer y cyfnod 01 Ebrill 2025 tan 31 Mawrth 2026**

Cyflwynir i'r Senedd yn sgîl paragraff 13(1) o atodlen 6 Deddf Darlledu 1990.

Gosodir gerbron Senedd Cymru yn unol â phenderfyniad gan y Senedd o dan Reol Sefydlog 15.1(v).

HC 182

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar ddydd Mercher, 08 Gorffennaf 2026.

Paratowyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Ariannol hwn ar ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chymeradwyaeth y Trysorlys.

(h) **S4C 2026**

Caniateir atgynhyrchu testun y ddogfen hon yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng yn amodol ar gywirdeb yr atgynhyrchu ac nad yw'n cael ei wneud mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod hawlfraint S4C a nodi teitl y ddogfen.

Gellir lawrlwytho'r ddogfen hon o www.s4c.cymru

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at s4c@s4c.cymru

ISBN 978-1-5286-6535-3
E03614713 07/26

**Cynnwys**


| | |
|---|---|
| 06 | **Cyflwyno S4C** |
| 09 | Sut i wylio a chysylltu gydag S4C |
| 10 | **Cyflwyniad y Cadeirydd** |
| 12 | Gwobrau 2025–26 |
| 15 | **Adroddiad y Prif Weithredwr** |
| 17 | **Strategaeth 2030** |
| 22 | Cyflawni'r Strategaeth yn ystod 2025–26 |
| 36 | Ymwneud â'n gwylwyr |
| 45 | **Adroddiadau Gweithredol** |
| 45 | Adroddiad Llywodraethu |
| 64 | Gweithgareddau Masnachol S4C |
| 67 | Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg |
| 72 | Adroddiad Polisi Cyflogaeth a Thaliadau |
| 76 | **Cyfrifon 2025–26** |
| 77 | Datganiad Ariannol |
| 78 | Oriau a ddarlledwyd a chyfartaledd cost yr awr |
| 80 | Datganiad o gyfrifoldebau |
| 81 | Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Fwrdd Sianel Pedwar Cymru S4C sy'n cydnabod bod dau Dŷ'r Senedd hwythau'n dibynnu ar Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol S4C |
| 83 | Datganiad cyfun o incwm cynhwysfawr |
| 84 | Mantolen gyfun |
| 85 | Mantolen S4C |
| 86 | Datganiad cyfun o newidiadau mewn ecwiti |
| 87 | Datganiad llif arian cyfun |
| 88 | Nodiadau i'r cyfrifon |

# Cyflwyno S4C

**Mae S4C yn bodoli i ddangos ein byd drwy'r Gymraeg — gan wasanaethu'r gynulleidfa gyda chynnwys sy'n diddanu, yn cyffroi ac yn adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth.**

Fel gwasanaeth cyfryngau cyhoeddus mae gennym ddyletswydd i greu'r platfform a'r ecosystem i sbarduno'r diwydiannau creadigol yng Nghymru i greu cynnwys uchelgeisiol ac unigryw sy'n apelio at bob oedran, cefndir a gallu ieithyddol.

Nod S4C yw bod yn gyrchfan greadigol unigryw ar gyfer cynnwys gafaelgar Cymraeg, sydd ar gael i'w fwynhau ar amryw o lwyfannau yng Nghymru a thu hwnt.



Y Cyfweliad

# Hanes S4C

**Cyn sefydlu S4C, roedd rhai rhaglenni Cymraeg yn cael eu darlledu ar BBC 1 ac ITV.**

Yn ystod y 1970au, fe benderfynodd llywodraeth Prydain y byddai pedwaredd sianel deledu yn cael ei sefydlu, i ymuno â BBC 1, BBC 2 ac ITV. Roedd y sianel newydd hon yn cael ei hystyried gan nifer yn gyfle ar gyfer dechreuad newydd ym maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Yn dilyn ymgyrchu dwys, sefydlwyd S4C gan Ddeddfau Darlledu 1980/1981.

Fe ddechreuodd S4C ddarlledu am 18:00 nos Lun, 01 Tachwedd 1982. I ddechrau, 22 awr o raglenni Cymraeg oedd yn cael eu darlledu bob wythnos, ochr yn ochr â rhaglenni Saesneg o wasanaeth Channel 4.

Heddiw, mae S4C yn fwy na sianel deledu. Mae'n wasanaeth Cymraeg, yn cyhoeddi cynnwys ar amrywiaeth o lwyfannau digidol yn ogystal â darlledu dros 115 awr o raglenni bob wythnos ar ei gwasanaeth llinol.

Mae pencadlys S4C yng Nghanolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin, ac mae gan S4C swyddfeydd yn Noc Fictoria, Caernarfon; ac yn Sgwâr Canolog, Caerdydd.



# Gwerthoedd S4C

## Mae S4C yn gweithredu'n gydnaws â'n gwerthoedd craidd, gan sicrhau bod pob penderfyniad – mawr a bach – yn adlewyrchu'r egwyddorion sy'n ein diffinio fel sefydliad.

Mae'r gwerthoedd hyn yn fwy na geiriau; maent yn greiddiol i bopeth a wnawn. Cawn ein hysgogi i gydweithio gyda pharch a meddwl agored, i wasanaethu ein cynulleidfaoedd gyda gofal a gonestrwydd, ac i ymateb yn ddewr i heriau a chyfleoedd.



Seren Jones yn Fyw yn y Dŵr

## Ein gwerthoedd craidd yw:

### Ar Dy Orau:

Rydym yn annog ein gilydd i dyfu, datblygu a chyflawni hyd yr eithaf. Rydym yn cefnogi'n gilydd i fod yn rhagweithiol, yn gryf ein cymhelliad ac yn ymroddedig.

### Balch o S4C:

Rydym yn credu yng nghenhadaeth S4C ac yn falch o'r llwyfan rydym yn ei darparu i'r Gymraeg a'i diwylliant. Rydym oll yn llysgenhadon i S4C a'r gwaith rydym yn ei gyflawni.

### Cer Amdani:

Rydym yn ddewr, yn greadigol ac yn barod i arloesi. Rydym yn canolbwyntio ar ddatrysiadau, ac yn benderfynol o wneud gwahaniaeth i'n cynulleidfaoedd a'n cymunedau.

### Dathlu Pawb:

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn ymrwymo i greu amgylchedd cynhwysol lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu parchu a'u gwerthfawrogi. Rydym yn cofleidio gwahanol leisiau a phrofiadau, ac yn ymfalchïo yn llwyddiannau ein gilydd.

# Sut i wylio a chysylltu gyda S4C

**Mae gwasanaethau S4C ar gael ar ystod eang o lwyfannau digidol a darlledu, yng Nghymru ac ar draws y DU.**

## Ar deledu yng Nghymru:

**Freeview: 4**
(gan gynnwys HD ar 104)

**Freely: 4**

**Sky: 104**

**Freesat: 104**

**Virgin TV: 104**

## Ar deledu yn Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon:

**Sky: 134**

**Freesat: 120**

**Virgin TV: 164**

**Freely: 63**
(ar-lein yn unig)

## Ar-lein – yng Nghymru ac ar draws y DU:

**S4C Clic:**
s4c.cymru/clic a thrwy'r ap lle bo un ar gael trwy farchnad apiau eich dyfais

**BBC iPlayer:**
bbc.co.uk/tv/s4c
a thrwy'r ap lle bo un ar gael trwy farchnad apiau eich dyfais

## Cyfryngau cymdeithasol:

Dilynwch S4C ar YouTube, Facebook, Instagram, a TikTok am gynnwys ffurf-fer, newyddion, uchafbwyntiau a mwy.

**Cysylltu gydag S4C...**

Mae S4C wastad yn falch i glywed barn ein gwylwyr.

Os ydych yn dymuno cyflwyno eich barn am ein cynnwys neu os ydych eisiau gwybodaeth bellach, fe fyddem yn falch i glywed gennych.

Fe allwch gysylltu ag S4C dros y ffôn, drwy e-bost, y cyfryngau cymdeithasol, neu drwy lythyr.

**Gwefan:**
s4c.cymru

**E-bost:**
s4c@s4c.cymru

**Ffôn:**
0370 600 4141

**WhatsApp:**
+44 7900 588261

Swyddfa Caerfyrddin:
Canolfan S4C Yr Egin, Ffordd y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EQ

Swyddfa Caernarfon:
S4C, Doc Fictoria, Caernarfon, LL55 1TH

Swyddfa Caerdydd:
S4C, 3 Sgwâr Canolog, Caerdydd, CF10 1FS

Mae croeso i chi gysylltu ag S4C yn y Gymraeg, ac os byddwch chi'n gwneud hynny byddwn yn ateb yn y Gymraeg ac ni fydd oedi oherwydd hynny.

# Cyflwyniad y Cadeirydd

## Delyth Evans



**Rwy'n falch o gyflwyno fy adroddiad blynyddol cyntaf fel Cadeirydd S4C. Yn fy nghyflwyniad byr y llynedd, pwysleisiais yr angen i S4C edrych tua'r dyfodol gyda chreadigrwydd, hyder a phwrpas. Mae'r flwyddyn ers hynny wedi cadarnhau pa mor allweddol yw'r cyfnod hwn yn hanes S4C.**

Carreg filltir bwysig yn ystod y flwyddyn oedd cyhoeddi Strategaeth 2030 ym mis Medi 2025. Mae Mwy na Sianel Deledu yn gosod gweledigaeth uchelgeisiol ond realistig ar gyfer y pum mlynedd nesaf, wedi'i hadeiladu o amgylch tri amcan: ehangu gwylio gyda'n cynnwys, trawsnewid yn ddigidol-yn-gyntaf, a chydweithio er mwyn gweld Cymru'n ffynnu.

Bu adnewyddiad pwysig ar lefel y Bwrdd hefyd. Hoffwn yn gyntaf ddiolch i Guto Bebb am ei wasanaeth fel Cadeirydd dros dro hyd at fy mhenodiad, ac fel aelod anweithredol hyd ddiwedd Chwefror 2026. Mae aelodau presennol y Bwrdd – Suzy Davies a Denise Lewis Poulton (a ailbenodwyd am dymor pellach ym mis Mai 2025) – yn parhau i gynnig arweiniad doeth a phrofiad gwerthfawr. Rwyf hefyd yn croesawu ein haelodau anweithredol newydd – Dyfrig Davies, Wyn Innes, Gwenllian Lansdown Davies, Betsan Powys a Catryn Ramasut – sy'n dod ag ystod gyfoethog o brofiad ac arbenigedd.

Mae'n bwysig pwysleisio bod pwrpas craidd S4C yn parhau'n ddigyfnewid: hyrwyddo'r Gymraeg, adlewyrchu Cymru gyfoes, a chynnal yr ecosystem greadigol sy'n bywiogi ein diwylliant. Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddwyd ail asesiad annibynnol gan Wavehill o effaith economaidd a chymdeithasol S4C, a gadarnhaodd fod ein cyfraniad yn parhau'n sylweddol, gyda dros 2,500 o swyddi'n cael eu cefnogi a £150 miliwn mewn Gwerth Ychwanegol Gros yn cael ei gynhyrchu i economi Cymru.

Mae cyfnod arwyddocaol o'n blaenau. Dros y blynyddoedd nesaf, bydd adolygiad Llywodraeth y DU o Siarter Frenhinol y BBC yn cyrraedd ei hanterth, a bydd S4C yn gwneud yr achos dros drefniadau ein ariannu cyhoeddus ar gyfer Ebrill 2028 ymlaen. Mae sicrwydd ariannol hirdymor yn allweddol – heb yr adnoddau angenrheidiol, bydd yn anodd i S4C wireddu'r weledigaeth a osodir yn Strategaeth 2030. Bydd y Bwrdd yn rhoi'r flaenoriaeth uchaf i'r gwaith hwn, ac yn parhau i wneud yr achos dros y gefnogaeth y mae S4C – ac yn ehangach y Gymraeg – yn ei haeddu.

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i staff S4C am eu hymroddiad parhaus i'n cenhadaeth; i'n partneriaid yn y sector cynhyrchu am eu creadigrwydd a'u sgiliau; i'n cynulleidfaoedd am eu ffyddlondeb dros y blynyddoedd; i'm cyd-aelodau ar y Bwrdd am eu cyngor a'u cefnogaeth; ac i Geraint Evans a'r Uwch Dîm Arwain am eu harweiniad drwy flwyddyn o newid cadarnhaol.

Wrth edrych ymlaen, rwy'n llawn hyder am ddyfodol S4C. Mae gennym strategaeth glir, tîm cadarn, a chenhadaeth sy'n parhau'r un mor berthnasol heddiw ag erioed.

# Diolch i'n partneriaid yn y sector gynhyrchu!

**Rydym yn ddiolchgar iawn i'n partneriaid yn y sector gynhyrchu am eu cefnogaeth barhaol i S4C.**

**Yn ystod 2025–26, fe weithiom gyda'r cyflenwir canlynol i gynhyrchu cynnwys ar draws ein gwahanol lwyfannau:**

- Aden Productions Ltd
- Afanti Media Limited
- Barn Media Ltd
- Beastly Media Ltd
- Boom Cymru TV Ltd
- British Broadcasting Corporation
- Captain Jac Ltd
- Cardiff Productions Ltd
- Carlam Ltd
- Ceidiog Cyf
- Chwarel Cyf
- Cwmni Da Cyf
- Cynyrchiadau Twt Productions Ltd
- Darlun Cyf
- DocShed Ltd
- Dream Team Television Ltd
- Eisteddfod Genedlaethol Cymru
- Ffilmiau Twm Twm Cyf
- Gogglebocs Cymru Cyf
- Griffilms Ltd
- Hall of Mirrors Ltd
- Hilda Films
- Iris Productions
- Its My Shout Productions Ltd
- ITV Broadcasting Ltd
- ITV Services Ltd
- Jet TV Limited
- Lazerbeam Productions Ltd
- Lefel Dau Cyf
- Libera Digital Ltd
- Media Atom Ltd
- Minibuds Limited
- Mojo Productions Limited
- Nimble Dragon Ltd
- Nollai Ltd
- One Tribe TV Ltd
- Opra Avanti Ltd
- Orchard Media & Events Group Limited
- Osprey Television Limited
- Pixie Creative Limited
- Rondo Media Cyf
- Sain Cyf
- Silin Cyfyngedig
- Slam Media Limited
- Sunset & Vine Productions Ltd
- Teledu Gwyliau Cyf
- Telesgop Media Cyf
- Tinopolis Interactive Ltd
- Tinopolis Ltd
- Tŷ'r Ddraig
- Vox Pictures Limited
- Whisper Films Ltd
- Y Golau Cyf
- Yellow Barrels Ltd

Gwnaed pob ymdrech i adnabod a rhestru pob cyflenwr a weithiodd gyda ni
– ar gynnwys a gyhoeddwyd yn ystod 2025–26, neu sydd i ddod dros y cyfnod nesaf
– ac fe ymddiheurwn os oes unrhyw esgeulustod.

# Gwobrau Ffilm a Theledu 2025–26

Mae cynnwys S4C yn gyson yn ennill gwobrau ac enwebiadau cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae ennill, neu dderbyn enwebiad ar gyfer gwobr mewn gŵyl ffilm neu deledu yn arwydd o werthfawrogiad o ansawdd y rhaglenni a gynhyrchir gan y cwmnïau cynhyrchu annibynnol ar gyfer S4C. Eto eleni cafwyd nifer uchel iawn o enwebiadau mewn gwyliau pwysig a chystadleuol iawn.

## BAFTA Cymru 2025

### ENILLYDD

Gwobr Sian Phillips
**Bethan Rhys Roberts**

Rhaglenni Plant
**Deian a Loli (Cwmni Da)**

Cyfres Ffeithiol
**Marw gyda Kris (Ffilmiau Twm Twm)**

Cyflwynydd
**Bethan Rhys Roberts (Etholiad 2024 – BBC Cymru)**

### Enwebiad

Actores Orau
**Elen Rhys (Cleddau – Blacklight TV)**

Gwyneb newydd
**Mared Swain (Cleddau – Blacklight TV)**

Rhaglenni Plant
**Mabinogi-ogi (Boom Cymru)**

Rhaglenni Plant
**Pwysutpam? (Cwmni Da)**

Cyfarwyddwr: Ffuglen
**Rhys Carter (Ar y Ffin - Severn Screen)**

Golygu
**Dafydd Hunt (Cleddau – Blacklight TV)**

Golygu
**Dylan Goch (Ffa Coffi Pawb – Ie Ie Productions)**

Rhaglen Adloniant
**Llond Bol o Sbaen (Cwmni Da)**

### Enwebiad

Rhaglen Adloniant
**Sgwrs Dan y Lloer: Noel Thomas (Tinopolis)**

Rhaglen Adloniant
**Y Llais (Boom Cymru)**

Cyfres Ffeithiol
**Ar Brawf (Darlun)**

Newyddion a Materion Cyfoes
**Newyddion S4C: Neil Foden (BBC Cymru)**

Newyddion a Materion Cyfoes
**Y Byd ar Bedwar: Huw Edwards (ITV)**

Cyflwynydd
**Kristopher Hughes (Marw gyda Kris – Ffilmiau Twm Twm)**

Sain Gorau
**Tîm Sain (Cleddau – Blacklight TV)**

Drama Teledu
**Ar y Ffin (Severn Screen)**

## Gwobrau Chwaraeon Broadcast 2025

### Enwebiad

Talent Ifanc Gorau Ar y Sgrin)
**Sioned Dafydd**

Talent Ifanc Gorau (Ar y Sgrin)
**Lloyd Lewis**

## Gwobr Cyfryngau Garddio 2025

### Enwebiad

Fideo neu Eitem Arddio Orau'r Flwyddyn
**Garddio a Mwy (Cwmni Da)**

## Gwobrau RTS Cymru 2026

### ENILLYDD

Cyflwynydd
**Seren Jones (Rondo)**

Seren sy'n codi
**Malen Meredydd (Slam Media)**

Rhaglen Blant
**Dreigiau Cadi: Y Briodas (Yellow Barrels)**

Gwreiddiol Digidol
**Beth yw Pwynt yr Eisteddfod? (Cwmni Da)**

Dogfen Ffeithiol
**Y Crwydryn (Docshed)**

Eitem Newyddion
**Newyddion: Cadeirlan Bangor (BBC)**

Digwyddiad Byw
**Y Sioe 2025 (Boom Cymru /Slam Media)**

### Enwebiad

Seren sy'n codi
**Sophie Craig (Cwmni Da)**

Digidol Gwreiddiol
**Yr Awdl (Ffilmiau Twm Twm)**

Newyddion & Materion Cyfoes
**Byd ar Bedwar: Llangolman (ITV Cymru)**

Dogfen Chwaraeon
**Joe Allen: Y Chwiban Olaf (Barn Media)**

Drama
**Y Golau: Dŵr (Triongl)**

Rhaglen Blant
**Deian a Loli a'r Arceidwad (Cwmni Da)**

Rhaglen Blant
**Y Coridor (Boom Cymru)**

Adloniant Ffeithiol
**Y Llinell Las (Slam Media / ITV Cymru)**

Gwreiddiol Digidol
**Sgrap (Ffilmiau Twm Twm)**

Cyflwynydd
**Dr Meredydd ap Huw**

Cyflwynydd
**James Williams**

Perfformiad Drama
**Rhys ap Trefor**

## Gŵyl Cyfryngau Celtaidd 2025

### ENILLYDD

Celfyddydau(Sgrin)
**Sian Phillips (Rondo Media)**

Adloniant (Sgrin)
**Gogglebocs Cymru (Chwarel/ Cwmni Da)**

Hanes (Sgrin)
**Paid â Dweud Hoyw (Rondo Media)**

Ffurf fer
**Da Neu Du (Carlam)**

### Enwebiad

Plant
**Y Coridor (Boom Cymru)**

Materion Cyfoes
**Byd Eithafol: Chwarae Teg (Wildflame)**

Adloniant Ffeithiol
**Siwrna Scandi Chris (Cwmni Da)**

Cyfres Ffeithiol
**Marw gyda Kris (Ffilmiau Twm Twm)**

Hanes
**Y Frwydr: Stori Anabledd (Cardiff Productions)**

Cerddoriaeth Byw
**Cân i Gymru (Afanti Media)**

Ffurf Fer
**Bwmp (Octagon)**

Dogfen Chwaraeon
**Yr Hawl i Chwarae (Whisper)**

### Gŵyl Ffilm Rhynglwadol Rohip

**ENILLYDD**

Rhaglen ddogfen nodwedd orau
**Y Crwydryn (Docshed)**

### Gŵyl Ffilm y Byd Cannes

**Enwebiad**

Rhaglen ddogfen nodwedd orau
**Y Crwydryn (Docshed)**

### Gŵyl Ffilm Annibynnol LISBIFF Lisboa

**Enwebiad**

Rhaglen ddogfen nodwedd orau
**Y Crwydryn (Docshed)**

### Gŵyl Ffilm Folkestone

**Enwebiad**

Rhaglen ddogfen nodwedd orau
**Y Crwydryn (Docshed)**

### Gŵyl Ffilm By the River

**Enwebiad**

Rhaglen ddogfen nodwedd orau
**Y Crwydryn (Docshed)**

### Gŵyl Ffilm Rhynglwadol Bournemouth

**ENILLYDD**

Rhaglen ddogfen nodwedd orau
**Y Crwydryn (Docshed)**

Sinematograffi gorau
**Y Crwydryn (Docshed)**

Sain Gorau
**Y Crwydryn (Docshed)**

Golygu Gorau
**Y Crwydryn (Docshed)**

Cyfarwyddwr Gorau
**Y Crwydryn (Docshed)**

### Gwobrau Crefft a Dylunio

**Enwebiad**

Lluniau di-sgript
**Andy Pritchard – Marw gyda Kris (Ffilmiau Twm Twm)**

### Gwobrau Rhyngwladol C21

**Enwebiad**

Drama Ffurf Newydd
**Hafiach (Vox Pictures)**

### Gwobrau Sandford St Martin 2025

**Enwebiad**

Gwobr Newyddiaduraeth
**Efengylwyr – A oes Atgyfodiad (Jet TV)**

### Gwobrau Grand Prix Circom

**ENILLYDD**

Talent Ifanc ar y Sgrin
**Nest Jenkins, Y Byd ar Bedwar**

### Gwobrau Cyfryngau Cymru 2025

**ENILLYDD**

Newyddiadurwr Newyddion Teledu y Flwyddyn
**Elen Wyn, Newyddion S4C**

### Little Venice Film Festival

**ENILLYDD**

Comedi Gorau
**Teth (Beastly Media)**

### Gwobrau Broadcast 2026

**Enwebiad**

Drama orau sy'n dychwelyd
**Y Golau: Dŵr (Triongl)**

### Gŵyl Rhyngwladol Teledu y Rockies 2025

**ENILLYDD**

Sgôr Cerddorol Orau
**Pren ar y Bryn (Fiction Factory)**

**Enwebiad**

Cyfres Orau
**Pren ar y Bryn (Fiction Factory)**

### Gwobrau Digidol Broadcast 2025

**Enwebiad**

Sianel Arbenigol Orau
**Hansh**

Cefnogaeth Ddigidol Orau ar gyfer Strand, Sianel neu Genre
**S4C**

# Adroddiad y Prif Weithredwr

## Geraint Evans

**Mae'n bleser cyflwyno fy ail adroddiad fel Prif Weithredwr S4C ar ddiwedd blwyddyn a fu'n un arwyddocaol iawn yn natblygiad y sefydliad.**



Ym mis Medi 2025, cawsom y fraint o lansio ein strategaeth bum-mlynedd newydd, Mwy na Sianel Deledu, yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, yng nghwmni staff, partneriaid a chynrychiolwyr o'r sector creadigol o bob cwr o Gymru. Roedd yn foment arbennig, nid yn unig am ei bod yn nodi dechrau pennod newydd i S4C, ond oherwydd ei bod yn adlewyrchu uchelgais gyffredin i sicrhau dyfodol llewyrchus i'r Gymraeg a'r cynnwys creadigol sy'n ei galluogi i ffynnu.

Mae'r strategaeth yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer y pum mlynedd nesaf, gan adeiladu ar yr hyn sy'n gwneud S4C yn unigryw, wrth ymateb yn hyderus i'r newidiadau mawr sy'n digwydd yn y ffordd mae pobl yn gwylio ac yn ymgysylltu â chynnwys. Wrth galon y strategaeth mae'r un pwrpas sydd wedi ein harwain ers y dechrau: dangos ein byd drwy'r Gymraeg.

Ers ei lansio, rydym wedi dechrau rhoi'r weledigaeth ar waith, i ehangu gwylio gyda'n cynnwys, i feithrin meddylfryd digidol-yn-gyntaf ac i gydweithio i weld Cymru'n ffynnu. Ar draws y sefydliad, mae cydweithwyr wedi cofleidio ffyrdd newydd o feddwl a gweithio, wedi cryfhau ein ffocws digidol, ac wedi dechrau adeiladu'r sylfeini ar gyfer y dyfodol rydym am ei greu. Mae llawer eto i'w wneud, ond rwy'n falch o'r cynnydd a wnaed hyd yma, ac yn fwy cyffrous nag erioed am y cyfleoedd sydd o'n blaenau. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r camau cyntaf ar y daith honno, a'r uchelgais a fydd yn parhau yn y blynyddoedd i ddod.

Roedd yn bleser mawr croesawu Delyth Evans i'w rôl fel Cadeirydd newydd S4C yn ystod y flwyddyn. Wrth inni roi Strategaeth 2030 ar waith, rwy'n falch iawn o gael gweithio ochr yn ochr â Delyth a gweddill aelodau'r Bwrdd. Mae eu profiad, eu mewnwelediad a'u hymrwymiad i genhadaeth S4C yn rhoi hyder imi wrth inni wynebu'r cyfleoedd a'r heriau sydd o'n blaenau.

Ar y sgrin ac ar ein llwyfannau digidol, bu'r flwyddyn yn un gyfoethog ac amrywiol. O ddramâu a rhaglenni adloniant poblogaidd, i ddigwyddiadau chwaraeon mawr a chynnwys arloesol ar gyfer platfformau digidol, rydym wedi parhau i gynnig cynnwys sy'n adlewyrchu Cymru heddiw ac sy'n cysylltu â chynulleidfaoedd o bob oed mewn ffyrdd gwahanol.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i mi oedd Pencampwriaeth UEFA Ewro 2025 yn y Swistir. Roedd yn fraint i S4C chwarae rhan yn y dathliadau cenedlaethol wrth i dîm menywod Cymru gyrraedd prif bencampwriaeth ryngwladol am y tro cyntaf yn eu hanes. Fel rhan o ymdrech 'Tîm Cymru', darlledwyd Heno yn fyw o'r Swistir, comisiynwyd pecyn o gynnwys digidol oedd yn lwyfan i dalentau cerddorol menywod Cymru, dangoswyd pob gêm yn fyw ar S4C ac fe weithiwyd mewn partneriaeth â sefydliadau cenedlaethol eraill i nodi achlysur a oedd yn garreg filltir i chwaraeon Cymru ac i genhedlaeth newydd o gefnogwyr pêl-droed.



Mae trawsnewid digidol yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol. Yn ystod y flwyddyn, daethom i gytundeb newydd pwysig gyda'r BBC a fydd yn sicrhau mwy o amlygrwydd i gynnwys S4C ar BBC iPlayer. Ac wrth i YouTube ddatblygu i fod yn gyrchfan gwylio hynod o boblogaidd ymhlith gwylwyr ifanc yn arbennig, roedd yn hanfodol i ni sicrhau partneriaeth newydd gyda'r platfform hwnnw hefyd. Mae'r rhain yn gamau pwysig wrth inni geisio sicrhau bod cynnwys Cymraeg o safon uchel yn hawdd ei ddarganfod ac ar gael lle mae cynulleidfaoedd o bob oed yn dewis gwylio.

Yn fewnol, rwy'n falch iawn o'r cynnydd a wnaed wrth ddatblygu ein pobl a pharhau i wreiddio'r diwylliant rydym am ei weld ar draws y sefydliad. Eleni, roedd yn bleser gweld y staff yn cymryd rhan yn ein rhaglen hyfforddiant S4C Campus. Roedd gweld cydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad yn cwblhau'r rhaglen yn dystiolaeth o'r awydd i ddysgu, datblygu a chefnogi ein gilydd, ac yn adlewyrchu'r gwerthoedd sy'n sail i'n gwaith bob dydd.

Mae partneriaeth yn parhau i fod yn ganolog i bopeth a wnawn. Ym mis Tachwedd 2025, cynhaliwyd cynhadledd Dychmygu'r Dyfodol ar y cyd â TAC, gan ddod â'r sector cynhyrchu ynghyd i drafod y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant. Roedd y digwyddiad yn adlewyrchu cryfder y berthynas rhwng S4C a'r sector, ac yn tanlinellu'r ymrwymiad sydd gennym ar y cyd i adeiladu dyfodol cynaliadwy a llwyddiannus i gynhyrchu cynnwys Cymraeg. Rwy'n falch ei fod bellach yn sefydlu ei hun fel digwyddiad blynyddol i'r sector yng Nghymru.

Wrth edrych ymlaen, mae'n amlwg bod cyfnod pwysig iawn o'n blaenau. Bydd trafodaethau ynghylch adolygiad Siarter y BBC a phenderfyniadau ynghylch trefniadau ariannu S4C o 2028 ymlaen yn hollbwysig i ddyfodol y gwasanaeth. Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd S4C ei hymateb i Bapur Gwyrdd Llywodraeth y DU, gan wneud yr achos yn glir dros sicrhau model ariannu digonol a chynaliadwy sy'n galluogi S4C i gyflawni ei chenhadaeth gyhoeddus.

Er gwaethaf yr heriau sy'n ein hwynebu, rwy'n hyderus am y dyfodol. Mae gennym strategaeth glir, tîm talentog ac ymroddedig, partneriaid creadigol rhagorol, a chynulleidfaoedd sy'n parhau i werthfawrogi cynnwys Cymraeg o ansawdd uchel. Wrth inni weithredu'r Strategaeth dros y blynyddoedd nesaf, byddwn yn parhau i adeiladu ar y sylfeini hynny er mwyn sicrhau bod S4C yn parhau'n berthnasol, yn uchelgeisiol ac yn ysbrydoli wrth adlewyrchu Cymru a'r Gymraeg.

Hoffwn ddiolch i holl staff S4C, ein partneriaid yn y sector cynhyrchu, aelodau'r Bwrdd a'n rhanddeiliaid am eu cefnogaeth a'u hymrwymiad drwy gydol y flwyddyn. Wrth inni gychwyn ar bennod newydd gyda'n strategaeth, rwy'n edrych ymlaen at y gwaith sydd o'n blaenau gyda hyder a phenderfyniad, gan gadw'r un pwrpas wrth wraidd popeth a wnawn: dangos ein byd drwy'r Gymraeg.

# Strategaeth 2030

**Pwrpas S4C**
yw dangos ein byd drwy'r Gymraeg.

**Ein cenhadaeth**
yw ysbrydoli, diddanu ac adlewyrchu Cymru drwy gynnwys gwych i bawb.

**Yn dilyn cymeradwyaeth Bwrdd S4C yn ystod haf 2025, lansiwyd Strategaeth 2025–30 ym mis Medi 2025, gan osod ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf.**

# Y Cyd-destun

## Mae gwasanaeth cyhoeddus yn dechrau gyda dealltwriaeth glir o'n cynulleidfaoedd.

Er gwaethaf y doreth o gynnwys byd-eang sydd ar gael, mae galw cryf o hyd am gyfryngau sy'n adlewyrchu Cymru gyfoes ac yn cynnig cyfleoedd i glywed y Gymraeg fel iaith fyw. Lluniwyd y strategaeth hon gyda'n cynulleidfaoedd amrywiol wrth ei chraidd, ac fe'i llywiwyd gan newidiadau sylweddol yn nhirwedd y cyfryngau a'r Gymraeg, gan ddatblygiadau polisi, a chan yr heriau ariannol sy'n wynebu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

Mae cystadleuaeth gan ffrydwyr rhyngwladol a chyfryngau digidol wedi herio'r model darlledu traddodiadol, gyda gwylwyr o bob oed yn treulio mwy o'u hamser ar blatfformau fel Netflix, YouTube a TikTok. Er bod S4C eisoes wedi buddsoddi yn ei gwasanaethau digidol, rhaid addasu, arloesi a buddsoddi ymhellach er mwyn cystadlu ac ymestyn cyrhaeddiad cynnwys Cymraeg. Mae Deddf Cyfryngau 2024 wedi sicrhau sylfaen ar gyfer amlygrwydd S4C Clic ar deledu clyfar, ond mae'n gofyn am fuddsoddiad technolegol sylweddol ac nid yw'n mynd i'r afael ag amlygrwydd ar blatfformau rhannu fideo. Mae datblygiadau mewn deallusrwydd artiffisial hefyd yn cynnig cyfleoedd a heriau wrth i ni warchod creadigrwydd a hunaniaeth ieithyddol ein cynnwys.

Mae ymddygiad cynulleidfaoedd yn newid yn sylfaenol: mae symudiad o ddarlledu traddodiadol i ffrydio, ac o wylio llinol i wylio ar-alw. Bydd y tueddiadau hyn yn dwysáu, ac oni bai bod S4C yn cynnig profiad gwylio sy'n ymateb i'r newid hwn, bydd yn anodd atal dirywiad yn ein cynulleidfaoedd. Mae'r newid eisoes ar waith: daw 23% o holl oriau gwylio S4C drwy'r iPlayer, S4C Clic a YouTube, gyda'r to iau wedi troi at blatfformau digidol yn gynt – bellach daw rhyw 60% o wylio S4C ymhlith pobl 16–44 oed drwy lwyfannau digidol.

Mae'r dirwedd ieithyddol hefyd wedi trawsnewid. Bellach, mae mwy o blant yn dod at y Gymraeg drwy addysg yn hytrach na thrwy'r aelwyd, gyda thua hanner siaradwyr Cymraeg yn byw mewn cartrefi lle nad yw pawb yn siarad yr iaith. Mae hyn yn gofyn am ymateb dewr a chreadigol: rhaid i S4C gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, pobl ifanc, rhai sy'n llai hyderus yn eu Cymraeg, a'r rhai sy'n troi at blatfformau digidol. Mewn byd lle mae cynnwys Saesneg yn dominyddu, mae sicrhau bod y Gymraeg yn amlwg ac yn hawdd ei darganfod yn her barhaus. Rhaid i S4C fuddsoddi'n greadigol mewn cynnwys sy'n gwneud y Gymraeg yn gyfrwng naturiol sy'n ennyn balchder, a chynnal ecosystem lle mae'r iaith yn perthyn i bawb.

Y Llais



1

# Ehangu Gwylio gyda'n Cynnwys

**Mae S4C yn fwy na sianel deledu –** mae'n gyrchfan greadigol unigryw sy'n ein cysylltu ni â bywyd cyfoes Cymru drwy'r Gymraeg. Mewn byd lle mae dewis yn ddiderfyn, mae'n rhaid i S4C sefyll allan gyda chynnwys sy'n creu sŵn, yn cynnig profiad unigryw ac yn denu cynulleidfaoedd amrywiol. Gyda'r cyfrifoldeb unigryw dros adlewyrchu diwylliant a chymunedau Cymru, mae gofyn i S4C ehangu ei chyrhaeddiad. Rhaid symud o lenwi amserlen deledu at fodel comisiynu strategol sy'n defnyddio data i dargedu cynulleidfaoedd penodol ar draws ein platfformau, a chreu cynnwys sy'n diwallu arferion gwylio cyfoes. Efallai na all S4C fod yn bopeth i bawb drwy'r amser, ond ein nod yw cynnig rhywbeth i bawb. Drwy ehangu gwylio gyda chynnwys gafaelgar, byddwn yn sicrhau bod S4C yn darparu llwyfan lewyrchus i'r Gymraeg.

## Camau Gweithredu

**Dros gyfnod y strategaeth, byddwn yn:**

- Blaenoriaethu cynnwys sy'n afaelgar, yn hawdd ei hyrwyddo ac yn denu gwylwyr at S4C.
- Comisiynu cynnwys sy'n bwydo arferion gwylio newydd ar blatfformau digidol, gan ddyfnhau a chyfoethogi ein harlwy.
- Symud y tu hwnt i lenwi amserlen linol at ddull comisiynu strategol sy'n gyrru gwylio ar draws platfformau.
- Addasu sut rydym yn mesur perfformiad ein cynnwys, gan dynnu ar ddata manwl am ymwneud cynulleidfaoedd â'n cynnwys ar wahanol blatfformau.
- Targedu carfannau penodol o'n cynulleidfa gyda'n cynnwys, er mwyn ehangu nifer y gwylwyr sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac S4C.
- Sicrhau ein bod yn adlewyrchu cymunedau ar hyd a lled Cymru, a thrwy hynny newid canfyddiadau am frand S4C.
- Bod yn gartref i wyliau a digwyddiadau cenedlaethol i Gymru gyfan o bob cefndir i'w mwynhau, gan ddyfnhau'r profiad hynny i'r gwylwyr ar draws ein platfformau.
- Sicrhau hawliau byw, ecsgliwsif lle bo hynny'n bosibl, ar gyfer chwaraeon poblogaidd, er mwyn denu a gwasanaethu cynulleidfa eang.
- Clustnodi cyllideb ar gyfer cynnwys o'r radd flaenaf – o blant i ddrama – a fydd hefyd yn ennill gwobrau ac yn dod â bri a chyfleoedd newydd i S4C yn rhyngwladol.



Hafiach

## Beth fydd llwyddiant?

- ✓ **Ehangu cyrhaeddiad S4C yng Nghymru, ymhlith siaradwyr Cymraeg, ac ar draws y DU.**
- ✓ **Cynyddu'r nifer o wylwyr iau, gwylwyr sy'n llai hyderus eu Cymraeg neu'n byw ar aelwydydd cymysg eu hiaith, a chynulleidfaoedd ar incwm is.**
- ✓ **Gwella canfyddiad o frand a chynnwys S4C ymhlith cynulleidfaoedd amrywiol.**

# 2

# Trawsnewid yn Ddigidol-yn-Gyntaf

**Mae S4C eisoes yn fwy na sianel deledu –** mae'n byw ar ystod blatfformau digidol poblogaidd lle mae siaradwyr Cymraeg yn canfod eu cynnwys. Gyda mwy o wylwyr yn troi at ffrydio, mae adeiladu presenoldeb cryf ar draws platfformau digidol yn allweddol. Er mwyn parhau ar y daith hon, mae'n rhaid i ni fabwysiadu meddylfryd digidol-yn-gyntaf – nid yn unig o ran comisiynu a chyhoeddi cynnwys – ond ar draws pob rhan o'r sefydliad. Mae hynny'n golygu trawsnewid systemau, llifoedd gwaith a'n diwylliant sefydliadol i fod yn hyblyg, yn ymatebol ac yn barod ar gyfer y cynulleidfaoedd digidol sydd bellach yn ganolog i'n cenhadaeth. Dim ond drwy drawsnewid yn ddigidol-yn-gyntaf gallwn gystadlu, arloesi, a gwneud y Gymraeg yn amlwg yn yr oes ddigidol.

## Camau Gweithredu

**Dros gyfnod y strategaeth hon, byddwn yn:**

- Datblygu ein strategaeth cyhoeddi cynnwys gyda meddylfryd digidol-yn-gyntaf.
- Annog mwy o wylio ar-lein, gan sicrhau bod gwylio digidol yn gyfran gynyddol uwch o'r holl wylio, a chynorthwyo ein cynulleidfaoedd wrth droi yn ddigidol.
- Gwella amlygrwydd S4C Clic ar draws platfformau teledu clyfar drwy gryfhau ein perthnasau â nhw.
- Hwyluso darganfod ein cynnwys ar ystod o blatfformau digidol drwy rannu metadata yn effeithiol.
- Datblygu presenoldeb ac amlygrwydd cynnwys S4C ar iPlayer drwy nodweddion ychwanegol a phersonoleiddio.
- Cynyddu'r defnydd o ffrydiau byw wedi'u curadu i wella mynediad at gynnwys perthnasol i gynulleidfaoedd penodol.
- Cynyddu'r ffenestr wylio ar-alw fel bod llyfrgell gyfoethog o gynnwys S4C ar gael i'w mwynhau am gyfnod estynedig.
- Parhau i esblygu gwasanaeth digidol Newyddion S4C er mwyn darparu newyddion dibynadwy ar blatfformau digidol.
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyhoeddi cynnwys ffurf-fer sy'n cyrraedd cynulleidfaoedd newydd, yn hyrwyddo ein brand a'r iaith Gymraeg.
- Arbrofi gyda, ac ymgorffori technolegau newydd i'n darpariaeth, gan sicrhau bod S4C yn arloesol ac yn diwallu disgwyliadau cynulleidfaoedd digidol.
- Addasu llifoedd gwaith, systemau a phrosesau ac ailgyfeirio ein hadnoddau mewnol i gefnogi'r weledigaeth digidol-yn-gyntaf, gan sbarduno mwy o ddefnydd o ddeallusrwydd artiffisial (AI).




Pencampwriaeth Dartiau'r Byd WDF

## Beth fydd llwyddiant?

- ✓ Cynyddu oriau gwylio S4C ar draws platfformau ffrydio.
- ✓ Gwella amlygrwydd a darganfyddadwyedd S4C ar blatfformau teledu clyfar.
- ✓ Cynyddu'r nifer o ddefnyddwyr actif wythnosol a misol ar S4C Clic ac iPlayer.

3

# Cydweithio i weld Cymru'n Ffynnu

**Mae S4C yn fwy na sianel deledu –**
mae'n asgwrn cefn i ddiwylliant cyfoes Cymru ac yn rym creadigol sy'n bywiogi'r iaith Gymraeg. Mewn cyfnod o newid, mae'n arf hanfodol yn y frwydr dros ddyfodol y Gymraeg drwy ei gwneud yn fyw, yn berthnasol ac yn destun balchder. Mae S4C yn gatalydd ar gyfer twf economaidd ledled y wlad, gan feithrin talent a chynnig llwyfan i leisiau Cymraeg o bob cefndir. Ond i wireddu'r weledigaeth hon yn llawn, rhaid i S4C gydweithio ag eraill – gan uno creadigrwydd, adnoddau ac uchelgais ar draws sectorau – er mwyn cyfrannu at Gymru hyderus, gynhwysol a ffyniannus, lle mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb ac yn rhan naturiol o fywyd pob dydd.

## Camau Gweithredu

**Dros gyfnod y strategaeth hon, byddwn yn:**

- Hyrwyddo a chefnogi'r iaith Gymraeg drwy ein holl weithgareddau, gan gynnwys cyfrannu at wireddu amcanion Cymraeg 2050.
- Drwy ein partneriaethau, gweithredu fel sefydliad angor ym maes diwylliant, y celfyddydau a'r sector cynhyrchu yng Nghymru i gefnogi twf a datblygu sgiliau.
- Cynnig cyfleoedd i feithrin talent o gefndiroedd amrywiol sy'n cael eu tangynrychioli gyda chyfleoedd gwaith a phrentisiaethau.
- Annog cyd-gynyrchiadau a phartneriaethau strategol o fewn y DU ac yn rhyngwladol fel dull o ddatblygu sgiliau a phrofiadau cwmnïau, gan ehangu eu gallu i gystadlu yn y diwydiant.
- Hwyluso mynediad cwmnïau newydd i'r sector, gan eu cefnogi i gyflwyno syniadau i S4C a darparu cymorth i ddatblygu eu gallu i greu cynnwys o ansawdd uchel.
- Cydweithio â darlledwyr eraill y DU i hybu a diogelu dyfodol cynaliadwy i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, er budd cynulleidfaoedd yng Nghymru a thu hwnt.
- Datblygu strategaeth S4C Masnachol er mwyn cynnal incwm masnachol fel cyfraniad pwysig i'r gyllideb gwasanaeth cyhoeddus, a meithrin partneriaethau masnachol newydd yng Nghymru.
- Sicrhau ein bod yn lleihau ôl-troed carbon gweithgareddau S4C.
- Datblygu canfyddiad ynghylch S4C fel cyflogwr agored a chynhwysol, sydd yn buddsoddi yn ei phobl, ac yn cynnig swyddi a chyfleoedd ar draws Cymru gyfan.



STAD

## Beth fydd llwyddiant?

- ✓ **Cynyddu'r arferiad o ymwneud ag S4C, ac o ganlyniad defnydd rheolaidd o'r Gymraeg, ymhlith siaradwyr Cymraeg a phobl ifanc yn enwedig.**
- ✓ **Ehangu ardrawiad economaidd a chymdeithasol gweithgareddau S4C.**
- ✓ **Gwella'r gynrychiolaeth ar-y-sgrin ac oddi-ar-y-sgrin o gymunedau sy'n cael eu tangynrychioli.**

# Cyflawni'r Strategaeth yn ystod 2025-26

Amcan 1

# Ehangu Gwylio gyda'n Cynnwys



Sean Fletcher: Cyfrinachau'r Llong

## Uchafbwyntiau Cynnwys 2025–26

**Roedd 2025–26 yn flwyddyn o gynnwys uchelgeisiol ac amrywiol – cyfuniad o gyfresi poblogaidd yn dychwelyd, comisiynau newydd beiddgar, a chyd-gynyrchiadau rhyngwladol. Yn unol â'r blaenoriaethau Strategaeth 2030 – a gyhoeddwyd ym mis Medi 2025 – anelwyd at gomisiynu mwy o gynnwys gafaelgar a fyddai'n apelio at wylwyr iau, gwylwyr llai rhugl yn y Gymraeg, a chartrefi cymysg eu hiaith. Dyma flas ar rai o'r uchafbwyntiau.**

Yn y maes adloniant, mae Y Llais yn un o'r cyfresi sydd â'r gallu i ddenu cynulleidfa ehangach a mwy amrywiol at S4C. Wrth iddi ddychwelyd am ail-gyfres, unwaith eto fe wnaeth apelio at gynulleidfa iau (roedd yn un o'r cyfresi oriau brig prin ar unrhyw un o'r prif sianeli i gael dros hanner eu gwylwyr dan 45 oed), a denu hanner ei gwylwyr o blith gwylwyr llai rhugl neu di-Gymraeg. Adeiladodd Amour a Mynydd hefyd – fformat wreiddiol o Gymru – ar ei chyfres flaenorol, gyda chlipiau a chynnwys atodol ar y cyfryngau cymdeithasol yn cyrraedd cynulleidfa ifanc ac eang.

Profodd Y Cyfweliad – cyfres newydd wedi'i seilio ar y fformat byd-eang Les Rencontres du Papotin, lle mae panel o gyfranwyr niwroamrywiol yn cyfweld ag wynebau cyhoeddus – yn boblogaidd. Cyrhaeddodd gynulleidfa ifanc, derbyniodd ganmoliaeth gyson, ac enillodd un o'r sgoriau gwerthfawrogiad uchaf ymhlith ein cyfresi yn 2025–26. Mae dwy gyfres bellach wedi'u comisiynu.

Bu drama unwaith eto'n ganolog i'n harlwy. Dychwelodd Bariau gyda chyfres a brofodd allu darlledu gwasanaeth cyhoeddus i gyrraedd cynulleidfaoedd amrywiol – gyda 48% o'i gwylwyr yn llai rhugl neu yn ddi-Gymraeg. Rhyddhawyd Y Golau: Dŵr fel bocs set ar Clic ac iPlayer i gydfynd â darllediad llinol y bennod gyntaf, gan brofi'n un o'n dramâu mwyaf poblogaidd ar-alw erioed ar y llwyfannau hynny, a chyrhaeddodd restr fer y ddrama orau yng Ngwobrau RTS Cymru, ac fe'i enwebwyd am wobr 'Best Returning Drama' yn y Deyrnas Unedig yng ngwobrau Broadcast. Dychwelodd Stad a Dal y Mellt yn ystod y flwyddyn; gyda Pobol y Cwm a Rownd a Rownd – yr olaf yn dathlu ei phen-blwydd yn 30 oed ym mis Medi 2025 – yn parhau i ennill gwylwyr newydd ar y llwyfannau digidol.

Ar y sgrin fawr, dangoswyd dwy ffilm S4C yn rhai o brif wyliau ffilm y DU: cynhaliwyd dangosiad premiere Deyrnas Unedig ein ffilm Effi o Blaenau yng Ngŵyl Ffilm Glasgow, gan dderbyn adolygiadau cadarnhaol; a dangoswyd y ddrama-opera Tanau'r Lloer am y tro cyntaf yng Ngŵyl Ffilm Ryngwladol Caeredin, cyn iddi gael ei cyd-ddarlledu ar Ddydd Gwyl Dewi ar S4C a Channel 4.

Roedd 2025–26 yn flwyddyn arbennig o flaengar yn ein darpariaeth chwaraeon. Am y tro cyntaf erioed, daeth hawliau ecsgliwsif gemau nos Wener y Bencampwriaeth Rygbi Unedig (URC) i S4C. Ac aethom ati i gyd-gynhyrchu gêm rygbi ryngwladol am y tro cyntaf, sef gêm agoriadol taith y Llewod mewn partneriaeth â'r darlledwr Gwyddelig TG4.

Mewn partneriaeth newydd â BBC Cymru, dilynom dîm pêl-droed dynion Cymru drwy rowndiau rhagbrofol Cwpan y Byd, ac S4C oedd yr unig sianel i chi fedru gwylio pob un o gemau pêl-droed menywod Cymru yn ei hymddangosiad cyntaf ym mhencampwriaeth yr Ewros.

Cyflwynwyd dartiau byw am y tro cyntaf erioed, gan brofi'n llwyddiant ysgubol, a chynigiom lwyfan i ras olaf Geraint Thomas fel seiclwr proffesiynol drwy ddarlledu cymal olaf Taith Prydain trwy dde Cymru gan orffen yng Nghaerdydd a denu cynulleidfa uchel. Ac ymysg ein darpariaeth o ddigwyddiadau awyr-agored, darlledwyd Marathon Eryri, Triathlon Cymru, a Hanner Marathon Caerdydd.

Parhaodd Y Byd ar Bedwar i fod yn asgwrn cefn i'n newyddiaduraeth ymchwiliadol, gan graffu ar y straeon sydd bwysicaf i Gymru. Cafodd cryfder y gwaith hwn ei gydnabod pan enwebwyd y rhaglen a ymchwiliodd i achos Huw Edwards yng nghategori Newyddion a Materion Cyfoes yng Ngwobrau BAFTA Cymru 2025. Ochr yn ochr â hynny, parhaodd Y Byd yn ei Le i graffu ar wleidyddiaeth a bywyd cyhoeddus Cymru.

Cafodd ein gwasanaeth newyddion dyddiol Newyddion S4C, flwyddyn gref o ohebu ar straeon adref a thramor – gyda chydnabyddiaeth am adroddiadau ar Esgobaeth Bangor arweiniodd at ymddiswyddiad Archesgob Cymru, a gohebu o'r Dwyrain Canol yn rhoi persbectif Cymreig ar ddigwyddiadau byd-eang. Braf oedd gweld un o brif gyflwynwyr Newyddion S4C, Bethan

Rhys Roberts, yn ennill Gwobr Siân Phillips BAFTA Cymru am ei chyfraniad hirhoedlog i newyddiaduraeth a darlledu yng Nghymru.

Hefyd ym maes newyddion a materion cyfoes, datgelwyd am y tro cyntaf sut y caniatawyd i Neil Foden esgyn drwy'r system addysg yn ein dogfen O Brifathro i Bedoffeil – penllanw gwaith ymchwil dros ddegawd. Defnyddiodd Maxine Hughes ei phrofiad personol ei hun yn Canser ar ba gost? i graffu ar safon gofal canser yng Nghymru. Ac fe lwyddodd Mari Grug: Un Dydd ar y Tro – stori bersonol y cyflwynydd yn dilyn ei diagnosis canser – i ddenu'r sgôr gwerthfawrogiad cynulleidfa uchaf ar draws holl raglenni S4C eleni.

Yn ein dogfennau ffeithiol eraill, daeth Y Crwydryn – ein ffilm yn dathlu canu gwlad yng Nghymru – yn 'Pick of the Day' yn The Observer, gyda'r ffilm yn profi'n hynod o boblogaidd dros gyfnod y Nadolig gyda mwyafrif helaeth y gwylio'n digwydd wedi'r darllediad llinol cyntaf.

Ochr yn ochr â'r comisiynau newydd a'r cyrhaeddiad ehangach, mae S4C yn parhau i wasanaethu ein cynulleidfa graidd – y gwylwyr ffyddlon sy'n troi atom ni bob dydd ar y gwasanaeth llinol. Law yn llaw â Newyddion S4C fel conglfeini'r amserlen, parhaodd Heno a Prynhawn Da i ddarparu cymysgedd difyr o nodwedd, newyddion a sgyrsio gan roi sylw i bob cwr o Gymru. A pharhaodd Ffermio a Cefn Gwlad i gynnig sylw i fywyd cefn gwlad Cymru a'r materion sydd o bwys i'r byd amaethyddol.

Yn ein darpariaeth i bobl ifanc a phlant, cyhoeddwyd yn Awst 2025 y byddai Bluey yn ymuno ag arlwy S4C. Fe laniodd o Awstralia ym Maes Awyr Caerdydd ym mis Tachwedd 2025, cyn llwyddo i ennill y cyrhaeddiad uchaf ymhlith ein holl gynnwys plant eleni. Lansiwyd Help Llaw – cyfres gyda phlant ag anghenion ac anableddau dysgu dwys yn cael bod yn sêr – a denodd Parc Glan Gwil gynulleidfa iau gref ar yr iPlayer.

Ar gyfer plant hŷn, cyhoeddwyd ail gyfres o Y Coridor, a chyrhaeddodd y ddrama Hafiach restr fer C21 International Drama Awards. Yn y maes animeiddio, lansiwyd Egin Bach – animeiddiad Cymraeg gwreiddiol newydd – fel cam tuag at adeiladu eiddo deallusol cynhenid.

Ac ar Hansh, lansiwyd Bar Hansh – cyfres ffres gyda chwech o bobl ifanc yn cystadlu am £5,000 drwy redeg bar Cymreig cyntaf y strip yn Zante – a daeth ein ffilm fer Teth, a gomisiynwyd ar gyfer noson agoriadol Gŵyl Iris, yn ffenomen ryngwladol: y ffilm Gymraeg gyntaf erioed i'w dangos yn India a Tsieina, gyda chyfres o wobrau i'w henw, gan gynnwys Ffilm LGBT Gorau yng Ngŵyl Ffilm Fer California a'r Ffilm Fer Cwiar Gorau yn Queer-Streifen yn yr Almaen.

Mae'r cyfan yn dystiolaeth o gryfder a chreadigrwydd ein sector cynhyrchu yng Nghymru – ac yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer y daith at gyflawni uchelgais Strategaeth 2030 dros y blynyddoedd nesaf.




## Mesur ein perfformiad

Mae S4C wedi gosod cyfres o ddangosyddion er mwyn asesu cyrhaeddiad ein cynnwys, yn ogystal â'r gwerthfawrogiad ohono. Mae'r rhain yn cyfateb i'r meini prawf llwyddiant a osodwyd yn Strategaeth 2030. 2025–26 yw'r flwyddyn gyntaf o adrodd yn erbyn y dangosyddion newydd hyn.

Fel pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, mae S4C yn gweld nifer y gwylwyr ar y gwasanaeth llinol yn lleihau wrth i arferion gwylio symud tuag at lwyfannau digidol. Yn unol â'r duedd hon, gostyngodd cyrhaeddiad a chyfran S4C o'r gwylio yn 2025–26 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda'r gostyngiad i'w weld ar draws pob grŵp oedran.

Mae cyfran S4C o'r gwylio yn parhau'n is na'r lefel rydym yn anelu ati. Mewn amgylchedd lle mae cyfanswm gwylio sianeli yn lleihau ar draws y diwydiant, ein huchelgais yw perfformio'n well na darlledwyr eraill ac ennill cyfran fwy o'r gwylio sydd ar ôl. Rydym yn canolbwyntio ar gadw ein cynulleidfa drwy gynnig cynnwys gafaelgar a nodedig, ac ar dyfu ein gwylio digidol.


Mae sgoriau gwerthfawrogiad cynulleidfa cynnwys S4C yn parhau'n gryf ymhlith siaradwyr Cymraeg, gyda gwylwyr 16–44 oed yn rhoi'r sgôr uchaf eleni am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae'r sgoriau ymhlith gwylwyr 65 oed a hŷn wedi gostwng rhywfaint, sydd fwy na thebyg yn adlewyrchu'r penderfyniad strategol i gynnig rhywbeth i bawb, er na fydd popeth yn apelio at bawb.

Mae gwaith pwysig i'w wneud er mwyn bod ar y trywydd cywir i gyflawni'r strategaeth erbyn 2029–30, a bydd hynny'n galw am ddull comisiynu sydd wedi'i wreiddio fwyfwy yn y data sydd gennym, er mwyn targedu carfannau penodol o'r gynulleidfa.

Oed 16+ Oed 16–44 Oed 45–64 Oed 65+

### Cyrhaeddiad wythnosol S4C fesul oedran: Cymru


(Ffynhonnell: Barb)




Oed 16+ Oed 16–44 Oed 45–64 Oed 65+

### Cyrhaeddiad misol S4C fesul oedran: Siaradwyr Cymraeg (yng Nghymru)


(Ffynhonnell: Barb)




Cymru: Holl Oriau Siaradwyr Cymraeg: Holl Oriau Siaradwyr Cymraeg: Oriau Brig

### Cyfran gwylio S4C


(Ffynhonnell: Barb)



Cymru · Siaradwyr Cymraeg · Tu allan i Gymru

## Cyrhaeddiad wythnosol S4C (4+)


(Ffynhonnell: Barb)




Oed 16-44 (Cymru) · Oed 45-64 (Cymru) · C2DE (Cymru) · C2DE (Siaradwyr Cymraeg) · Aelwydydd rhannol Gymraeg

## Cyrhaeddiad misol S4C fesul grwpiau demograffig


(Ffynhonnell: Barb)




Oed 16+ · Oed 16–44 · Oed 45–64 · Oed 65+

## Sgorau gwerthfawrogiad rhaglenni S4C (Siaradwyr Cymraeg) (/100)

(Ffynhonnell: TRP)



Amcan 2

# Trawsnewid yn Ddigidol-yn-Gyntaf




Merched Wrecsam AFC v Merched Dinas Abertawe

## Datblygiadau'r flwyddyn ddiwethaf

**Bu 2025–26 yn flwyddyn o gynnydd cyson tuag at y meddylfryd digidol-yn-gyntaf y mae Strategaeth 2030 yn galw amdano. Mae'r trawsnewid hwn yn ehangach na chyhoeddi cynnwys ar lwyfannau digidol yn unig – mae'n golygu newid sylfaenol yn ein ffordd o gomisiynu, yn yr amlygrwydd a roddir i wahanol lwyfannau, ac yn y ffordd y mae S4C yn gweithredu fel sefydliad.**

Gyda thwf sylweddol yn y niferoedd sy'n ffrydio cynnwys ar BBC iPlayer ac ar YouTube, mae S4C wedi ffurfio partneriaethau newydd gyda'r ddau blatfform poblogaidd, er mwyn sicrhau mwy o amlygrwydd i gynnwys Cymraeg yno. Bydd y bartneriaeth gyda'r iPlayer yn arwain at amlygrwydd i gynnwys S4C ar y brif hafan, mwy o ffrydiau byw, ac amlygrwydd i gynnwys Cyw a Stwnsh o fewn y gofod plant. Mae'r iPlayer felly'n rhan bwysig iawn o'n harlwy digidol, ac rydym yn falch o weithio gyda'r BBC i wella'r nodweddion a fydd ar gael i wylwyr cynnwys S4C ar yr iPlayer o 01 Ebrill 2026 ymlaen – law yn llaw â'n buddsoddiad ein hunain mewn ehangu argaeledd S4C Clic.

Cymerodd ehangu argaeledd S4C Clic gam pwysig ymlaen yn 2025–26. Mae S4C wrthi'n gweithio gyda nifer o lwyfannau – gan gynnwys Sky, Virgin Media ac LG – i sicrhau bod ap S4C Clic ar gael ar fwy o setiau teledu dros y misoedd nesaf. Mae rhan helaeth o'r gwaith hwn wedi'i sbarduno gan ddarpariaethau Deddf Cyfryngau 2024, sy'n ei gwneud yn ofynnol i lwyfannau cysylltiedig sicrhau bod apiau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn weladwy ac yn hawdd eu canfod. Wrth i fwy o lwyfannau ymateb i'r ddeddfwriaeth, disgwyliwn weld twf yn nefnydd Clic dros y blynyddoedd nesaf.

Mae S4C hefyd yn bartner gweithredol ar blatfform Freely – gwasanaeth IPTV gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU – sy'n profi'n bwysig wrth gyrraedd cartrefi sy'n symud oddi wrth y gwasanaethau darlledu daearol traddodiadol.

O ran ein dull o gomisiynu a chyhoeddi, daeth elfennau digidol-yn-gyntaf yn fwyfwy amlwg dros y flwyddyn. Ers dechrau Ionawr 2026, rydym wedi bod yn cyhoeddi penodau newydd o Pobol y Cwm a Rownd a Rownd am 06:00 ar fore'r darllediad llinol – cam sy'n rhoi rhyddid i wylwyr ddilyn y straeon ar amser sy'n gweithio iddynt, ac sy'n adlewyrchu disgwyliadau cyfoes y gynulleidfa ddigidol. Mae'r effaith eisoes yn amlwg: erbyn hyn, mae chwarter y gwylio ar Clic ac iPlayer ar gyfer y ddwy gyfres yn digwydd cyn amser y darllediad llinol cyntaf.

Yn y maes chwaraeon, mae ein platfformau digidol yn cynnig cyfle i ni ehangu ein darpariaeth, gan gynnwys drwy gynnwys ffurf fer. Mae'r brand Ralio, sydd wedi'i hen sefydlu, wedi esblygu o ddarparu cynnwys Pencampwriaeth Rali'r Byd i adlewyrchu'r diddordeb mewn moduron o bob math ar draws Cymru, gyda chyfresi poblogaidd fel Howard yn y Garej a Mini Hana Medi. Mae cynnwys Ralio bellach ar gael yn bennaf ar iPlayer, Clic a YouTube, ac mae'r cynnwys ffurf fer ar y cyfryngau cymdeithasol yn perfformio'n arbennig o gryf – yn ystod rali diwedd 2025 o Gaerfyrddin i Carlisle, denodd un clip o hen Lancia dros 2 filiwn o wylwyr.

Yn yr un modd, mae Sgorio yn parhau i ddatblygu pêl-droed menywod domestig drwy ffrydio gemau o'r Genero Adran Premier. Darlledwyd 11 gêm fyw dros y tymor diwethaf (5 yn llinol a 6 yn ddigidol yn unig) – nifer sy'n cynyddu o flwyddyn i flwyddyn – gyda gemau Wrecsam, Caerdydd ac Abertawe yn arbennig o lwyddiannus. Rydym hefyd yn dilyn hynt ein tîm pêl-rwyd, Dreigiau Caerdydd, yn y Netball Super League, gydag uchafbwyntiau wythnosol drwy'r tymor ar ein cyfryngau cymdeithasol.

Daeth comisiynu cynnwys yn benodol ar gyfer llwyfan unigol yn elfen bwysig o weithredu Strategaeth 2030. Cyhoeddwyd Yr Alwad – y ddrama fertigol gyntaf erioed i S4C ei chomisiynu'n benodol ar gyfer TikTok – ochr yn ochr â chyfresi newydd eraill ar Hansh ac S4C Dysgu Cymraeg sydd wedi'u creu'n benodol ar gyfer y llwyfannau digidol y mae pobl ifanc a dysgwyr yn eu defnyddio.

Mae digwyddiadau byw yn parhau'n ganolog i'n cynnig, ac yn rhoi cyfle gwerthfawr i ddatblygu'r arlwy digidol. Bellach, rydym yn cynnig amrywiaeth o ffrydiau byw o brif ddigwyddiadau cenedlaethol Cymru bob haf – gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd, a'r Sioe Frenhinol. Ym mis Awst 2025, ychwanegwyd ffrwd 'Sedd yn y Pafiliwn' at dudalen hafan S4C ar yr iPlayer, ochr yn ochr â ffrwd y gwasanaeth llinol – cam pwysig sy'n cyfoethogi'r profiad i'r gynulleidfa gartref ac yn rhoi'r dewis yn nwylo'r gwyliwr.

Mae'r data o ddigwyddiadau haf 2025 yn galonogol. Ffrydiwyd 191 awr o gystadlu o bafiliynau coch, gwyn a gwyrdd Eisteddfod yr Urdd ar Clic – cynnydd o 18% ar y flwyddyn flaenorol. Cofnodwyd dros 259,000 o sesiynau ar gyfer ffrydiau byw'r Sioe Frenhinol – cynnydd o 36% ar y flwyddyn gynt, gyda'r twf mwyaf ar Facebook. Yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam, cynyddodd yr oriau gwylio ar Clic a'r iPlayer 54%.

Mae perfformiad ein cynnwys ffurf-fer ar y cyfryngau cymdeithasol yn parhau i dyfu. Eleni, denodd cynnwys Y Llais ar draws YouTube, Facebook, Instagram a TikTok gyfanswm o 9.6m o argraffiadau a 5.3m o sesiynau gwylio, gyda'r clip mwyaf llwyddiannus – 'O Glasgow i Lanrwst' – yn denu dros 718,000 o sesiynau gwylio ar ei ben ei hun. Roedd cyfran uchel o glipiau'r gyfres yn denu dros 10,000 o wylwyr yr un, sy'n arwydd clir bod ein cynnwys yn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd – yn enwedig pobl ifanc na fyddent o reidrwydd yn troi at y gwasanaeth llinol.

O ran ein darpariaeth newyddion digidol, parhaodd y twf yn nefnydd y wefan a'r ap. Datblygwyd presenoldeb gwasanaeth digidol Newyddion S4C ymhellach ar Instagram, a TikTok, lle mae'r gynulleidfa'n sylweddol iau na'r gynulleidfa ar gyfer y rhaglenni newyddion teledu traddodiadol.

Ochr yn ochr â'r datblygiadau golygyddol, daeth prosiect ymchwil gyda Media Cymru i ben yn ystod 2025–26. Nod y prosiect oedd helpu S4C i baratoi'n well ar gyfer y newidiadau yn y dirwedd ddigidol – yn enwedig er mwyn sicrhau bod ein cynnwys yn weladwy ac yn hawdd ei ganfod ar y prif lwyfannau cysylltiedig yn y dyfodol. Bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn dod yn fwy amlwg yn ystod 2026–27, wrth i Clic gael ei lansio ar fwy o lwyfannau gyda gwell seilwaith metadata yn ei le i wella darganfyddadwyedd ein cynnwys.

Mae 2025–26 felly'n cynrychioli'r flwyddyn gyntaf o adrodd yn erbyn meini prawf llwyddiant Strategaeth 2030. Er bod mwy eto i'w wneud, mae'r hyn a gyflawnwyd hyd yma yn sicr yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer datblygu gweithgareddau digidol S4C ymhellach.

## Mesur ein perfformiad

Mae'r dangosyddion isod yn galluogi S4C i fesur ein cynnydd tuag at ddod yn ddarlledwr digidol-yn-gyntaf. Maent yn cwmpasu tri math o weithgarwch digidol: gwylio cynnwys hir ar lwyfannau ar-alw (S4C Clic, BBC iPlayer a YouTube), ymwneud â'n cynnwys ffurf-fer ar y cyfryngau cymdeithasol, a defnydd o wasanaeth digidol Newyddion S4C.

Hon yw'r flwyddyn gyntaf o adrodd yn erbyn y dangosyddion newydd hyn, ac rydym yn hyderus y gwelwn gynnydd graddol ar draws pob un ohonynt dros y blynyddoedd nesaf wrth i ni weithio tuag at gyflawni amcanion Strategaeth 2030. Mewn cyd-destun lle mae pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn gweithio i gynyddu'r defnydd o lwyfannau digidol, mae'n flwyddyn galonogol – ond mae mwy eto i'w wneud.

Y darlun mwyaf calonogol yw twf parhaus yn y ffrydio o gynnwys S4C: cynyddodd nifer y defnyddwyr misol 3% ar Clic, a 16% ar yr iPlayer o gymharu â'r flwyddyn gynt; gyda chynnydd o 17% mewn oriau gwylio ar y llwyfannau hyn dros yr un cyfnod. Tyfodd ein gwylio ar YouTube hefyd yn sylweddol, gyda chynnydd o dros 40% mewn oriau gwylio misol.

Cynyddodd argraffiadau ein cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol eto eleni ar draws Facebook, Instagram a TikTok, gyda phatrwm tebyg o ran ymwneud â'r cynnwys ar y llwyfannau hyn. Mae hyn yn arwydd bod ein cynnwys ffurf-fer yn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd – yn enwedig pobl ifanc na fyddent o reidrwydd yn troi at y gwasanaeth llinol.

Mae defnydd o wasanaeth digidol Newyddion S4C wedi parhau i dyfu hefyd, gyda defnyddwyr wythnosol yr ap 5% yn uwch ers 2024–25.

At ei gilydd, mae'r tueddiadau yn awgrymu bod S4C yn symud i'r cyfeiriad cywir – ond mae mwy eto i'w wneud.

Yr Alwad / Eisteddfod yr Urdd / Y Ddadl Fawr









Defnyddwyr misol Clic · Defnyddwyr misol iPlayer

## Defnyddwyr misol


(Ffynonellau: S4C, BBC)




Sesiynau gwylio misol Clic · Sesiynau gwylio misol iPlayer

## Sesiynau gwylio misol (000s)


(Ffynonellau: S4C, BBC)




Oriau gwylio misol Clic · Oriau gwylio misol iPlayer · Oriau gwylio misol YouTube

## Argraffiadau misol cynnwys cyfryngau cymdeithasol S4C (m)


(Ffynonellau: S4C, BBC, YouTube)




Facebook · Instagram · TikTok


## Argraffiadau misol cynnwys cyfryngau cymdeithasol S4C (m)

(Ffynonellau: Sprout / llwyfannau unigol)




## Ymwneud misol efo cynnwys cyfryngau cymdeithasol S4C (000s)

(Ffynonellau: Sprout / llwyfannau unigol)




## Defnyddwyr wythnosol Newyddion S4C digidol

(Ffynonellau: S4C)




Parc Glan Gwil



## Amcan 3

# Cydweithio i Weld Cymru'n Ffynnu




Y Deis

## Cyfraniad Cymdeithasol ac Economaidd

**Mae S4C yn fwy na sianel deledu. Fel y mae Strategaeth 2030 yn ei nodi, rydym yn rym creadigol yn niwylliant Cymru, yn arf hanfodol ar gyfer dyfodol y Gymraeg, ac yn gatalydd i'r economi greadigol. Mae'r adran hon yn adrodd ar y cyfraniad ehangach hwnnw yn ystod 2025–26.**

### Y Gymraeg

Y Gymraeg yw'r rheswm dros fodolaeth S4C, ac mae cefnogi amcanion Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru – sef cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd dyddiol o'r iaith erbyn 2050 – yn flaenoriaeth uniongyrchol. Llywir y gwaith hwn gan ddwy ddogfen bwrpasol: ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda thîm Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, sydd wedi bod mewn lle ers 2023; ac ein Strategaeth y Gymraeg sy'n cael ei diweddaru yn ystod 2026–27 yn sgil cyhoeddi Strategaeth 2030.

Yn ystod 2025–26, datblygwyd ein partneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol drwy benodi tiwtor sy'n gweithio ar ran S4C. Mae'r tiwtor yn cefnogi cystadleuwyr ar gyfresi fel Y Llais ac Y Deis, ynghyd â staff S4C ac unigolion sy'n gweithio yn y sector ehangach.

Cynhaliwyd Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg am yr ail flwyddyn ym mis Hydref 2025, mewn partneriaeth â BBC Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Roedd hyn yn cwmpasu cynnwys arbennig ar ein llwyfannau a'r cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â digwyddiadau i ddysgwyr yng Nghaerdydd, Yr Egin, a Stiwdios Aria ar Ynys Môn.

Mae'r ymrwymiad i ddysgwyr a siaradwyr newydd hefyd i'w weld yn nhwf cyflym ein cynnwys digidol ar gyfer dysgwyr: tyfodd cyrhaeddiad cyfrifon cyfryngau cymdeithasol S4C Dysgu Cymraeg dros 50% yn ystod y flwyddyn, ac mae nifer y dilynwyr ar y cyfrifon hynny wedi mwy na dyblu yn yr un cyfnod. Mae ein cylchlythyr misol i ddysgwyr bellach yn cyrraedd dros 4,800 o danysgrifwyr.

Mae ein gwaith addysgol hefyd yn rhan annatod o'r ymrwymiad i'r iaith ac i Gymru gyfoes. Yn ystod 2025–26, parhaodd ein tîm addysg i ymweld ag ysgolion a cholegau ar draws Cymru, gan ddefnyddio cynnwys S4C i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru ac i gyflwyno'r sector creadigol fel maes gyrfa atyniadol i bobl ifanc o bob cefndir. Drwy'r gwaith hwn rydym yn rhannu'r neges bod S4C i bawb, ac yn meithrin y genhedlaeth nesaf o siaradwyr, cynhyrchwyr cynnwys a chynulleidfaoedd Cymraeg.

Er gwaethaf ein hymdrechion, mae her yn parhau o ran amlygrwydd y Gymraeg yn y dirwedd ddigidol. Mae adroddiadau diweddar gan Gomisiynydd y Gymraeg yn dangos bod tri chwarter o bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol bron yn gyfan gwbl yn Saesneg, sy'n her sylweddol wrth gystadlu am eu sylw mewn ecosystem fyd-eang lle mae cynnwys Saesneg yn dominyddu oherwydd maint, cyllid ac algorithmau.

Wrth ddatblygu Strategaeth y Gymraeg S4C ymhellach, byddwn felly'n ehangu'r ffocws i ystyried sut y gallwn gefnogi aelwydydd cymysg eu hiaith a hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol.



Ralïo

## Partneriaethau diwylliannol a chelfyddydol

Mae S4C yn cydweithio ag amrywiaeth eang o bartneriaid ar draws Cymru er mwyn cyfoethogi ein cynnwys, ehangu ein cyrhaeddiad a chefnogi'r ecosystem ddiwylliannol Gymraeg.

Yn ystod 2025–26, parhaodd ein cefnogaeth i brif wyliau a sefydliadau diwylliannol y wlad – yn eu plith yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd, y Sioe Frenhinol a Tafwyl. Buom hefyd yn cydweithio â Ffilm Cymru a Cymru Greadigol i feithrin talent a chynyrchiadau ffilm Cymraeg, ac yn cefnogi gwobrau a chynlluniau sy'n hyrwyddo lleisiau Cymraeg ar draws y celfyddydau – gan gynnwys Bardd Plant Cymru (a reolir gan Llenyddiaeth Cymru, gydag S4C ymhlith y prif bartneriaid) a Gwobrau Cerddoriaeth Gymreig Ddu.



Eisteddfod Genedlaethol Cymru

## Amrywiaeth a chynhwysiant

Mae adlewyrchu Cymru heddiw yn ei holl amrywiaeth – yn ein cynnwys ac yn y criwiau sy'n cynhyrchu – yn ymrwymiad strategol craidd yn Strategaeth 2030.

Yn ystod 2025–26, parhaodd ein cefnogaeth i bartneriaid sy'n gweithio'n galed i hyrwyddo amrywiaeth a gwella cynhwysiant yn y sector ac mewn cymdeithas, gan gynnwys Pride Cymru, Gŵyl Iris, Culture Connect Wales, BAMEed a Disability Arts Cymru.

Dechreuodd S4C hefyd noddi categorïau Cymraeg a dwyieithog am y tro cyntaf yn ymgyrch Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, gan gyfuno ein rôl fel cartref chwaraeon Cymru â'n hymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg yn ehangach.

## Cefnogi economi Cymru

Mae S4C yn sefydliad angor i ddiwydiannau creadigol Cymru. Cyhoeddwyd astudiaeth annibynnol gan Wavehill yn ystod hydref 2025 – oedd yn seiliedig ar ddata blwyddyn ariannol 2024–25. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad fod gweithgareddau S4C wedi cefnogi dros 2,500 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru, ac wedi cyfrannu £150.3 miliwn mewn Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) i economi Cymru. Mae hyn yn cyfateb i £1.59 o GVA am bob £1 o incwm ffi'r drwydded a dderbyniwyd yn 2024–25. Yn yr un cyfnod, gwnaeth gweithgareddau S4C ddychwelyd £1.03 mewn trethi i'r Trysorlys am bob £1 a dderbyniwyd (Ffynhonnell: Wavehill, 2025).

Yn wir, mae gweithgareddau S4C yn cael effaith ledled Cymru. Yn ôl asesiad Wavehill, roedd 57% o wariant S4C yng Nghymru yn 2024–25 yn cael ei wneud y tu allan i Gaerdydd – cynnydd o bum pwynt canran ers astudiaeth 2022–23.

Mae rhaglenni cylchgrawn Heno a Prynhawn Da yn enghreifftiau clir o'r modd y mae comisiynau parhaus S4C yn cynnal swyddi'n lleol. Caiff y ddwy raglen eu darlledu'n fyw bob dydd o stiwdios Tinopolis yn Llanelli a Chaernarfon – cyfanswm o 90 munud o deledu byw bob dydd – gan roi sylw i newyddion, diwylliant a chymunedau o bob cwr o Gymru.

Cadarnhaodd asesiad Wavehill mai cyfraniad y ddwy raglen oedd £16.6 miliwn mewn GVA a 272 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru yn 2024–25 – cyfraniad sy'n cael ei deimlo'n arbennig mewn cymunedau y tu allan i Gaerdydd. Mae'r cynyrchiadau hefyd yn rhoi cyfle i staff a gweithwyr llawrydd llai profiadol ddatblygu sgiliau cynhyrchu byw, sy'n sail i'r sector creadigol ehangach yng Nghymru.

Yn ystod 2025–26, parhaodd S4C i gefnogi'r sector creadigol drwy'r Cronfeydd Cynnwys a Thwf Masnachol – sydd, yn ôl Wavehill, eisoes wedi datgloi gwerth cynhyrchu ychwanegol o dros £3 miliwn yng Nghymru.



Llond Bol o Japan

**Ar gyfer 2025–26, y rhaniad rhanbarthol llawn o wariant comisiynu cynnwys S4C oedd:**

| Rhanbarth | 2024-25 | 2025-26 | Trend |
|---|---|---|---|
| Y Gogledd | 27% | 27% | ← → |
| Y De | 52% | 53% | ↑ |
| Y Gorllewin | 18% | 19% | ↑ |
| Y tu allan i Gymru | 3% | 1% | ↓ |
| Cyfanswm | 100% | 100% | |

(Mae'r data uchod yn berthnasol i leoliad swyddfeydd y cwmnïau cynhyrchu, ac nid yw'n adlewyrchu gweithgarwch cynhyrchu neu wariant mewn lleoliadau ar draws Cymru. Gwnaethom gynnal adolygiad manwl o'r lleoliadau perthnasol ar gyfer pob cynhyrchiad yn ystod 2023–24 – mae'r data a ddarperir uchod yn adlewyrchu canlyniad yr adolygiad hwnnw).

## Hyfforddiant

Mae S4C hefyd yn cefnogi'r sector creadigol trwy raglenni hyfforddi gyda phartneriaid gan gynnwys TAC, Cynghrair Sgrin Cymru, 'It's My Shout' a chynllun Hansh Dim Sbin.

Lansiwyd dwy fwrsariaeth newydd hefyd yn ystod y flwyddyn: un mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gefnogi myfyrwyr blwyddyn gyntaf sy'n astudio modiwlau cyfrwng Cymraeg ym maes ffilm a chyfryngau, ac un gyda'r Ysgol Genedlaethol Ffilm a Theledu (NFTS) yng Nghymru i gefnogi myfyrwyr Cymraeg na allant fforddio cymryd lle ar gwrs NFTS.

## Cynaliadwyedd a'n hôl-troed carbon

Mae S4C wedi bod yn lofnodwr i'r 'Climate Content Pledge' gyda BAFTA Albert ers 2021. Mae'r ymrwymiad hwn yn ein harwain i ddefnyddio ein cynnwys ein hunain i helpu cynulleidfaoedd ddeall heriau newid hinsawdd a'r camau y gallant eu cymryd i fynd i'r afael â hwy.

O gynnig syniadau ailgylchu ac uwchgylchu ar Prynhawn Da, i wneud y gorau o adnoddau wedi'u hailddefnyddio ar Priodas Pum Mil – ynghyd ag eitemau rheolaidd mewn cynnwys prif ffrwd megis Newyddion S4C, Ffermio, a Garddio a Mwy – rydym yn normaleiddio cynaliadwyedd fel rhan annatod o'n cynnwys. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar straeon penodol sy'n tynnu sylw at faterion amgylcheddol, megis y rhaglen am Drychineb y Sea Empress a fu'n ymchwilio i effaith eang y drychineb honno, ac yn cynnig enghreifftiau o newid cadarnhaol mewn cynnwys poblogaidd megis Adeiladu'r Freuddwyd.

Ar y cyd â hynny, mae'n ofyniad cytundebol bod cynyrchiadau S4C yn defnyddio cyfrifiannell garbon Albert ac yn anelu at y broses ardystio.

Yn ystod 2025–26, comisiynodd S4C gwmni allanol – Green Business Solutions, drwy broses dendro – i gynllunio strategaeth ar gyfer lleihau carbon ar draws ein gweithgareddau corfforaethol, gan gynnwys allyriadau sgôp 1, 2 a 3. Disgwylir y strategaeth hon yn ystod 2026, gan greu gwaelodlin y bydd modd adrodd yn ei herbyn yn yr adroddiad nesaf. Rhagwelir y bydd y daith at sero net yn galw am newidiadau parhaus ar draws ein gweithgareddau corfforaethol a'n cadwyn gyflenwi dros y blynyddoedd nesaf.

## Mesur ein perfformiad

Mae'r dangosyddion ar gyfer yr amcan hwn yn cwmpasu cyfraniad ehangach S4C i Gymru – yn economaidd, yn gymdeithasol, ac o ran amrywiaeth a chynrychiolaeth. Fel gyda'n hamcanion eraill, 2025–26 yw'r flwyddyn gyntaf o adrodd yn erbyn y mesurau hyn, ac mae nifer ohonynt yn dal i gael eu sefydlu. Byddwn felly'n gallu adrodd yn fwy cyflawn wrth i'r data aeddfedu dros gyfnod y strategaeth.

Un o'n prif fesurau yw argraff gyffredinol siaradwyr Cymraeg o S4C. Eleni, rhoddodd siaradwyr Cymraeg sgôr o 6.4 allan o 10, sydd ychydig yn is na'r 6.6 a gofnodwyd yn 2024–25. Daw hyn ar ôl pedair blynedd o dwf cyson yn sgôr S4C – cyfnod pan oedd S4C yr unig ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus i weld cynnydd sylweddol yn ei sgôr. Mae'r gostyngiad diweddar hefyd yn cyd-fynd â'r tueddiad a welwyd ar draws pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus arall.

Mae cyfraniad economaidd a chymdeithasol S4C yn fesur allweddol arall o lwyddiant yr amcan hwn. Crynhoir prif ganfyddiadau astudiaeth annibynnol Wavehill, yn seiliedig ar ddata 2024–25, yn y ffeithlun.

Yn ystod 2025–26, canolbwyntiwyd ar adeiladu sylfaen ddata fwy cadarn ym maes amrywiaeth a chynrychiolaeth, er mwyn inni allu mesur ein perfformiad yn well yn y blynyddoedd i ddod. Yn Chwefror a Mawrth 2026, cynhaliwyd ymarfer monitro amrywiaeth ymhlith ein staff ein hunain a'r sector ehangach. Nid yw nifer yr ymatebion eto'n ddigon uchel i gyhoeddi ffigurau dibynadwy, ond mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu bod pobl o'r Mwyafrif Byd-Eang a phobl anabl wedi'u tangynrychioli yng ngweithlu S4C a'r sector. Byddwn yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â hyn, ac yn ailadrodd yr ymarfer yn 2027.

Yn ogystal, rydym wedi cyflwyno ffurflen newydd fel rhan o'n gwaith papur safonol i fonitro'r ffordd rydym yn cynrychioli gwahanol agweddau ar boblogaeth Cymru yn ein cynnwys – gan gwmpasu nodweddion gwarchodedig, iaith ac ardal ddaearyddol. Wrth i'r data hwn dyfu dros amser, byddwn yn ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau comisiynu er mwyn sicrhau ein bod yn adlewyrchu Cymru gyfoes yn ein cynnwys.





Mari Grug: Un Dydd Ar Y Tro

Oed 16+ Oed 16–44 Oed 45–64 Oed 65+

Argraff gyffredinol o S4C (Siaradwyr Cymraeg) (1-10

(Ffynhonnell: Beaufort Research)




Ciao! Colleen ag Owain



# S4C / Effaith Economaidd a Chymdeithasol 2024/25

wavehill
Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

**Yn 2024/25, trwy ei gwaith dydd-i-ddydd, fe wnaeth S4C...**

| cyflogi | cynhyrchu |
|---|---|
| **128** | **£8.8m** |
| staff cyfwerth ag amser-llawn (FTE) yng Nghymru | mewn gwerth ychwanegol gros (GVA) yng Nghymru |

Ers **2022/23,** mae **S4C** wedi cynyddu'i gwariant Cymraeg tu allan i Gaerdydd

**5%**



**Gwariant ar fusnesau yng Nghymru:**

| | |
|---|---|
| 11% | Gweddill Cymru |
| 16% | Sir Gaerfyrddin |
| 30% | Gwynedd |
| 43% | Caerdydd |

**Mae gwariant S4C yn treiddio trwy cadwyni cyflenwi lleol gyda...**



**93%** o'r effaith ar GVA a chyflogaeth yn aros yng Nghymru

**Am bob £1 o ffi'r drwydded mae S4C yn derbyn, mae...**

- **£1.59** mewn GVA yn mynd at economi Cymru
- **£1.70** mewn GVA yn mynd at economi'r DU
- **£1.03** yn dychwelyd mewn treth i'r Trysorlys

**Mae effaith cymdeithasol S4C yn cynnwys...**

- Ariannu a chynhyrchu cynnwys i gefnogi cwricwlwm i Gymru
- Cefnogi talent newydd i mewn i'r sector creadigol a datblygu sgiliau'r gweithlu
- Cynrychioli amrywiaeth siaradwyr Cymraeg a'u cymunedau

**Yng Nghymru, cynhyrchodd cronfa fasnachol S4C...**

- **£1.6m** mewn cyllid trosoledd
- **£4.7m** mewn GVA
- **70** swydd FTE

**Mae buddsoddiadau arall S4C wedi cefnogi...**

- Gofod stiwdio yn Ynys Môn
- Technoleg ynni-effeithlon
- Ymchwil i ddyfodol digidol

**Mae cyfraniad economaidd cyfan S4C yn arwain at...**

- **2,500** swydd FTE
- **£150.3m** mewn GVA
- **0.2%** o GVA Cymru

# Ymwneud â'n Gwylwyr

**Mae sicrhau trafodaeth a pherthynas reolaidd gyda'r gynulleidfa yn bwysig iawn i waith S4C.**

**Ceir ymwneud drwy gydol y flwyddyn gyda'r gynulleidfa am raglenni S4C ar gyfryngau cymdeithasol a gyda Gwifren Gwylwyr, llinell gymorth S4C.**



Boom Bang!

Eisteddfod Genedlaethol Cymru



**Llinell gymorth Gwifren Gwylwyr**
Mae modd i'n gwylwyr gysylltu'n uniongyrchol gydag S4C drwy ffonio, e-bostio, ar gyfryngau cymdeithasol, trwy WhatsApp, neu anfon llythyr at y Wifren Gwylwyr. Mae'r gwasanaeth dwyieithog ar gael o 09:00 tan 22:00 saith diwrnod yr wythnos.

Mae tîm Gwifren Gwylwyr S4C fel arfer yn gweithio yn swyddfa S4C yng Nghaernarfon bob dydd o'r flwyddyn. Mae'r holl sylwadau sy'n ein cyrraedd am gynnwys a gwasanaethau S4C yn cael eu cofnodi a'u cadw. Mae'r tîm yn darparu crynodeb o'r sylwadau ar gyfer swyddogion ac aelodau'r Bwrdd.

Cafwyd 5,770 o gysylltiadau gydag S4C drwy gyfrwng y Wifren yn 2025–26. Roedd 2,599 o'r rhain yn canmol rhaglenni tra bod 860 yn gwynion neu'n feirniadaeth o ryw fath.

**Panel Ymateb Cynulleidfa**
Yn ogystal â derbyn adborth y gynulleidfa trwy'r Wifren Gwylwyr, mae gan S4C Banel Ymateb Cynulleidfa sy'n cynnwys 1,400 o unigolion, a ddewiswyd i adlewyrchu poblogaeth Cymru.

Mae'r panelwyr yn rhoi eu barn i S4C am y gwasanaeth a sgoriau gwerthfawrogiad ar gyfer rhaglenni S4C.

# Croesawu pawb i wylio S4C – Gwasanaethau Cymorth i'n Cynulleidfa

**Mae sicrhau bod cynnwys S4C ar gael i'r gynulleidfa ehangaf posib yn bwysig iawn i S4C.**

Mae gwasanaethau mynediad yn parhau i ddarparu modd bwysig i alluogi S4C i ehangu ei chynulleidfa a'i hapêl.

Mae is-deitlo yn Saesneg ac yn Gymraeg, ynghyd ag arwyddo, sain ddisgrifio a gwasanaethau disgrifiadol ail-sgrin yn darparu ystod o wasanaethau sy'n cyfoethogi darpariaeth S4C ac yn sicrhau fod cynnwys ar gael i rai sydd ag anghenion penodol yn ogystal ag i gymuned ehangach o siaradwyr a dysgwyr Cymraeg o bob lefel rhuglder a'r di-Gymraeg.

Darparwyd y gwasanaethau canlynol yn ystod y flwyddyn 2025–26:




Egin Bach

### Is-deitlau Cymraeg

Mae'r is-deitlau hyn ar gael yn bennaf ar gyfer pobl f/Fyddar a thrwm eu clyw sy'n siarad Cymraeg yn ogystal â phobl sy'n dysgu siarad Cymraeg. Darparwyd is-deitlau Cymraeg ar 69.48% o raglenni – cynnydd sylweddol ar y 45% o raglenni oedd ag is-deitlau Cymraeg yn 2022–23, ddaeth yn sgil buddsoddiad diweddar yn y maes. Mae is-deitlau Cymraeg a Saesneg hefyd ar gael ar wasanaeth S4C Clic, ac is-deitlau Saesneg ar gael ar y BBC iPlayer.

### Is-deitlau Saesneg

Bwriad y gwasanaeth hwn yw ehangu apêl y rhaglenni ar gyfer gwylwyr di-Gymraeg, pobl f/Fyddar a thrwm eu clyw. Gellir gweld is-deitlau ar gyfer pob math o raglenni, gan gynnwys rhaglenni byw. Caiff rhai rhaglenni eu darlledu gydag is-deitlau agored. Fel arfer, ail-ddarllediadau o raglenni poblogaidd yw'r rhain. Yn ystod y flwyddyn roedd is-deitlau Saesneg ar gael ar 84.77% o'r rhaglenni (targed Ofcom yw 53%).

### Sain ddisgrifio

Mae'r gwasanaeth sain ddisgrifio ar rai rhaglenni yn rhoi sylwebaeth, trwy ddewis, yn y Gymraeg i lenwi'r cyfnodau pan nad oes unrhyw ddeialog mewn rhaglenni. Mae'n cynnwys disgrifiad ychwanegol i gynorthwyo defnyddwyr dall neu rhannol ddall i ddilyn rhaglenni'n haws. Darparwyd y gwasanaeth hwn ar gyfer 12.77% o'r rhaglenni (targed Ofcom yw 10%).

### Arwyddo rhaglenni

Cafodd rhai rhaglenni, fel arfer ar y penwythnos ac amser cinio yn ystod yr wythnos, eu harwyddo yn BSL (British Sign Language) ar gyfer gwylwyr b/Byddar a'r rhai sy'n defnyddio iaith BSL. Roedd y gwasanaeth ar gael ar 6.08% o raglenni (targed Ofcom yw 5%). Mae hefyd adran arbennig ar Clic gyda'r holl raglenni sydd wedi eu arwyddo i gyd i'w gweld mewn un man.

# Sicrhau gwerth i'r gynulleidfa

**Gwerth am arian yw'r berthynas rhwng cost a pherfformiad S4C fel gwasanaeth ac fel sefydliad. Ar gyfer darlledwr cyhoeddus, mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth cynhwysfawr o safon uchel ar deledu a chyfryngau digidol sy'n cael ei ddefnyddio a'i werthfawrogi gan y gynulleidfa, gan wneud hynny mewn modd effeithlon o ran y defnydd o adnoddau ariannol.**

Blaenoriaeth gyntaf S4C yw darparu gwasanaethau sy'n cwrdd ag anghenion ei chynulleidfa, gan sicrhau ar yr un pryd fod y ganran uchaf posibl o incwm cyhoeddus S4C yn cael ei wario ar raglenni a chynnwys – cynnwys sy'n gymharus o ran ansawdd â rhaglenni rhwydwaith eraill y DU – a bod rhaglenni'n cael eu cynhyrchu yn y modd mwyaf effeithlon, gyda chostau rhedeg y sefydliad yn parhau'n ganran fechan o'r gwariant cyffredinol.

Mae S4C wedi sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac ariannol. O ganlyniad, dim ond 3.7% o gyfanswm gwariant S4C sy'n cael ei wario ar weinyddiaeth a gorbenion, gyda gweddill y gwariant yn cefnogi creu a dosbarthu cynnwys.

Mae'r perfformiad cost-effeithlon hwn wedi'i gadarnhau'n annibynnol. Mae S4C wedi comisiynu cwmni Wavehill ddwywaith dros y blynyddoedd diwethaf i fesur effaith economaidd a chymdeithasol y darlledwr, gan ddefnyddio methodoleg Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF. Gwnaeth y ddau asesiad gadarnhau bod S4C yn cynhyrchu enillion sylweddol am bob £1 o incwm o ffi'r drwydded a dderbynnir (gweler yr adran Cyfraniad Cymdeithasol ac Economaidd am fanylion pellach).


Mae'r perfformiad hwn wedi gwella er gwaethaf pwysau ariannol cynyddol: dros y cyfnod 2022–23 i 2024–25, mae'r enillion hyn wedi cynyddu, hyd yn oed wrth i chwyddiant erydu gwerth real y gyllideb.

**Blaenoriaethu gwariant ar raglenni a chynnwys – dosraniad gwariant S4C**

Buddsoddir y rhan fwyaf o gyllid cyhoeddus S4C mewn rhaglenni a chynnwys. Mae dyraniad gwariant Cronfa Gyhoeddus S4C yn ystod 2025–26 yn dangos fod mwyafrif gwariant S4C yn parhau i gael ei fuddsoddi'n uniongyrchol yn ei rhaglenni a'i chynnwys, sef buddsoddiad yn y ddarpariaeth ar gyfer y gynulleidfa a buddsoddiad yn y sector gynhyrchu yng Nghymru.

| | |
|---|---|
| **1. Costau'r gwasanaeth rhaglenni (gan gynnwys cynnwys digidol)** | **76.2%** |
| **2. Costau'n ymwneud â darlledu a dosbarthu gwasanaeth rhaglenni S4C** | **20.1%** |
| **3. Costau gweithredu a gweinyddu** | **3.7%** |

Ceir rhagor o wybodaeth am wariant S4C yn y Datganiad Ariannol.



## S4C yw un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mwyaf cost-effeithlon yn y DU

Trwy weithio'n agos gyda chynhyrchwyr i reoli cost cynhyrchu pob awr o gynnwys, mae gan S4C record o gomisiynu rhaglenni cost-effeithiol, ac mae S4C wedi llwyddo i warchod nifer yr oriau a ddarlledwyd, yn ogystal ag ystod, amrywiaeth ac ansawdd y gwasanaeth.

Mae cost yr awr S4C yn sylweddol is na darlledwyr eraill, gan gomisiynu ar ffracsiwn (25–33% fel arfer) o'r cyfraddau genre tebyg a ddefnyddir gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill (Ffynhonnell: Wavehill, 2025).


Fodd bynnag, mae cost gwneud rhaglenni wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, gyda gwariant byd-eang ar rai genres – yn enwedig drama wedi'i sgriptio – yn codi i lefelau digynsail. Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar gyllidebau'r dyfodol wrth i ni gystadlu am dalent ar a thu ôl i'r sgrin, ac mae tueddiadau diweddar yn y diwydiannau creadigol hefyd wedi cael effeithiau chwyddiant ar gostau cynhyrchu.

Rydym yn parhau i weithio gyda TAC (Teledwyr Annibynnol Cymru) a chwmnïau cynhyrchu unigol i sicrhau'r gwerth gorau i gynulleidfaoedd o'n cyllid cyhoeddus.




Anfamol

**Cost yr awr – rhaglenni a gomisiynwyd gan S4C**
**(ag eithrio cynnwys digidol-yn-unig a digidol-yn-gyntaf)**




Mae'r ffigyrau cost yr awr ar gyfer 2024–25 wedi'u hail-ddatgan i gyd-fynd â'r driniaeth gyfrifo ar gyfer rhaglenni chwaraeon a ffrydiwyd yn ystod 2025–26. Ni wnaed unrhyw ail-ddatganiad ar gyfer cyfnodau cyn 2024–25.

**Cost yr awr – cynnwys digidol-yn-unig a digidol-yn-gyntaf a gomisiynwyd gan S4C (ag eithrio cynnwys cyfryngau**




Mae'r ffigyrau cost yr awr ar gyfer 2024–25 wedi'u hail-ddatgan i gyd-fynd â'r driniaeth gyfrifo ar gyfer rhaglenni chwaraeon a ffrydiwyd yn ystod 2025–26. Ni wnaed unrhyw ail-ddatganiad ar gyfer cyfnodau cyn 2024–25.

Bluey



# Perfformiad Cynnwys S4C yn 2025–26


Cymru v Japan

| | Rhaglen | Genre | Dyddiad | Cyrhaeddiad |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Clwb Rygbi: Gemau'r Hydref – Cymru v Japan | Chwaraeon | 15/11/2025 | 381,000 |
| 2 | Taith y Llewod – Llewod v Yr Ariannin | Chwaraeon | 20/06/2025 | 237,000 |
| 3 | Clwb Rygbi: Ewrop – Northampton v Bordeaux Bègles | Chwaraeon | 24/05/2025 | 210,000 |
| 4 | Bluey | Plant | 25/03/2026 | 176,000 |
| 5 | Clwb Rygbi Chwe Gwlad dan 20 – Lloegr v Cymru | Chwaraeon | 06/02/2026 | 158,000 |
| 6 | Clwb Rygbi Rhyngwladol – Japan v Cymru | Chwaraeon | 12/07/2025 | 151,000 |
| 7 | Sgorio Rhyngwladol – Cymru v Bosnia a Herzegovina | Chwaraeon | 26/03/2026 | 139,000 |
| 8 | Clwb Rygbi Chwe Gwlad – Cymru v Ffrainc | Chwaraeon | 15/02/2026 | 115,000 |
| 9 | Clwb Rygbi: URC – Dreigiau v Scarlets | Chwaraeon | 19/04/2025 | 110,000 |
| 10 | Dartiau | Chwaraeon | 31/08/2025 | 95,000 |
| 11 | Eisteddfod Genedlaethol Cymru: Oriau Brig | Digwyddiadau | 07/08/2025 | 90,000 |
| 12 | Y Crwydryn | Ffeithiol | 26/12/2025 | 88,000 |
| 13 | Clwb Rygbi: Cynghrair Cymru – RGC v Casnewydd | Chwaraeon | 27/12/2025 | 87,000 |
| 14 | Eisteddfod Yr Urdd: Prynhawn | Digwyddiadau | 31/05/2025 | 82,000 |
| 15 | UEFA Euro 2025 – Ffrainc v Cymru | Chwaraeon | 09/07/2025 | 75,000 |
| 16 | Taith y Llewod (Uchafbwyntiau) | Chwaraeon | 28/06/2025 | 74,000 |
| 17 | Eisteddfod yr Urdd: Uchafbwyntiau | Digwyddiadau | 26/05/2025 | 73,000 |
| 18 | Rygbi Cymru yn Ewrop 30 | Chwaraeon | 22/05/2025 | 73,000 |
| 19 | Sgorio (Byw) – KF Shkendija v Y Seintiau Newydd | Chwaraeon | 15/07/2025 | 72,000 |
| 20 | Ysbyty | Ffeithiol | 15/04/2025 | 69,000 |
| 21 | Am Dro! | Adloniant | 21/09/2025 | 68,000 |
| 22 | Eisteddfod Genedlaethol Cymru: Prynhawn | Digwyddiadau | 03/08/2025 | 68,000 |
| 23 | Ymgyrch Seal Bay | Ffeithiol | 05/11/2025 | 65,000 |
| 24 | Cefn Gwlad | Ffeithiol | 03/11/2025 | 65,000 |
| 25 | Can i Gymru | Cerddoriaeth | 28/02/2026 | 65,000 |
| 26 | Eisteddfod yr Urdd: Bore | Digwyddiadau | 31/05/2025 | 64,000 |
| 27 | Red Bull Hardline Cymru | Chwaraeon | 29/07/2025 | 64,000 |
| 28 | Ralio: Rali Ceredigion | Chwaraeon | 22/09/2025 | 63,000 |
| 29 | Eisteddfod y Ffermwyr Ifanc | Digwyddiadau | 15/11/2025 | 61,000 |
| 30 | Stori'r Iaith | Ffeithiol | 04/03/2026 | 61,000 |

(Ffynhonnell: BARB)

**Nodiadau:**
1. Cyrhaeddiad yn y Deyrnas Unedig ar sail 3 munud di-dor ar draws pob dangosiad.
2. Rhaglen unigol uchaf o fewn cyfresi, gyda chwaraeon wedi eu gosod mewn cyfresi fesul cystadleuaeth.

# Rhaglenni uchaf S4C yn 2025–26 yn ôl sesiynau gwylio S4C Clic

| | Rhaglen | Dyddiad | Sesiynau Gwylio |
|---|---|---|---|
| 1 | Taith y Llewod – Llewod v Yr Ariannin | 20/06/2025 | 29,318 |
| 2 | Clwb Rygbi: Gemau'r Hydref – Cymru v Yr Ariannin | 09/11/2025 | 24,716 |
| 3 | Eisteddfod yr Urdd: Y Pafiliwn Gwyrdd | 27/05/2025 | 15,055 |
| 4 | Eisteddfod yr Urdd: Y Pafiliwn Coch | 27/05/2025 | 14,439 |
| 5 | Clwb Rygbi Rhyngwladol – Japan v Cymru | 12/07/2025 | 12,210 |
| 6 | Eisteddfod yr Urdd: Y Pafiliwn Gwyn | 27/05/2025 | 9,941 |
| 7 | Sgorio Rhyngwladol – Cymru v Bosnia a Herzegovina | 26/03/2026 | 9,425 |
| 8 | Bluey | 29/01/2026 | 7,637 |
| 9 | Clwb Rygbi Chwe Gwlad dan 20 – Lloegr v Cymru | 06/02/2026 | 5,411 |
| 10 | Y Sioe: Ffrwd Byw | 23/07/2025 | 5,345 |
| 11 | Clwb Rygbi Chwe Gwlad – Iwerddon v Cymru | 06/03/2026 | 4,643 |
| 12 | Clwb Rygbi: Ewrop – Gweilch v Scarlets | 06/04/2025 | 4,464 |
| 13 | Y Llais | 08/03/2026 | 4,420 |
| 14 | Clwb Rygbi: URC – Scarlets v Gweilch | 26/12/2025 | 4,337 |
| 15 | Eisteddfod Yr Urdd: Prynhawn | 27/05/2025 | 4,169 |
| 16 | Dal Dy Ddannedd | 11/04/2025 | 3,746 |
| 17 | Hafiach | 04/06/2025 | 3,587 |
| 18 | Y Golau: Dŵr | 14/09/2025 | 3,577 |
| 19 | Sgorio: Taith Haf Wrecsam – Melbourne Victory v Wrecsam | 11/07/2025 | 3,235 |
| 20 | Ysbyty | 08/04/2025 | 3,216 |

(Ffynhonnell: S4C)

**Nodiadau:**
1. Ceisiadau gwylio ar draws y Deyrnas Unedig ar draws pob dangosiad.
2. Rhaglen unigol uchaf o fewn cyfresi, gyda chwaraeon wedi eu gosod mewn cyfresi fesul cystadleuaeth.

# Rhaglenni uchaf S4C yn 2025–26 yn ôl sesiynau gwylio BBC iPlayer

| | Rhaglen | Dyddiad cyhoeddi | Sesiynau Gwylio |
|---|---|---|---|
| 1 | Clwb Rygbi Rhyngwladol – Japan v Cymru | 12/07/2025 | 171,083 |
| 2 | Clwb Rygbi: Ewrop – Northampton v Bordeaux Bègles | 24/05/2025 | 151,911 |
| 3 | Clwb Rygbi: Gemau'r Hydref – Cymru v Seland Newydd | 22/11/2025 | 117,551 |
| 4 | Taith y Llewod – Llewod v Yr Ariannin | 20/06/2025 | 114,702 |
| 5 | Bluey | 30/12/2025 | 90,333 |
| 6 | Clwb Rygbi Chwe Gwlad dan 20 – Lloegr v Cymru | 06/02/2026 | 69,870 |
| 7 | Clwb Rygbi: URC – Dreigiau v Scarlets | 01/01/2026 | 67,311 |
| 8 | Dartiau | 07/12/2025 | 49,843 |
| 9 | Y Golau: Dŵr | 14/09/2025 | 31,074 |
| 10 | Y Llinell Las | 06/05/2025 | 27,230 |
| 11 | Y Llais | 08/03/2026 | 24,693 |
| 12 | Strip | 02/05/2025 | 22,036 |
| 13 | Sgorio Rhyngwladol – Cymru v Gogledd Macedonia | 18/11/2025 | 21,183 |
| 14 | Clwb Rygbi Chwe Gwlad – Iwerddon v Cymru | 06/03/2026 | 19,675 |
| 15 | Amour a Mynydd | 10/02/2026 | 17,693 |
| 16 | Ysbyty | 08/04/2025 | 17,554 |
| 17 | Nadolig Shrek | 25/12/2025 | 17,469 |
| 18 | Sgorio (Byw) – Y Rhyl 1879 v Caernarfon | 08/03/2026 | 17,384 |
| 19 | UEFA Euro 2025 – Lloegr v Cymru | 13/07/2025 | 16,012 |
| 20 | Stad | 07/11/2025 | 13,646 |

(Ffynonellau: S4C / BBC)

**Nodiadau:**
1. Ceisiadau gwylio ar draws y Deyrnas Unedig ar draws pob dangosiad.
2. Rhaglen unigol uchaf o fewn cyfresi, gyda chwaraeon wedi eu gosod mewn cyfresi fesul cystadleuaeth.

## Cynnwys uchaf S4C a gyhoeddwyd yn 2025–26 ar YouTube

| | Cynnwys | Dyddiad cyhoeddi | Sesiynau Gwylio |
|---|---|---|---|
| 1 | RYGBI BYW: Northampton v Bordeaux-Bègles \| Investec Champions Cup Final | 24/05/2025 | 208,160 |
| 2 | DARTIAU BYW: WDF World Darts Championship 2025 | 07/12/2025 | 157,731 |
| 3 | Tour de France 2025: Cymal 6 | 10/07/2025 | 152,940 |
| 4 | Uchafbwyntiau Cymru 7-1 Gogledd Macedonia \| Rhagbrofol Cwpan y Byd 2026 | 18/11/2025 | 99,820 |
| 5 | Uchafbwyntiau Cymru 1-1 Bosnia a Herzegovina (4-2 Cicio o'r Smotyn) \| Gemau Ail Gyfle Cwpan y Byd | 26/03/2026 | 67,751 |
| 6 | RYGBI BYW: Lloegr v Cymru \| Under 20s 6 Nations | 06/02/2026 | 57,460 |
| 7 | Y Llewod v Yr Ariannin \| Taith y Llewod 2025 | 20/06/2025 | 55,813 |
| 8 | Awr o Straeon Cymraeg Cyw a'i Ffrindiau | 27/04/2025 | 40,863 |
| 9 | UEFA: Y Seintiau Newydd v FC Differdange 03 | 29/07/2025 | 34,825 |
| 10 | Wrecsam v Caerdydd (Genero Adran Premier) | 29/03/2026 | 34,374 |

(Ffynonellau: S4C / YouTube)

## Cynnwys uchaf S4C a gyhoeddwyd yn 2025–26 ar Facebook

| | Cynnwys | Dyddiad cyhoeddi | Argraffiadau |
|---|---|---|---|
| 1 | Cutdown o'r rhaglen Ysbyty yn dangos pwysau dyddiol ar staff ysbytai ledled Cymru | 23/04/2025 | 2,001,916 |
| 2 | Stratos yn rasio trwy Crychan yn Rali RAC | 20/11/2025 | 1,266,554 |
| 3 | Ken Owens yn siarad ar raglen Jonathan | 20/11/2025 | 1,108,332 |
| 4 | Joe Calzaghe yn siarad am ei frwydr olaf yn Madison Square Garden | 22/12/2025 | 927,625 |
| 5 | CPD Met Caerdydd yn sgorio yn erbyn Y Bala yn ystod Storm Amy | 04/10/2025 | 717,921 |
| 6 | Guto Bell yn rhoi neges emosiynol i'w fam yn Eisteddfod yr Urdd 2025 | 26/05/2025 | 588,145 |
| 7 | Cynnwys archif o'r rhaglen Ibiza! Ibiza! | 23/08/2025 | 568,533 |
| 8 | Joe Calzaghe yn trafod ei frwydr yn erbyn Bernard Hopkins | 20/12/2025 | 561,643 |
| 9 | Perfformiad buddugol Guto Bell yn Eisteddfod yr Urdd 2025 | 27/05/2025 | 427,750 |
| 10 | Callum Scott Howells yn perfformio Calon Lân gyda Chôr Meibion Treorci ac Only Boys Aloud | 21/10/2025 | 418,757 |

(Ffynonellau: S4C / Facebook)

## Cynnwys uchaf S4C a gyhoeddwyd yn 2025–26 ar Instagram

| | Cynnwys | Dyddiad cyhoeddi | Argraffiadau |
|---|---|---|---|
| 1 | Cymeriad Britney yn Rownd a Rownd | 29/04/2025 | 1,998,246 |
| 2 | Deta Hedman yn cyrraedd rownd gynderfynol Pencampwriaeth Dartiau'r Byd | 05/12/2025 | 1,627,145 |
| 3 | Guto Bell yn rhoi neges emosiynol i'w fam yn Eisteddfod yr Urdd 2025 | 26/05/2025 | 1,270,271 |
| 4 | Cutdown o'r rhaglen Ysbyty yn dangos pwysau dyddiol ar staff ysbytai ledled Cymru | 23/04/2025 | 767,422 |
| 5 | Cynnwys Cymru ar Gyffuriau yn trafod effeithiau iechyd defnyddio cyffuriau | 20/01/2026 | 677,417 |
| 6 | Callum Scott Howells yn perfformio Calon Lân gyda Chôr Meibion Treorci ac Only Boys Aloud | 21/10/2025 | 600,396 |
| 7 | Cynnwys archif o'r rhaglen Ibiza! Ibiza! | 23/08/2025 | 512,146 |
| 8 | Stratos yn rasio trwy Crychan yn Rali RAC | 20/11/2025 | 475,817 |
| 9 | Buddugoliaeth i Mitchell "Wee Sox" Lawrie yn Lakeside 2025 wrth gyrraedd rowndiau terfynol | 06/12/2025 | 457,669 |
| 10 | Mike Lewis yn gollwng y bêl yn y gôl ar giciau o'r smotyn | 06/09/2025 | 447,993 |

(Ffynonellau: S4C / Instagram)

## Cynnwys uchaf S4C a gyhoeddwyd yn 2025–26 ar TikTok

| | Cynnwys | Dyddiad cyhoeddi | Argraffiadau |
|---|---|---|---|
| 1 | Ruby, "The Best of Wales", yn dychwelyd i Eisteddfod yr Urdd 2025 | 27/05/2025 | 1,073,773 |
| 2 | Guto Bell yn rhoi neges emosiynol i'w fam yn Eisteddfod yr Urdd 2025 | 26/05/2025 | 951,268 |
| 3 | Perfformiad buddugol Guto Bell yn Eisteddfod yr Urdd 2025 | 27/05/2025 | 722,286 |
| 4 | Mitchell Lawrie yn cyrraedd rowndiau terfynol ieuenctid ac oedolion yn Lakeside 2025 ac yn dathlu gyda bwyd Tsieineaidd | 06/12/2025 | 656,401 |
| 5 | Cutdown o'r rhaglen Ysbyty yn dangos pwysau dyddiol ar staff ysbytai ledled Cymru | 23/04/2025 | 654,993 |
| 6 | Buddugoliaeth i Mitchell "Wee Sox" Lawrie yn Lakeside 2025 wrth gyrraedd rowndiau terfynol | 06/12/2025 | 646,802 |
| 7 | Guto Bell yn serennu yn Eisteddfod yr Urdd 2025 | 02/06/2025 | 590,514 |
| 8 | Blwyddyn ers uchafbwynt Ruby yn Eisteddfod yr Urdd 2024 | 19/05/2025 | 577,980 |
| 9 | Emyr yn perfformio dawns yn Amour a Mynydd | 20/02/2026 | 513,537 |
| 10 | Dyn meddw'n difrodi car heddlu tra'n gyrru rowlar tarmac oedd wedi ei ddwyn | 21/08/2025 | 497,403 |

(Ffynonellau: S4C / TikTok)

# Adroddiad Llywodraethu

**Mae S4C yn gorff cyhoeddus annibynnol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth teledu cyhoeddus a gwasanaethau digidol o ansawdd uchel, trwy gyfrwng y Gymraeg, i'r gynulleidfa yng Nghymru yn bennaf, ond hefyd ar gyfer y gynulleidfa ehangach sy'n dymuno defnyddio gwasanaeth Cymraeg S4C.**

Caiff strwythur a dyletswyddau cyfansoddiadol S4C eu diffinio mewn statud yn Neddfau Darlledu 1990 a 1996, a Deddf Gyfathrebu 2003 (fel y'u diwygiwyd).

Mae'r Adroddiad Llywodraethu hwn yn nodi fframwaith llywodraethiant corfforaethol y Bwrdd ac yn egluro:

- Sut y caiff busnes y Bwrdd ei gynnal;
- Sut mae aelodau'r Bwrdd yn cael eu penodi;
- Sut mae'r Bwrdd yn gwerthuso ei waith a'i effeithiolrwydd; a
- Sut y mae'n dirprwyo cyfrifoldebau i'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arwain, gan sicrhau atebolrwydd clir.

**Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol S4C**
Mae'r ddeddfwriaeth a sefydlodd S4C yn cyfeirio at un corff statudol a gwasanaeth teledu. Mae'r adroddiad hwn yn gyson gyda'r diffiniadau statudol. Cyfeirir at fwrdd S4C fel Bwrdd S4C, ac at y gwasanaeth fel S4C.

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb i sicrhau bod swyddogaethau statudol S4C, o fewn cyd-destun sy'n cyfuno elfennau gwasanaeth cyhoeddus a masnachol, yn cael eu cyflawni'n unol â pholisïau'r Bwrdd, gofynion deddfau perthnasol, Cod Darlledu Ofcom, a'r Cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd gyda'r BBC.

**Y Bwrdd**
Argymhellodd yr Adolygiad o S4C a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 y dylai strwythur llywodraethu corfforaethol S4C fod yn seiliedig ar fwrdd unedol sy'n cynnwys aelodau gweithredol ac anweithredol.

Yn hydref 2018, gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol, rhoddodd S4C drefniadau dros dro ar waith ar sail weinyddol i hwyluso gweithredu'r argymhellion o fewn y ddarpariaeth statudol oedd yn bodoli ar y pryd. Cadarnhaodd y Bwrdd Reolau Sefydlog newydd a rhoddwyd ar waith Bwrdd Unedol cysgodol fel yr argymhellwyd gan yr Adolygiad o S4C.

Gwnaeth y darpariaethau dros dro barhau ar sail weinyddol tan 23 Awst 2024 pan ddaeth yr adrannau perthnasol o Fesur y Cyfryngau 2024 i rym, sy'n diwygio fframwaith llywodraethu S4C yn ffurfiol gan gadarnhau'r model unedol o lywodraethu.

Diwygiwyd Rheolau Sefydlog y Bwrdd i gyd-fynd â'r newidiadau statudol, gan ddileu trefniadau blaenorol yr Awdurdod a'r Bwrdd Unedol cysgodol. Cyfeirir bellach at y corff fel Bwrdd S4C, ac mae'n cynnwys unigolion gweithredol ac anweithredol fel aelodau llawn.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Bwrdd S4C yn ei Reolau Sefydlog, sydd ar gael ar wefan S4C.

**Swyddog Cyfrifo S4C**
Dynodir y Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifo S4C.


Yn ystod 2025–26, roedd y Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) mewn perthynas ag ariannu statudol S4C, ac felly roedd yn atebol am y defnydd priodol o arian Ffi'r Drwydded a delir i S4C yn unol â chyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol.

Drwy gydol y cyfnod adrodd, gwasanaethodd Geraint Evans fel Swyddog Cyfrifo S4C yn rhinwedd ei rôl fel Prif Weithredwr.

**Y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arwain**
Mae'r Bwrdd yn dirprwyo nifer o swyddogaethau penodol i'r Prif Weithredwr a'i swyddogion, fel y nodir yn Rheolau Sefydlog y Bwrdd. Mae'r Prif Weithredwr yn atebol i'r Bwrdd am arfer y swyddogaethau hyn.

Cyfrifoldeb y Prif Weithredwr, ei dîm a staff S4C yw rheoli a chynnal gwaith S4C o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau teledu ac ar-lein S4C.

**Strwythur Llywodraethiant Corfforaethol S4C 2025–26**



# Bwrdd S4C

**Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd a hyd at wyth aelod anweithredol, ynghyd â'r Prif Weithredwr a hyd at ddau aelod gweithredol arall.**

**Ceir rhagor o fanylion am aelodaeth y Bwrdd yn ystod 2025–26 yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.**

**Fel egwyddor gyffredinol, mae'r Bwrdd yn dirprwyo cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus S4C, gan gynnwys materion golygyddol a chomisiynu, a rheoli o ddydd i ddydd, i Brif Weithredwr S4C a'r Uwch Dîm Arwain. Mae'r Uwch Dîm Arwain yn atebol i Fwrdd S4C drwy'r Prif Weithredwr, ac mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb i lywio ac i oruchwylio cyfeiriad strategol y Sianel. Mae'r trefniant hwn wedi bodoli ers 1982 ac mae'n parhau i ddiogelu annibyniaeth y Bwrdd oddi wrth benderfyniadau gweithredol ynghylch cynnwys S4C.**

### Effeithiolrwydd a Gwerthuso

Mae'r Bwrdd yn cynnal hunanwerthusiad blynyddol o'i berfformiad ei hun, gwaith ei bwyllgorau ac aelodau unigol. Yn unol ag arfer da, cynhelir adolygiadau allanol o effeithiolrwydd llywodraethu o bryd i'w gilydd hefyd.

Yn ystod 2024–25, penodwyd y cwmni cyfreithiol Darwin Gray i gynnal adolygiad allanol o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu S4C. Fel rhan o'r broses, mynychodd cynrychiolydd o Darwin Gray gyfarfodydd y Bwrdd, ei bwyllgorau a'r Tîm Rheoli (fel ag yr oedd wedi'i gyfansoddi ar y pryd), er mwyn arsylwi'r trafodaethau.

Cyflwynwyd adroddiad terfynol Darwin Gray i'r Bwrdd ar 24 Hydref 2024. Er bod y cwmni'n ystyried bod trefniadau llywodraethu S4C yn gadarn ar y cyfan ar bapur, gwnaeth gyfres o argymhellion i gryfhau'r trefniadau ymhellach, gan gynnwys awgrymiadau ymarferol ar weithredu'r argymhellion hynny.

Mewn ymateb, lluniodd Ysgrifennydd y Bwrdd gynllun gweithredu cryno ar ran y Bwrdd. Erbyn Ebrill 2025, roedd y mwyafrif o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau; ac yn dilyn hynny, ym mis Hydref 2025 – flwyddyn ers derbyn adroddiad Darwin Gray – cadarnhaodd y Bwrdd fod yr holl argymhellion perthnasol wedi'u gweithredu. Daeth hyn â'r ymateb ffurfiol i adolygiad Darwin Gray i ben.

Yn unol â'r arfer a sefydlwyd, cynhaliodd y Bwrdd ei adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd yng ngwanwyn 2026. Yn hytrach na'r broses arferol ar ffurf holiadur, paratôdd Ysgrifennydd y Bwrdd adroddiad strwythuredig yn crynhoi'r gwelliannau a wnaed i drefniadau llywodraethu ers penodi Cadeirydd ac aelodau anweithredol newydd ym mis Mai 2025. Ystyriwyd yr adroddiad gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2026, a chadarnhaodd yr aelodau eu bod yn fodlon bod y fframwaith llywodraethu yn gweithredu'n effeithiol.

### Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Mae prif gyfrifoldebau'r Bwrdd yn cynnwys:

- Darparu gwasanaeth darlledu cyhoeddus yn y Gymraeg;
- Gwneud yn siŵr bod y gwasanaethau yn cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio perthnasol, gan gynnwys Cod Darlledu Ofcom;
- Ystyried barn y gynulleidfa am raglenni S4C;
- Cymeradwyo strategaeth, cyllideb flynyddol a chynlluniau ariannol tymor hir S4C;
- Goruchwylio, cymeradwyo a chraffu ar reolaeth briodol S4C;
- Gweithredu fel corff cyhoeddus;
- Paratoi adroddiadau blynyddol a chyfrifon; a
- Phenodi Prif Weithredwr, ac Ysgrifennydd y Bwrdd.

Ceir rhagor o wybodaeth am brosesau a chyfrifoldebau'r Bwrdd yn y Rheolau Sefydlog ar wefan S4C.

### Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol

Mae gan y Bwrdd ddyletswydd benodol i gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol o weithgareddau S4C i Senedd y DU bob blwyddyn.

Yn ogystal, mae'r Bwrdd wedi cytuno i gyflwyno'r ddogfen gerbron Senedd Cymru.

Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Ariannol yn ffurfio sail i ymddangosiadau S4C gerbron pwyllgorau seneddol – gan gynnwys Pwyllgorau Materion Cymreig, a Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn Senedd y DU; a Phwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol yn Senedd Cymru – gan ddarparu elfen allweddol o graffu allanol ac atebolrwydd.

## Cydymffurfiaeth Reoleiddiol

Caiff gwasanaethau teledu a rhaglenni ar-alw S4C eu rheoleiddio gan Ofcom. O dan y drefn hon, rhaid i S4C gydymffurfio â chyfres o ofynion rheoleiddiol a nodir mewn deddfwriaeth ac gan Ofcom, rheoleiddiwr cyfathrebu'r DU.

Mae gan S4C ddyletswydd statudol i gydymffurfio â Chod Darlledu Ofcom a gofynion rheoleiddiol eraill, ac mae gan Ofcom bwerau penodol i fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth.

Fel rhan o'r broses flynyddol o adrodd, mae S4C yn talu Ffi Rheoleiddio i Ofcom ac yn darparu gwybodaeth fanwl, gan gynnwys data ariannol, mesurau perfformiad a gwybodaeth am gydymffurfio â chwotâu.

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd S4C Ddatganiad Polisi Rhaglenni (SOPP) diwygiedig yn unol â gofynion Deddf y Cyfryngau 2024, yn nodi'r polisïau golygyddol a fydd yn llywodraethu gwasanaethau S4C yn y dyfodol. Cyflwynwyd y SOPP diwygiedig i Ofcom ym mis Ionawr 2026.

Yn flaenorol, roedd gan Fwrdd S4C gyfrifoldebau cyfyngedig o ran rheoleiddio gwasanaethau ar-alw S4C. Ers 23 Awst 2024, pan ddaeth darpariaethau perthnasol Deddf y Cyfryngau 2024 i rym, mae'r cyfrifoldebau hyn wedi'u trosglwyddo i Ofcom.

Yn ystod 2025–26, ni agorodd Ofcom unrhyw ymchwiliadau i gwynion am gynnwys na gwasanaethau S4C.

## Ceisio barn y gynulleidfa

Mae gan y Bwrdd ddyletswydd statudol i sicrhau trefniadau ar gyfer casglu barn y cyhoedd am gynnwys S4C – gan gynnwys effaith cynnwys ar agweddau ac ymddygiad gwylwyr, a'r math o gynnwys y byddai pobl yn dymuno ei weld.

Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys: Panel Gwylwyr sy'n darparu adborth wythnosol ar raglenni; arolwg blynyddol o ganfyddiadau'r gynulleidfa; ac ystyriaeth o ddata perthnasol gan BARB, S4C Clic a BBC iPlayer.

## Ymateb i gwynion

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i alluogi gwylwyr i gwyno am gynnwys.

I'r perwyl hwn, mae'r Bwrdd wedi cytuno a chyhoeddi Proses Gwynion S4C, sy'n nodi sut y caiff cwynion eu trin – gan gynnwys rhai am gydymffurfiaeth neu faterion rheoleiddio.

Ceir gwybodaeth am sut i gyflwyno cwyn ar wefan S4C.

Os bydd cwynwr yn apelio yn erbyn penderfyniad gan y Prif Weithredwr yn unol â'r broses, bydd Panel Cwynion y Bwrdd yn ystyried y mater. Mae'r Panel yn cynnwys tri aelod anweithredol o'r Bwrdd ac yn cwrdd yn ôl yr angen.

## Ymgysylltu â'r Gweithlu a Materion Staff

Parhaodd y Bwrdd i roi sylw manwl i ymgysylltu â'r gweithlu a materion yn ymwneud â staff drwy gydol 2025–26, gan gydnabod pwysigrwydd diwylliant sefydliadol iach i gyflawni amcanion strategol S4C, ac ystyried ymgysylltu ystyrlon â'r gweithlu fel rhan annatod o'i gyfrifoldebau llywodraethu.

Dangosodd arolwg 'pwls' a gynhaliwyd yng ngwanwyn 2025 welliant sylweddol ar draws mesurau allweddol, gan gynnwys llesiant, ymddiriedaeth mewn arweinyddiaeth a hyder yng nghyfeiriad y sefydliad. Mewn ymateb, datblygwyd cynllun gweithredu 'Ni'n dweud, ni'n gwneud', yn nodi'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r themâu a godwyd gan staff.

Parhaodd y rhaglen barhaus o ddatblygu diwylliant – dan arweiniad ar y cyd gydag arbenigwyr datblygu sefydliadol Sycol a thîm Pobl a Diwylliant S4C – i wneud cynnydd cadarn. Mae'r rhaglen, sy'n cael ei hadnabod fel S4C Campus, yn gynllun ddatblygu strwythuredig, aml-lefel ar gyfer staff ac arweinwyr, wedi'i chynllunio i wreiddio gwerthoedd a Chod Diwylliant S4C yn rhan o'r ffyrdd o weithio o ddydd i ddydd. Erbyn diwedd y flwyddyn adrodd, roedd tua 80% o'r staff wedi cwblhau lefel gyntaf y rhaglen, gyda'r ail lefel, sydd wedi'i thargedu'n benodol at arweinwyr ar draws y sefydliad, i ddechrau yn gynnar yn 2026–27. Ym mis Mawrth 2026, derbyniodd y Bwrdd gyflwyniad ffurfiol yn adolygu cynnydd hyd yma, a chafodd ei galonogi gan dystiolaeth o newid diwylliannol gwirioneddol o fewn y sefydliad.

Mae'r Fforwm Staff yn parhau i weithredu fel llwyfan ystyrlon ar gyfer ymgysylltu â chyflogeion. Cynhaliodd y Bwrdd ei gyfarfod blynyddol gyda chynrychiolwyr y Fforwm ym mis Ionawr 2026, ac roedd yn fodlon bod y Fforwm yn darparu sianel adeiladol ac effeithiol ar gyfer cyfathrebu dwyffordd rhwng staff ac arweinyddiaeth, a'i fod yn llywio penderfyniadau sy'n ymwneud â phobl yn y sefydliad yn ymarferol.

Cynhaliodd y Bwrdd hefyd ei gyfarfod blynyddol gyda chynrychiolydd BECTU S4C ym mis Rhagfyr 2025. Cyfeiriwyd at dderbyniad unfrydol aelodau BECTU o setliad cyflog 2025–26 fel tystiolaeth o'r berthynas gadarnhaol rhwng S4C a'i gweithlu, a'r ymddiriedaeth y mae staff yn ei gosod yn arweinyddiaeth a chyfeiriad y sefydliad.

Mae'r Bwrdd yn cymryd o ddifrif ei gyfrifoldeb i ddeall barn a phrofiadau'r gweithlu, ac i sicrhau bod y mewnwelediadau hynny'n llywio penderfyniadau llywodraethu ar faterion megis tâl, diwylliant sefydliadol, hyfforddiant a pholisïau sy'n ymwneud â phobl. Caiff y mecanweithiau a ddisgrifir uchod eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau'n effeithiol.

## Goruchwylio Materion sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd

Parhaodd y Bwrdd i dderbyn diweddariadau drwy gydol 2025–26 ar gyfrifoldebau amgylcheddol S4C. Mae ymrwymiad S4C i gynaliadwyedd wedi'i wreiddio yn nhrydydd piler strategol ei strategaeth gorfforaethol 2025–30 – Cydweithio i Weld Cymru'n Ffynnu – sy'n nodi uchelgais y sefydliad i greu gwerth hirdymor i gymunedau Cymru, gan gynnwys trwy ddull cyfrifol o reoli ei effaith amgylcheddol.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, ymgysylltodd S4C â chwmni ymgynghori allanol i gynnal asesiad o'i hôl troed carbon presennol ac i nodi camau posibl i leihau ei heffaith amgylcheddol yn y blynyddoedd i ddod. Bydd y gwaith hwn yn llywio dull S4C o ran cynaliadwyedd amgylcheddol yn y dyfodol, a bydd y Bwrdd yn derbyn ac yn ystyried y canfyddiadau maes o law.

Parhaodd y Bwrdd hefyd i gael gwybodaeth am y camau a gymerir i sicrhau bod cynnwys a gynhyrchir ar gyfer S4C yn bodloni'r safon sy'n ofynnol ar gyfer achrediad Albert, sef cynllun ardystio amgylcheddol y diwydiannau creadigol, ac mae'n parhau'n fodlon bod trefniadau priodol ar waith.

## Llywodraethu a Chreu Gwerth Hirdymor

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau statudol, mae'r Bwrdd yn cydnabod ei rôl ehangach o ran sicrhau bod llywodraethu'n cyfrannu at greu gwerth hirdymor i gynulleidfaoedd, rhanddeiliaid ac economi Cymru.

Roedd 2025–26 yn flwyddyn arwyddocaol o ran llywodraethu S4C. Ym mis Mai 2025, penododd yr Ysgrifennydd Gwladol Gadeirydd newydd a phum aelod anweithredol newydd i'r Bwrdd, gan ddod ag ystod eang o brofiad a safbwyntiau ffres. Yn ogystal, ail-benodwyd aelod anweithredol am dymor pellach ar y Bwrdd, gan gydnabod pwysigrwydd parhad a chof corfforaethol. Cynhaliwyd diwrnod sefydlu strwythuredig ym mhencadlys S4C ym mis Mai 2025.

Ym mis Gorffennaf 2025, cymeradwyodd y Bwrdd strategaeth gorfforaethol pum mlynedd newydd S4C – Strategaeth 2030: Mwy na Sianel Deledu – sy'n nodi uchelgeisiau'r sefydliad ar draws tri philer rhyng-gysylltiedig: Ehangu Gwylio drwy ein Cynnwys; Trawsnewid i Ddigidol-yn-Gyntaf; a Chydweithio i Weld Cymru'n Ffynnu.

Addaswyd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth newydd. Cyfarfu'r Pwyllgor Taliadau am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2025, gyda chylch gorchwyl clir sy'n cynnwys cynllunio olyniaeth ar gyfer yr Uwch Dîm Arwain. Ar ôl cyfnod o adlewyrchu, penderfynodd y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2025 ailsefydlu'r Pwyllgor Cynnwys, i ddarparu goruchwyliaeth anweithredol benodol ar strategaeth gynnwys. Bydd y Pwyllgor Cynnwys yn weithredol o'r flwyddyn adrodd 2026–27 ymlaen.

Mae'r newidiadau strwythurol hyn, ar y cyd â chwblhau cynllun gweithredu Darwin Gray a gadarnhawyd ar ddechrau'r flwyddyn, yn cynrychioli cryfhau cydlynol a bwriadol o fframwaith llywodraethu S4C.

Drwy gydol y flwyddyn, ceisiodd y Bwrdd sicrhau bod ei waith craffu wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau strategol S4C, yn hytrach na dim ond cyflawni rhwymedigaethau gweithdrefnol. Ymhlith enghreifftiau penodol mae adolygiadau thematig y Pwyllgor Archwilio a Risg ar risgiau sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r gynulleidfa, llywodraethu a chydymffurfiaeth; cymeradwyaeth y Bwrdd i bartneriaeth newydd gyda'r BBC i gynyddu'n sylweddol amlygrwydd cynnwys S4C ar BBC iPlayer; a chymeradwyo Strategaeth Gynnwys S4C ym mis Mawrth 2026.

Mae'r Bwrdd yn fodlon bod y trefniadau llywodraethu a oedd ar waith yn ystod 2025–26 wedi cefnogi gallu'r sefydliad i greu gwerth parhaol – i siaradwyr Cymraeg, i'r sector gynhyrchu annibynnol, ac i Gymru gyfan.

## Cynllunio Olyniaeth

Mae'r Bwrd yn ymwybodol o bwysigrwydd sicrhau parhad arweinyddiaeth effeithiol er mwyn cefnogi cyflawni Strategaeth 2030 – a hynny o ran aelodaeth y Bwrdd a'r Uwch Dîm Arwain.

Sefydlwyd Pwyllgor Taliadau newydd, annibynnol, a chyfarfu am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2025, dan gadeiryddiaeth Dr Gwenllian Lansdown Davies. Yn wahanol i'w ragflaenydd, mae'r Pwyllgor newydd yn gweithredu gyda chylch gorchwyl penodol a ffocws clir, sy'n cynnwys cyfrifoldeb am gynllunio olyniaeth ar gyfer yr Uwch Dîm Arwain. Ceir rhagor o fanylion am waith y Pwyllgor mewn adran ar wahân o'r Adroddiad Blynyddol.

O ran olyniaeth ar lefel y Bwrdd, daeth tymor Guto Bebb i ben ar 28 Chwefror 2026, tra bod tymor Suzy Davies i fod i ddod i ben ar 31 Gorffennaf 2026. Cychwynnodd y DCMS broses benodiadau cyhoeddus yn gynnar yn 2026 i recriwtio dau aelod anweithredol newydd. Bu'r Bwrdd yn ymgysylltu'n adeiladol â'r DCMS drwy gydol y broses, yn unol â'i gyfrifoldeb i sicrhau bod cyfansoddiad y Bwrdd yn parhau i adlewyrchu anghenion presennol a dyfodol y sefydliad.

I aelodau newydd y Bwrdd a'r Uwch Dîm Arwain, parheir i ddarparu trefniadau sefydlu strwythuredig fel mater o drefn, er mwyn sicrhau bod aelodau newydd wedi'u paratoi i gyfrannu'n effeithiol o'r cychwyn cyntaf. Rhoddir rhagor o fanylion am y rhaglen sefydlu a ddarparwyd i'r Cadeirydd newydd a'r aelodau anweithredol yn ystod 2025–26 yn adran Hyfforddiant a Rhaglen Sefydlu Aelodau'r Bwrdd yn yr adroddiad hwn.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod cynllunio olyniaeth effeithiol yn broses barhaus, a bod y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i gyflawni Strategaeth 2030 yn esblygu wrth i'r strategaeth gael ei rhoi ar waith. Yn unol â hynny, mae'r Bwrdd yn bwriadu cadw ei ddull o gynllunio olyniaeth – ar gyfer y Bwrdd a'r Uwch Dîm Arwain fel ei gilydd – dan adolygiad drwy gydol y blynyddoedd sy'n weddill o gyfnod y strategaeth.

# Swyddogaethau a Systemau Cyllid

**Paratoi'r Gyllideb Flynyddol a Chynlluniau Ariannol Tymor Hir**

Caiff cyllideb S4C ar gyfer pob blwyddyn ariannol (ac unrhyw ddiwygiadau iddi) ei chymeradwyo gan y Bwrdd. Mae'r Bwrdd hefyd yn ystyried ac yn cymeradwyo cynllun ariannol pum mlynedd sy'n gosod cyfeiriad tymor hir y sefydliad, yn ogystal â chynllun amcanol ar gyfer yr un cyfnod.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arwain yn gyfrifol am baratoi a dadansoddi drafftiau o'r gyllideb flynyddol a'r cynlluniau ariannol tymor hir, ac am eu hargymell i'r Bwrdd i'w hystyried a'u cymeradwyo.

**Swyddogaethau Archwilio**

Mae gan y Bwrdd ddyletswydd statudol i sicrhau bod trefniadau archwilio priodol ar waith ar gyfer pob agwedd ar faterion ariannol S4C. Rhennir y swyddogaeth archwilio yn ddwy ran: Archwilio Allanol ac Archwilio Mewnol.

**Archwilio Allanol**

Ers Hydref 2019, mae Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) wedi gweithredu fel archwiliwr allanol S4C.

Yn dilyn rhoi darpariaethau perthnasol Deddf y Cyfryngau 2024 ar waith ar 23 Awst 2024, mae'r penodiad hwn bellach ar sail statudol.

Ceir adroddiad yr archwiliwr allanol i Fwrdd S4C yn adran y datganiadau ariannol ar gyfer 2025–26.

**Archwilio Mewnol**

Penodwyd TIAA yn archwilwyr mewnol S4C yn 2022 yn dilyn proses dendro gystadleuol, am dymor cychwynnol o dair blynedd gyda'r opsiwn i'w ymestyn. Yn ystod 2025–26, cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio a Risg dendr gystadleuol arall ar gyfer penodi archwilwyr mewnol o 01 Ebrill 2026. Ar ôl cwblhau'r broses honno, ailbenododd y Pwyllgor TIAA am dymor cychwynnol o dair blynedd gyda'r opsiwn i'w ymestyn am flwyddyn ychwanegol.

Cynhaliodd TIAA archwiliadau priodol drwy gydol y flwyddyn, gan ddarparu sicrwydd ynghylch gweithrediad a dilysrwydd y system rheolaeth fewnol. Maent yn adolygu'n annibynnol y prosesau a weithredir gan reolwyr ac yn adrodd i'r Swyddog Cyfrifo a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Lle canfyddir rheolaethau gwan neu amhriodol sy'n peri risg i'r sefydliad, cyfrifoldeb y Pwyllgor Archwilio a Risg yw monitro'r camau cywiro perthnasol, gan sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau'n brydlon gan reolwyr.

**Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol**

Mae adnabod a rheoli risg yn greiddiol i gyfrifoldebau'r Bwrdd. Mae gan y Bwrdd a'r Uwch Dîm Arwain gyfrifoldeb clir i nodi'r risgiau sy'n wynebu S4C ac i sefydlu gweithdrefnau priodol i fonitro a lliniaru'r risgiau hynny.

Mae fframwaith rheoli risg ar waith i nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol. Datblygwyd y fframwaith hwn yn unol ag arferion gorau ym maes rheolaeth fewnol a rheoli risg.

Yn unol â'r canllawiau 'Rheolaeth Fewnol: Arweiniad i Gyfarwyddwyr ar y Cod Cyfun' (canllawiau Turnbull), mae'r Bwrdd yn cadarnhau bod proses barhaus wedi bod ar waith drwy gydol y flwyddyn, ac ar adeg cymeradwyo'r datganiadau ariannol, i nodi, gwerthuso a rheoli'r risgiau sylweddol sy'n wynebu Grŵp S4C. Caiff y broses hon ei hadolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Dyma elfennau allweddol y system rheolaeth fewnol:

**Rheolaeth Ariannol**

Mae S4C yn gweithredu system gynhwysfawr ar gyfer rheolaeth ariannol, gan gynnwys paratoi cyllidebau blynyddol ar gyfer pob canolfan gost. Caiff y rhain eu cymeradwyo gan y Bwrdd.

Adroddir yn chwarterol ar ganlyniadau canolfannau cost a'u cymharu â'r gyllideb. Caiff unrhyw amrywiadau sylweddol eu hymchwilio fel bo'n briodol. Caiff rhagolygon ymrwymiadau eu diweddaru'n rheolaidd..

**Adroddiadau Ariannol**

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg i gefnogi'r broses o adrodd ariannol y Grŵp ac i baratoi cyfrifon cyfun. Caiff y prosesau hyn eu goruchwylio gan y Pwyllgor Archwilio a Risg i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion adrodd a rheoleiddio perthnasol.

**Trefniadau Chwythu'r Chwiban**

Mae gan S4C bolisi 'chwythu'r chwiban' (datgelu) i hwyluso adrodd cyfrinachol ar wybodaeth sensitif neu ddigwyddiadau. Cyhoeddir y polisi ar fewnrwyd S4C.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg, ar ran y Bwrdd, yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i ymchwilio i bryderon a adroddir, ac am unrhyw gamau dilynol angenrheidiol.

**Datganiad Archwaeth Risg**
Ar 14 Mawrth 2024, cymeradwyodd y Bwrdd ddatganiad newydd ar archwaeth risg ar gyfer S4C. Cafodd ei adolygu ddiwethaf ym mis Tachwedd 2025.

Mae'r datganiad yn nodi sut y caiff bygythiadau a chyfleoedd eu cydbwyso wrth geisio cyflawni amcanion strategol. Mae'n helpu i sicrhau bod S4C yn ymateb yn gyson i risg, gyda'r holl risgiau a dderbynnir yn cael eu hasesu'n briodol, a bod adnoddau cymesur yn cael eu dyrannu i'w lliniaru.

Mae'r archwaeth risg yn amrywio ar draws gwahanol feysydd busnes. Er enghraifft, gall S4C fod â pharodrwydd isel i dderbyn risg mewn materion cyfreithiol neu ariannol, ond â goddefgarwch uwch mewn meysydd fel datblygu a gwaith prosiect.

Pennir y datganiad gan y Bwrdd, ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystyried unrhyw achosion o dorri'r archwaeth neu unrhyw densiynau sy'n codi. Caiff y datganiad ei adolygu'n rheolaidd – o leiaf unwaith y flwyddyn – i sicrhau ei fod yn parhau'n briodol mewn amgylchiadau newidiol.

Mae S4C yn gwahaniaethu rhwng risgiau gweithredol, sy'n fewnol ac o fewn ei rheolaeth, a risgiau allanol, nad ydynt o fewn ei rheolaeth uniongyrchol ond sydd eto'n galw am gynllunio ac ymatebion priodol

**Datganiad Archwaeth Risg Cyffredinol**
*Nid oes gan S4C un archwaeth risg sengl, ond yn hytrach ystod o archwaethau risg ar draws ei gweithgareddau. Mae S4C yn cydnabod y gall ddewis derbyn gwahanol raddau o risg mewn gwahanol feysydd, ac mae wedi cytuno ar lefel briodol o archwaeth risg ar gyfer pob un o feysydd ei busnes. Lle bydd S4C yn dewis derbyn lefel uwch o risg, gwneir hynny bob amser ar yr amod bod y manteision a'r bygythiadau posibl wedi'u deall yn llawn cyn awdurdodi unrhyw gamau, bod digon o gapasiti risg ar gael, a bod mesurau synhwyrol a chymesur ar waith i liniaru'r risg.*

**Monitro Rheolaethau a Risgiau'r Busnes**
Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am nodi a gwerthuso risgiau busnes sylweddol i'r Uwch Dîm Arwain, gan gynnwys cynllunio a gweithredu rheolaethau mewnol priodol. Caiff risgiau eu hadolygu'n barhaus a gallant godi o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys methiannau mewn goruchwyliaeth, methiannau systemau TG, cystadleuaeth, trychinebau naturiol a newidiadau rheoleiddio.

Mae'r Prif Weithredwr yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar faterion risg, ac mae'r Gofrestr Risgiau Strategol yn cael ei hadolygu ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd yn darparu diweddariadau chwarterol i'r Bwrdd ar berfformiad ariannol.

Mae'r Prif Weithredwr yn hysbysu'r Bwrdd am unrhyw newidiadau sylweddol yn y busnes neu'r amgylchedd allanol sy'n effeithio ar risgiau allweddol. Lle bo angen gwelliannau, caiff argymhellion yr Uwch Dîm Arwain a'r Pwyllgor Archwilio a Risg eu hystyried gan y Bwrdd.

**Asesu'r Prif Risgiau, Ansicrwydd a Chyfleoedd**
Mae Cofrestr Risgiau Strategol S4C yn adlewyrchu asesiad o amcanion strategol y sefydliad a'r risgiau a allai effeithio ar eu cyflawni. Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Risg adroddiadau rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i fonitro'r risgiau hyn. Darparwyd sicrwydd hefyd gan yr archwilwyr mewnol i gynorthwyo'r Pwyllgor wrth asesu proffil risg y sefydliad.

Mae'r adran isod yn crynhoi'r prif risgiau ac ansicrwydd a nodwyd yn ystod y flwyddyn, ynghyd â'r camau lliniaru perthnasol. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar risgiau strategol a allai danseilio gallu S4C i gyflawni ei rhwymedigaethau statudol.

Mae'r prif feysydd risg yn parhau'n debyg i'r rhai a nodwyd yn y flwyddyn flaenorol, a gellir eu categoreiddio fel rhai sy'n ymwneud â darparu ac ansawdd gwasanaethau S4C, materion strategol, a materion ariannol a llywodraethu.

**1. Y Gynulleidfa a Pherfformiad y Gwasanaeth**
Prif ddyletswydd statudol S4C yw cyflawni ei chylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus drwy ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys clyweledol amrywiol o safon uchel, y mae cyfran sylweddol ohono yn y Gymraeg. I wneud hynny, mae'n rhaid i'r gwasanaeth ymateb i anghenion y gynulleidfa a sicrhau bod y sector cynhyrchu annibynnol yn gallu cyflenwi cynnwys o ansawdd.

Mae'r Bwrdd yn monitro ansawdd y gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn gan ddefnyddio data annibynnol a dulliau ymgynghori amrywiol.

Drwy weithio'n agos gyda chynhyrchwyr, mae S4C yn defnyddio adborth y gynulleidfa i wella cynnwys a sicrhau gwerth am arian.

Mewn tirwedd gyfryngol sy'n esblygu'n gyflym, rhaid i S4C ymateb i batrymau gwylio newidiol a disgwyliadau defnyddwyr ar draws ystod o lwyfannau digidol – gan gynnwys gwasanaethau ar-lein, cynnwys manylder uwch a fformatau sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r Bwrdd yn fodlon bod prosesau effeithiol ar waith i fonitro perfformiad ar draws holl wasanaethau S4C. Fodd bynnag, mae darparu cynnwys o ansawdd uchel ar draws sawl llwyfan yn golygu costau cynyddol, ac mae hyn yn parhau'n bwnc trafod parhaus o fewn y gyllideb.

Rhaid i seilwaith technegol S4C gefnogi gwasanaethau 24/7 ar draws ystod o lwyfannau. Mae cynlluniau parhad busnes ar waith i sicrhau bod y seilwaith yn gadarn ac y gellir rhoi ymatebion priodol ar waith i ddigwyddiadau technegol mawr.

Ers mis Ionawr 2021, mae gwasanaethau darlledu technegol S4C wedi'u cyd-leoli gyda BBC Cymru Wales yn Sgwâr Canolog, Caerdydd.

**2. Strategol ac Ariannol**

Ers mis Ebrill 2022, mae holl gyllid cyhoeddus S4C wedi'i ddarparu drwy Ffi'r Drwydded, gyda disgwyliad y bydd penderfyniadau cyllido yn y dyfodol yn rhan o setliadau Ffi'r Drwydded.

Cyfanswm cyllid S4C o 01 Ebrill 2022 oedd tua £88.85 miliwn. O fis Ebrill 2024 ymlaen, mae'r swm hwn wedi cynyddu'n flynyddol yn unol â chwyddiant CPI – trefniant a fydd yn parhau tan 31 Mawrth 2028.

Er gwaethaf y sicrwydd tymor canolig hwn, mae'r Bwrdd yn parhau'n ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant a chostau cynyddol yn y sector cynhyrchu. Mae'r Uwch Dîm Arwain yn gweithio gyda'r sector i reoli costau a sicrhau gwerth am arian.

Ers mis Ionawr 2026, mae S4C wedi bod yn ymgysylltu â'r DCMS fel rhan o'r ymgynghoriad ynghylch dyfodol Siarter Frenhinol y BBC ar ôl mis Ebrill 2028 – canlyniad y broses hon a ddisgwylir i ddylanwadu ar drefniadau ariannu cyhoeddus S4C yn y dyfodol.

**3.Strwythur a Llywodraethiant**

Caiff trefniadau llywodraethu'r Bwrdd eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau'n gadarn ac yn addas i'r diben.

Yn dilyn yr ymarfer canfod ffeithiau a gomisiynwyd ym mis Mai 2023, cyhoeddodd y Bwrdd Gynllun Gweithredu ar 29 Chwefror 2024. Roedd hwn yn cynnwys adolygiad o drefniadau llywodraethu S4C, comisiynu adolygiad allanol o'r trefniadau hynny gan Darwin Gray, a diwygio Rheolau Sefydlog y Bwrdd.

Erbyn Ebrill 2025, roedd y mwyafrif o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau; ac yn dilyn hynny, cadarnhaodd y Bwrdd ym mis Hydref 2025 – flwyddyn ar ôl derbyn adroddiad Darwin Gray – fod yr holl argymhellion perthnasol wedi'u cwblhau, gan ddod â'r ymateb ffurfiol i'r adolygiad i ben.

Mae Cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd gyda'r BBC wedi bod ar waith ers mis Tachwedd 2017. Mae gan y Bwrdd drefniadau priodol ar waith i adrodd i Fwrdd y BBC drwy ei Bwyllgor Archwilio.

# Aelodaeth Bwrdd S4C

**Mae Bwrdd S4C yn cynnwys y Cadeirydd a hyd at wyth aelod anweithredol; y Prif Weithredwr a hyd at ddau aelod gweithredol arall.**

**Penodir aelodau anweithredol Bwrdd S4C gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ar ôl ymgynghori ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Llywodraeth Cymru.**

**Hysbysebir y swyddi anweithredol ar y Bwrdd yn gyhoeddus, a gwneir penodiadau yn unol â'r broses penodiadau cyhoeddus.**

**Daw'r aelodaeth anweithredol â chyfoeth o brofiad a gwybodaeth ac mae'n annibynnol ar yr Uwch Dîm Arwain ac ar unrhyw berthnasoedd busnes neu eraill a allai amharu ar arfer barn annibynnol. Mae'r strwythur hwn yn sicrhau na all prosesau gwneud penderfyniadau gael eu dominyddu gan unigolyn na grŵp bychan.**

**Mae'r Prif Weithredwr yn aelod ex officio o'r Bwrdd, tra bo unrhyw aelodau gweithredol ychwanegol yn cael eu penodi gan yr aelodau anweithredol yn unol â Rheolau Sefydlog S4C.**

### Amrywiaeth
Caiff amrywiaeth o fewn aelodaeth y Bwrdd ei hystyried fel rhan o'r broses ddethol a arweinir gan y DCMS. Mae amrywiaeth o fewn y sefydliad yn allweddol i sicrhau bod gwasanaeth S4C yn adlewyrchu ei chynulleidfa a'i hanghenion..

### Hyfforddiant a Rhaglen Sefydlu Aelodau'r Bwrdd
Darperir rhaglen sefydlu bwrpasol i bob aelod newydd o'r Bwrdd. Mae'r broses sefydlu'n cynnwys cyfarfodydd ag unigolion allweddol o fewn S4C a'r Bwrdd, darparu gwybodaeth graidd am ddyletswyddau cyfarwyddwyr, gweithrediad busnes S4C, y sector cyfryngau, a'r prif risgiau a'r ansicrwydd sy'n wynebu S4C. Yn ogystal â darparu gwybodaeth, mae'r rhaglen yn cynnig mewnwelediad i'r ffordd y mae'r sefydliad yn gweithredu'n ymarferol.

Yn dilyn penodi Cadeirydd newydd a phum aelod anweithredol newydd ym mis Mai 2025, cynhaliwyd digwyddiad sefydlu strwythuredig dros ddiwrnod llawn ym mhencadlys S4C ar 13 Mai 2025. Roedd y rhaglen yn cwmpasu cylch gorchwyl S4C, ei chenhadaeth a'i chyfeiriad strategol; rheolaeth a rheolaethau ariannol; y fframwaith llywodraethu a'r disgwyliadau a roddir ar aelodau'r Bwrdd; strategaeth cynnwys a chynulleidfa; a gweithgareddau masnachol S4C. Cyfunodd y fformat gyflwyniadau ffurfiol gan yr Uwch Dîm Arwain gyda thrafodaeth agored, gan alluogi aelodau newydd a phresennol i feithrin perthnasoedd gwaith a datblygu dealltwriaeth gyffredin o flaenoriaethau'r sefydliad.

Yn ystod 2025–26, darparwyd cyfleoedd hyfforddi a datblygu pellach i aelodau'r Bwrdd ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys:
- Dull S4C o fesur gwylio cynulleidfaoedd ar draws ei llwyfannau amrywiol, a goblygiadau hynny i strategaeth gynnwys a chomisiynu;
- Gofynion cyfreithiol a chydymffurfiaeth, gan gynnwys y fframwaith llywodraethu a rheoleiddio y mae aelodau'r Bwrdd yn gweithredu ynddo;
- Diogelu data, llywodraethu gwybodaeth a seiberddiogelwch;
- Dyletswyddau gwrth-wahaniaethu a gwrth-aflonyddu.

Cynigiwyd i aelodau'r Bwrdd hefyd y cyfle i fynychu sesiynau datblygu Cyfarwyddwr Anweithredol a ddarperir gan Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU.

### Diddordebau'r Aelodau
Mae cofrestr o ddiddordebau allanol aelodau'r Bwrdd ar gael ar wefan S4C.

Yn ystod y cyfnod, nid oedd gan unrhyw aelod anweithredol o'r Bwrdd unrhyw fudd mewn contractau gyda S4C.

### Cydnabyddiaeth yr Aelodau
Darperir manylion cydnabyddiaeth yr aelodau mewn nodyn i'r Datganiad Ariannol.

# Aelodaeth 2025–26

**Gwelwyd newid sylweddol yng nghyfansoddiad y Bwrdd yn ystod y flwyddyn adrodd.**

Bu Adele Gritten a Chris Jones – yr oedd eu tymhorau penodi i ddod i ben ar 31 Ionawr 2025 – yn gwasanaethu tan 30 Ebrill 2025 yn dilyn estyniad a gytunwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol tra'n disgwyl i'r broses penodiadau cyhoeddus ddod i ben. Mae'r Bwrdd yn cofnodi ei ddiolch am eu cyfraniadau sylweddol – gan gynnwys gwasanaeth Chris Jones fel Aelod Annibynnol Arweiniol.

O 01 Mai 2025 ymlaen, penododd yr Ysgrifennydd Gwladol Delyth Evans yn Gadeirydd, a phum aelod anweithredol newydd: Dyfrig Davies, Dr Gwenllian Lansdown Davies, Wyn Innes, Betsan Powys a Catryn Ramasut, pob un am dymor o bedair blynedd. Ar yr un pryd, ail-bendowyd Denise Lewis Poulton am dymor pedair blynedd pellach ar y Bwrdd.

Parhaodd Guto Bebb, a oedd wedi gwasanaethu fel Cadeirydd dros dro ers mis Ebrill 2024, fel aelod anweithredol tan ddiwedd ei dymor ar 28 Chwefror 2026. Mae'r Bwrdd yn ddiolchgar i Guto Bebb am ei arweinyddiaeth fel Cadeirydd dros dro yn ystod cyfnod arbennig o heriol yn hanes diweddar S4C.

**Aelod Annibynnol Arweiniol**
Sefydlwyd rôl yr Aelod Annibynnol Arweiniol gan y Bwrdd yn 2016, yn dilyn canllawiau a gyhoeddwyd gan y DCMS i'r cyrff mae'n noddi.


Gwasanaethodd Suzy Davies fel Aelod Annibynnol Arweiniol rhwng 01 Chwefror a 21 Medi 2025. Fe'i holynwyd yn y rôl gan Dyfrig Davies.

Mae cyfrifoldebau'r Aelod Annibynnol Arweiniol yn cynnwys gweithredu fel seinfwrdd gwrthrychol i'r Cadeirydd a darparu cymorth wrth gyflawni ei ddyletswyddau; cadeirio cyfarfodydd neu rannau o gyfarfodydd lle bo gwrthdaro buddiannau posibl; a bod ar gael fel cyfryngwr dibynadwy pan fo angen. Mae'r Aelod Annibynnol Arweiniol hefyd yn arwain gwerthusiad y Cadeirydd ar ran y Bwrdd, ac yn cefnogi'r Cadeirydd i hwyluso gwerthusiad ehangach o waith y Bwrdd.

**Sgiliau**
Ar adeg eu penodi, ac wedyn yn flynyddol, gwahoddir holl aelodau'r Bwrdd i ddatgan y sgiliau a'r profiadau a ddaw gyda hwy er mwyn sicrhau'r cyfraniad mwyaf effeithiol posibl i S4C ac i waith y Bwrdd.

Caiff cydbwysedd y sgiliau ar draws aelodaeth Bwrdd S4C ei ystyried fel rhan o broses ddethol y DCMS.


Ar 31 Mawrth 2026, roedd aelodau'r Bwrdd yn meddu ar sgiliau a phrofiadau uniongyrchol yn y meysydd canlynol:
:



## Amrywiaeth


Dros y blynyddoedd diwethaf, gwahoddwyd aelodau'r Bwrdd i ddarparu gwybodaeth er mwyn gallu casglu data perthnasol am amrywiaeth yr aelodaeth.

Ar 31 Mawrth 2026, roedd pedwar dyn a saith menyw yn aelodau o'r Bwrdd.





Ar sail ymatebion yr aelodau hynny i holiadur a anfonwyd atynt, roedd nodweddion amrywiaeth y Bwrdd ar 31 Mawrth 2026 fel a ganlyn:


Oedran




Ethnigrwydd





Anabledd




Cyfeiriadedd Rhywiol




Crefydd





**Delyth Evans**
**Cadeirydd (o 01.05.2025)**
**Aelod Anweithredol**

**Tymor Aelodaeth: 01.05.2025 – 30.04.2029**
Mae Delyth yn ddarlledwr profiadol ac yn arweinydd gwasanaeth cyhoeddus. Dechreuodd ei gyrfa fel newyddiadurwraig gyda HTV Cymru, gan gyfrannu at raglen materion cyfoes flaenllaw S4C, Y Byd ar Bedwar, cyn symud ymlaen i weithio fel gohebydd ar BBC Radio 4.

Bu'n Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn Ddirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn ystod 2000–03. Wedi hynny, bu'n Brif Weithredwr yr elusen cyflogaeth i fenywod, Smart Works.

Ar hyn o bryd, mae Delyth yn gwasanaethu ar fyrddau Coleg Gwent, yr Alacrity Foundation a'r Urdd.



**Guto Bebb**
**Cadeirydd dros dro (01.04.2024 – 30.04.2025)**
**Aelod Anweithredol**

**Tymor Aelodaeth: 01.02.2021 – 28.02.2026**
Mae Guto wedi bod yn Brif Weithredwr Gwasanaethau Yswiriant Undeb Amaethwyr Cymru ers 2020, ac yn Brif Weithredwr Grŵp Undeb Amaethwyr Cymru yn ei gyfanrwydd ers Chwefror 2021. Cyn hynny, bu'n Aelod Seneddol dros Aberconwy am ddegawd, gan wasanaethu fel Gweinidog yn Swyddfa Cymru ac yn y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Yn enedigol o Sir y Fflint, mae Guto wedi byw yng Nghaernarfon ers dros ddeugain mlynedd. Cyn ymuno â'r Senedd, bu'n rhedeg nifer o fusnesau, gan gynnwys ymgynghoriaeth datblygu economaidd a siop lyfrau.



**Dyfrig Davies**
**Aelod Annibynnol Arweiniol (o 22.09.2025)**
**Aelod Anweithredol**

**Tymor Aelodaeth: 01.05.2025 – 30.04.2029**
Mae Dyfrig yn weithredwr cyfryngau profiadol gyda gwreiddiau dwfn ym maes darlledu Cymraeg. Hyd at ddechrau 2025, bu'n Rheolwr Gyfarwyddwr Telesgop, cwmni cynhyrchu annibynnol blaenllaw, ac mae ganddo brofiad helaeth ym maes cynhyrchu teledu a radio.

Bu Dyfrig yn gwasanaethu ar fyrddau nifer o sefydliadau diwylliannol ac addysgol, gan gynnwys yr Urdd. Daw â dealltwriaeth gadarn o'r diwydiannau creadigol ac ymrwymiad cryf i'r cyfryngau Cymraeg.



**Suzy Davies**
**Aelod Annibynnol Arweiniol**
**(01.02.2025 – 21.09.2025)**
**Aelod Anweithredol**

**Tymor Aelodaeth: 01.08.2022 – 31.07.2026**
Yn gyfreithiwr cymwysedig, dilynodd Suzy yrfaoedd ym maes marchnata'r celfyddydau ac fel uwch gyfreithiwr cyn gwasanaethu am ddeng mlynedd fel Aelod o'r Senedd, gan gynnwys cyfnod fel Gweinidog Cysgodol dros Ddiwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg.

Ers hynny, mae wedi bod yn eiriolwr brwd dros dwristiaeth yng Nghymru fel cyn-Gadeirydd Cynghrair Twristiaeth Cymru, ac yn parhau i ymgyrchu dros fwy o gydraddoldeb fel aelod o fwrdd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod. Ar hyn o bryd, mae'n gwasanaethu ar fyrddau Mid Wales Tourism, Camlas Cyf a Gŵyl Lenyddol Sir Drefaldwyn, ac mae hefyd yn aelod o Fwrdd Archwilio a Risg Comisiynydd Plant Cymru. Mae'n aelod sylfaenol o Ŵyl Ffilm Ryngwladol Cymru.

Ganwyd Suzy yn Abertawe, a chafodd ei magu ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Cwm Cynon, Caerdydd a Brycheiniog. Wedi gweithio yn Abertawe, Y Drenewydd ac Aberystwyth, ymsefydlodd yn Nyffryn Dyfi lle mae ei theulu'n ffermio ac yn rhedeg busnes twristiaeth – a lle dysgodd Gymraeg.



**Dr Gwenllian Lansdown Davies**
**Aelod Anweithredol**

**Tymor Aelodaeth: 01.05.2025 – 30.04.2029**
Mae Gwenllian yn Brif Weithredwr Dysgu, corff dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth yn y sector addysg. Bu'n Brif Weithredwr Mudiad Meithrin a Phlaid Cymru yn y gorffennol, ac mae'n eiriolwr angerddol dros ofal ac addysg gyfrwng Cymraeg, gan chwarae rhan allweddol wrth ehangu mynediad at ofal plant Cymraeg ledled Cymru.

Mae Gwenllian hefyd yn aelod bwrdd Medr, ac yn gwirfoddoli ar bwyllgor ei Chylch Meithrin lleol.



**Adele Gritten**
**Aelod Anweithredolr**

**Tymor Aelodaeth: 01.02.2021 – 30.04.2025**
Cafodd Adele ei geni a'i magu yn Abertawe. Mae'n weithredwraig lefel bwrdd profiadol, ar ôl dal rolau rheoli uwch ar draws amrywiaeth o ymgynghoriaethau cyfryngau, marchnata ac ymchwil, gan gynnwys YouGov, dros gyfnod o fwy nag ugain mlynedd.

Ym mis Tachwedd 2022, fe'i penodwyd yn Brif Weithredwr Local Partnerships LLP – cwmni sy'n eiddo ar y cyd i Gymdeithas Llywodraeth Leol, Trysorlys EF a Llywodraeth Cymru.

Yn arweinydd uchel ei pharch a medrus, mae gan Adele radd MA mewn Gwyddor Gymdeithasol a Gwleidyddol o Brifysgol Caergrawnt.



**Wyn Innes**
**Aelod Anweithredol**

**Tymor Aelodaeth: 01.05.2025 – 30.04.2029**
Mae Wyn yn entrepreneur ac yn weithredwr cyfryngau gyda chefndir mewn cynhyrchu teledu a seilwaith digidol. Ef yw Prif Swyddog Cyllid Ogi, darparwr band eang Cymreig, ac mae wedi dal rolau arwain mewn nifer o gwmnïau cyfryngau a thechnoleg.

Mae gan Wyn brofiad ym maes datblygu busnes ac arloesi, ac mae'n dod ag arbenigedd ariannol gwerthfawr i'r Bwrdd.



**Chris Jones**
**Aelod Anweithredol**

**Tymor Aelodaeth: 01.02.2021 – 30.04.2025**
Bu Chris yn gyd-sylfaenydd Glas Cymru Cyf, a brynodd Dŵr Cymru yn 2001 i greu'r unig gwmni cyfleustodau nid-er-elw yn y DU. Gwasanaethodd fel Prif Swyddog Cyllid Dŵr Cymru rhwng 2001 a 2013, ac yna fel Prif Weithredwr tan fis Mai 2020.

Mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol Xoserve Limited, ac yn gyn-Gyfarwyddwr Anweithredol Cymdeithas Adeiladu'r Principality. Mae hefyd yn aelod lleyg o Gyngor Prifysgol Caerdydd.

Mae wedi dal ystod o rolau gyda sefydliadau'r trydydd sector, gan gynnwys Ymddiriedolaeth y Tywysog, y Sefydliad Materion Cymreig, Water UK a CBI Cymru.

Dysgodd Chris Gymraeg fel oedolyn a dyfarnwyd CBE iddo yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines yn 2020.



**Denise Lewis Poulton**
**Aelod Anweithredol**

**Tymor Aelodaeth: 01.04.2021 – 31.03.2029**
Mae Denise yn arbenigwraig brofiadol ym maes cyfathrebu strategol, brand a materion corfforaethol. Ganwyd hi yng Nghastell Newydd Emlyn, ac addysgwyd hi yn Ysgol Ramadeg Llandysul ac yng Ngholeg King's, Llundain.

Bu'n dal rolau uwch-gyfarwyddwr mewn cwmnïau telegyfathrebu rhyngwladol, gan gynnwys Bell Canada, Cable & Wireless ac Orange, cyn sefydlu busnes ymgynghoriaeth yn cefnogi sefydliadau fel Llywodraeth Cymru, S4C a Chanolfan Mileniwm Cymru.

Mae wedi gwasanaethu fel Ymddiriedolwraig neu Gyfarwyddwraig Anweithredol i sawl sefydliad diwylliannol cenedlaethol, gan gynnwys Opera Cenedlaethol Cymru a Gŵyl y Gelli. Mae'n Gymrawd Oes er Anrhydedd i BAFTA.

Ym mis Mawrth 2023, fe'i penodwyd yn Ymddiriedolwraig Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac yn Gadeirydd ei Phwyllgor Cymru.



**Betsan Powys**
**Aelod Anweithredol**

**Tymor Aelodaeth: 01.05.2025 – 30.04.2029**
Mae Betsan yn newyddiadurwraig a darlledwraig amlwg gyda gyrfa dros dri degawd. Mae wedi cyflwyno a chynhyrchu ystod eang o raglenni materion cyfoes, ac mae'n adnabyddus am ei dadansoddiad craff a'i hymrwymiad i newyddiaduraeth gwasanaeth cyhoeddus.

Bu'n Olygydd gwasanaethau radio ac ar-lein cyfrwng Cymraeg BBC Cymru, ac fe wasanaethodd hefyd fel Golygydd Gwleidyddol BBC Cymru. Mae'n parhau i gyfrannu at fywyd cyfryngol a sifig Cymru.



**Catryn Ramasut**
**Aelod Anweithredol**

**Tymor Aelodaeth: 01.05.2025 – 30.04.2029**
Mae Catryn yn gynhyrchydd ac yn arweinydd creadigol gyda phrofiad helaeth yn y sectorau celfyddydol a chyfryngol. Hi yw sylfaenydd ie ie Productions, ac mae wedi cynhyrchu rhaglenni dogfen a ffilmiau sydd wedi ennill gwobrau.

Ar hyn o bryd, mae Catryn yn Gyfarwyddwr y Celfyddydau yng Nghyngor Celfyddydau Cymru. Mae hefyd yn cynrychioli Cymru ar Gyngor Diwydiannau Creadigol y DCMS, ac roedd yn Gadeirydd cyntaf Creative Wales.

Mae ei gwaith yn adlewyrchu ymrwymiad dwfn i adrodd straeon a chynrychiolaeth.



**Geraint Evans – Prif Weithredwr**
**Aelod Gweithredol**

Ers ymuno â S4C yn 2019, mae Geraint wedi gwasanaethu fel Comisiynydd Newyddion a Materion Cyfoes, Cyfarwyddwr Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi, ac fel Prif Swyddog Cynnwys dros dro. Mae wedi arwain ar ddatblygu gwasanaeth newyddion digidol S4C, goruchwylio'r tîm comisiynu, a llunio strategaeth gyhoeddi aml-lwyfan y sefydliad.

Cyn ymuno â S4C, bu'n newyddiadurwr gyda ITV Cymru am 25 mlynedd, gan gynnwys rolau fel gohebydd ar Y Byd ar Bedwar, Golygydd Cyfresi a Phennaeth Rhaglenni Cymraeg



**Llion Iwan – Prif Swyddog Cynnwys**
**Aelod Gweithredol**

Penodwyd Llion Iwan yn Brif Swyddog Cynnwys S4C ym mis Mawrth 2025, gan ddod â phrofiad helaeth a gweledigaeth greadigol i'r rôl.

Dechreuodd ei yrfa fel gohebydd papurau newydd lleol cyn ymuno â'r BBC fel newyddiadurwr, lle bu'n gweithio dros ddegawd mewn amryw rolau newyddion a chwaraeon. Yn ystod ei gyfnod yn y BBC, cynhyrchodd a chyfarwyddodd raglenni dogfen ar gyfer BBC1, BBC2 a BBC4.

Yn 2012, ymunodd Llion â S4C fel Comisiynydd Cynnwys Ffeithiol a Chwaraeon, cyn dod yn Bennaeth Darlledu Cynnwys. Yn ddiweddarach, bu'n Rheolwr Gyfarwyddwr Cwmni Da, lle arweiniodd y cwmni at lwyddiant ariannol, cynyddu trosiant, ac arloesi drwy osod cynnwys Cymraeg ar Amazon Prime.



**Elin Morris – Prif Swyddog Gweithredu**
**Aelod Gweithredol**

Mae Elin yn dod yn wreiddiol o Lanrhystud, ger Aberystwyth. Bu'n gweithio fel cyfreithwraig am dros 18 mlynedd yn Adran Gorfforaethol Geldards.

Fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr Materion Corfforaethol a Masnachol S4C yn 2009, a daeth yn Brif Swyddog Gweithredu yn 2018.

# Presenoldeb

Mae'r tabl isod yn nodi nifer y cyfarfodydd o'r Bwrdd a'i bwyllgorau y bu pob aelod yn bresennol ynddynt.

| 01 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2026 | | | |
|---|---|---|---|
| | Y Bwrdd | Y Pwyllgor Archwilio a Risg | Y Pwyllgor Taliadau |
| Nifer o gyfarfodydd dros y flwyddyn | 7 | 5 | 1 |
| Delyth Evans | 7/7 | X | 1/1 |
| Guto Bebb | 5/6 | 4/4 | X |
| Dyfrig Davies | 6/7 | X | X |
| Suzy Davies | 7/7 | 5/5 | 1/1 |
| Dr Gwenllian Lansdown Davies | 4/7 | X | 1/1 |
| Adele Gritten | X | X | X |
| Wyn Innes | 7/7 | 2/5 | X |
| Chris Jones | X | X | X |
| Denise Lewis Poulton | 5/7 | X | X |
| Betsan Powys | 6/7 | X | X |
| Catryn Ramasut | 6/7 | X | X |
| Geraint Evans | 6/7 | X | X |
| Llion Iwan | 7/7 | X | X |
| Elin Morris | 7/7 | X | X |

Mynegir presenoldeb fel y nifer o gyfarfodydd a fynychwyd fel aelod swyddogol / y nifer o gyfarfodydd yr oedd disgwyl i'r aelod fynychu.

# Yr Uwch Dîm Arwain

**Mae'r Bwrdd yn dirprwyo nifer o swyddogaethau penodol i'r Prif Weithredwr a'i swyddogion, sy'n ffurfio Uwch Dîm Arwain S4C yn unol â'r Rheolau Sefydlog perthnasol.**

**Yr Uwch Dîm Arwain sy'n gyfrifol am weithrediad S4C o ddydd i ddydd, ac mae'n atebol i Fwrdd S4C drwy'r Prif Weithredwr.**

**Y Pwyllgor Taliadau sy'n gyfrifol, ar ran y Bwrdd, am gymeradwyo penodiadau i'r Uwch Dîm Arwain. Caiff aelodaeth, penodiadau, newidiadau i'r Tîm, a thelerau ac amodau aelodau unigol eu cynnig i'r Pwyllgor gan y Prif Weithredwr.**

**Aelodaeth 2025–26**
Bu'r unigolion canlynol yn gwasanaethu ar Uwch Dîm Arwain S4C yn ystod 2025–26:



**Geraint Evans**
**Prif Weithredwr**
Ers ymuno â S4C yn 2019, mae Geraint wedi gwasanaethu fel Comisiynydd Newyddion a Materion Cyfoes, Cyfarwyddwr Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi, ac fel Prif Swyddog Cynnwys dros dro. Mae wedi arwain ar ddatblygu gwasanaeth newyddion digidol S4C, goruchwylio'r tîm comisiynu, a llunio strategaeth gyhoeddi aml-lwyfan y sefydliad.

Cyn ymuno â S4C, bu'n newyddiadurwr gyda ITV Cymru am 25 mlynedd, gan gynnwys rolau fel gohebydd ar Y Byd ar Bedwar, Golygydd Cyfresi a Phennaeth Rhaglenni Cymraeg.



**Nadine Beaton**
**Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant**
Yn wreiddiol o Ben-y-bont ar Ogwr ac yn byw bellach yng Nghaerdydd, astudiodd Nadine yng Ngholeg Cerdd a Drama Frenhinol Cymru cyn dilyn gyrfa gorfforaethol ym maes cyfathrebu mewnol strategol, arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol.

Bu'n gyfrifol am lunio strategaeth Pobl a Diwylliant Gocompare.com, ac yn fwy diweddar mae wedi gweithio fel ymgynghorydd i gwmnïau technoleg wrth sefydlu systemau gweithredol.

Daw â phrofiad traws-sector helaeth, gan gynnwys yn y cyfryngau (Skillset Cymru), addysg (CBAC) a'r sector fintech – gyda harbenigedd mewn dylunio prosesau sy'n meithrin diwylliant perfformiad uchel ac ymgysylltiad gweithwyr effeithiol.



**Manon Edwards Ahir**
**Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata**
Mae Manon wedi gweithio ym maes newyddiaduraeth a chyfathrebu ers dros 25 mlynedd. Yn fwyaf diweddar bu'n Bennaeth Cynllunio a Materion Allanol yn Amgueddfa Cymru, ar ôl gwasanaethu'n gynharach fel Pennaeth Newyddion, Cyfryngau a Digidol yn Senedd Cymru, lle bu'n goruchwylio'r gwaith cyfathrebu ac ailfrandio wrth drosglwyddo o Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru.

Cyn hynny, bu'n gydberchennog a Rheolwr Gyfarwyddwr yr asiantaeth gyfathrebu ddwyieithog Mela Media, gan gynrychioli ystod eang o gleientiaid a datblygu arbenigedd ym meysydd y cyfryngau a darlledu yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Mae Manon hefyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol gydag Opera Cenedlaethol Cymru.



**Llion Iwan**
**Prif Swyddog Cynnwys**
Penodwyd Llion Iwan yn Brif Swyddog Cynnwys S4C ym mis Mawrth 2025, gan ddod â phrofiad helaeth a gweledigaeth greadigol i'r rôl allweddol hon.

Dechreuodd ei yrfa fel gohebydd papurau newydd lleol cyn ymuno â'r BBC fel newyddiadurwr, lle bu'n gweithio am dros ddegawd mewn amryw rolau newyddion a chwaraeon. Yn ystod ei gyfnod gyda'r BBC, cynhyrchodd a chyfarwyddodd raglenni dogfen ar gyfer BBC1, BBC2 a BBC4.

Yn 2012, ymunodd Llion â S4C fel Comisiynydd Cynnwys Ffeithiol a Chwaraeon, cyn dod yn Bennaeth Darlledu Cynnwys. Yn ddiweddarach, bu'n Rheolwr Gyfarwyddwr Cwmni Da, lle arweiniodd y cwmni at lwyddiant ariannol a chynnydd mewn trosiant, gan arloesi drwy osod cynnwys Cymraeg ar Amazon Prime.



**Elin Morris**
**Prif Swyddog Gweithredu**
Daw Elin yn wreiddiol o Lanrhystud, ger Aberystwyth. Bu'n gweithio fel cyfreithwraig am dros 18 mlynedd yn Adran Gorfforaethol Geldards.

Fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr Materion Corfforaethol a Masnachol S4C yn 2009, a daeth yn Brif Swyddog Gweithredu yn 2018.



**Iestyn Morris**
**Pennaeth Cyfreithiol a Materion Busnes**

Cafodd Iestyn ei eni a'i fagu yng Nghaerfyrddin a Bro Morgannwg, ac astudiodd y gyfraith ym Mhrifysgolion Aberystwyth a Chaerdydd. Ar ôl cymhwyso yn 2005, bu'n ymarfer yng Nghaerdydd cyn dod yn Bartner yn arbenigo'n bennaf mewn cyfraith gyflogaeth.

Ymunodd ag S4C yn 2018 ac mae'n arwain y timau cyfreithiol a materion busnes. Yn rhinwedd ei swydd, mae hefyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol gyda'r Educational Recording Agency (ERA).

Mae Iestyn hefyd wedi gwasanaethu fel ymddiriedolwr gyda Cholegau Cymru a'r elusen ganser Tenovus, ac mae'n parhau'n llywodraethwr gyda Choleg Caerdydd a'r Fro ac Ysgol Garth Olwg.

Daeth yn aelod o Uwch Dîm Arwain S4C ym mis Ionawr 2025.



**Geraint Pugh**
**Ysgrifennydd y Bwrdd**

Yn wreiddiol o Lanbedr Pont Steffan ac yn byw bellach yn Aberystwyth, ymunodd Geraint ag S4C fel Ysgrifennydd y Bwrdd ym mis Hydref 2021.

Bu'n Ysgrifennydd y Brifysgol ym Mhrifysgol Aberystwyth am dros wyth mlynedd cyn hynny.
Yn ei rôl yn S4C, mae'n gyfrifol am gynghori'r Bwrdd i sicrhau llywodraethu priodol ac effeithiol ar draws holl waith y sefydliad.

Er iddo fynychu cyfarfodydd y Tîm Rheoli blaenorol, daeth yn aelod llawn o'r Uwch Dîm Arwain newydd pan gafodd ei sefydlu ym mis Ionawr 2025.
.



**Mali Williams**
**Pennaeth Strategaeth a Materion Cyhoeddus**

Mae Mali yn arwain gwaith materion cyhoeddus a phartneriaethau strategol S4C, gan sicrhau bod y sefydliad yn meithrin a chynnal perthnasoedd gyda'i randdeiliaid allweddol ac yn hyrwyddo dealltwriaeth o'i amcanion, cyfrifoldebau a llwyddiannau.

Ganwyd a magwyd Mali yng Nghaerdydd. Mae ganddi radd yn y Gyfraith o'r LSE a gradd meistr mewn Cyfathrebu Gwleidyddol o JOMEC, Prifysgol Caerdydd. Ymunodd â S4C gyntaf yn 2017.

Daeth yn aelod o'r Uwch Dîm Arwain ym mis Ionawr 2025.



**Sharon Winogorski**
**Prif Swyddog Cyllid**

Mae Sharon yn gyfrifydd siartredig. Cyn ymuno â S4C yn 1998, bu'n gweithio i nifer o gwmnïau a sefydliadau.

Penodwyd hi i Dîm Rheoli S4C ym mis Hydref 2018. Mae'n gyfrifol am Adran Gyllid S4C, gan goruchwylio materion ariannol a chyllidebol ar gyfer dwy gangen gyhoeddus a masnachol y sefydliad.

Mae Sharon yn dysgu Cymraeg.

# Strwythur Gwaith Bwrdd S4C

**Mae Bwrdd S4C yn cyfarfod yn ôl yr angen, ac o leiaf chwe gwaith y flwyddyn. Yn ogystal â'r cyfarfodydd ffurfiol, cynhelir fel arfer ddau ddiwrnod strategol ychwanegol bob blwyddyn.**

**Yn ogystal ag aelodau anweithredol a gweithredol y Bwrdd ac Ysgrifennydd y Bwrdd, mae uwch swyddogion eraill o Uwch Dîm Arwain S4C hefyd yn mynychu cyfarfodydd, yn ôl yr angen, ac yn cyfrannu at y trafodaethau.**

**Mae'r Uwch Dîm Arwain yn darparu gwybodaeth briodol ac amserol i aelodau'r Bwrdd, ac mae rhyddid gan yr aelodau i ofyn am unrhyw wybodaeth bellach y credant sy'n angenrheidiol.**

**Gall unrhyw aelod geisio cyngor gan Ysgrifennydd y Bwrdd neu gan weithwyr proffesiynol annibynnol ar draul S4C.**

**Mae'r Bwrdd yn craffu ar berfformiad S4C wrth gyflawni'r nodau a'r amcanion a gytunwyd, ac yn monitro adroddiadau perfformiad yn unol â hynny. Mae hefyd yn sicrhau cywirdeb gwybodaeth ariannol ac yn goruchwylio'r systemau rheolaeth ariannol a rheoli risg, gan sicrhau eu bod yn gadarn ac yn cael eu gweithredu'n briodol.**

**Er bod y Bwrdd yn adolygu'n gyfnodol y cyfrifoldebau a'r pwerau y mae'n eu dirprwyo, mae'r cyfrifoldeb am weithredu polisïau a rheoli gweithrediad S4C o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i'r Prif Weithredwr, ac ymlaen i'r Uwch Dîm Arwain. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod gweithrediad S4C yn cyd-fynd â'i gylch gorchwyl a'i strategaeth gorfforaethol.**

Yn ystod 2025–26, roedd y materion a ystyriwyd gan y Bwrdd yn cynnwys:

- Cymeradwyo strategaeth gorfforaethol pum mlynedd newydd S4C, a'r Strategaeth Gynnwys gysylltiedig;
- Y cytundeb a gyrhaeddwyd gyda'r BBC i gynyddu amlygrwydd cynnwys S4C ar BBC iPlayer, o fis Ebrill 2026 ymlaen;
- Cyllideb S4C ar gyfer 2026–27 a'r rhagolygon ariannol ar gyfer y blynyddoedd dilynol;
- Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol 2024–25;
- Cyflwyniadau gan S4C i ymgynghoriadau a cheisiadau am wybodaeth gan y DCMS;
- Canlyniad asesiad annibynnol o effaith economaidd a chymdeithasol gan Wavehill;
- Adroddiadau blynyddol gan yr archwilwyr mewnol ac allanol, ac adroddiadau ar feysydd megis iechyd a diogelwch, Safonau'r Gymraeg, a pherfformiad ar draws llwyfannau amrywiol S4C;
- Cadarnhad bod yr holl gamau gweithredu yn deillio o adolygiad Darwin Gray o effeithiolrwydd llywodraethu wedi'u cwblhau, a'r adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y Bwrdd;
- Ailstrwythuro trefniadau pwyllgorau'r Bwrdd, gan gynnwys sefydlu Pwyllgor Taliadau newydd ac ailsefydlu'r Pwyllgor Cynnwys;
- Adolygu'r Datganiad a'r Matrics Archwaeth Risg, a chymeradwyo diweddariadau i bolisïau llywodraethu gan gynnwys Cod Ymarfer Aelodau'r Bwrdd;
- Data staffio – gan gynnwys tueddiadau absenoldeb, y rhai sy'n ymuno a'r rhai sy'n gadael, a gweithgareddau hyfforddi a datblygu; a
- Cyfarfodydd â chynrychiolwyr TAC, BECTU a'r Fforwm Staff.

**Strwythur Pwyllgorau Bwrdd S4C**

Mae gan y Bwrdd nifer o bwyllgorau i oruchwylio gwahanol agweddau ar waith S4C.

Mae'r pwyllgorau hyn yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd, sy'n ystyried ac yn cymeradwyo eu hargymhellion.

Yn ystod 2025–26, roedd gan y Bwrdd ddau brif bwyllgor i gefnogi prosesau llywodraethu effeithiol.

Yn ogystal ag aelodau ffurfiol pob pwyllgor – sy'n cynnwys cynrychiolaeth briodol o aelodau anweithredol a gweithredol – mae Ysgrifennydd y Bwrdd ac uwch swyddogion eraill o'r Uwch Dîm Arwain hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd ac yn cyfrannu at y trafodaethau.

Caiff Panel Cwynion hefyd ei gynnull yn ôl yr angen i ystyried materion a godir o dan Broses Gwynion S4C.

Yn ogystal, mae'r Bwrdd wedi sefydlu Bwrdd y Grŵp Masnachol i oruchwylio gweithgarwch masnachol S4C. Ceir rhagor o wybodaeth am y corff hwn mewn adran ar wahân.

### Y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cefnogi'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr (fel Swyddog Cyfrifo S4C) mewn perthynas â threfniadau rheolaeth fewnol a sicrwydd.

Yn ystod 2025–26, roedd y canlynol yn aelodau o'r pwyllgor:

- Suzy Davies – Cadeirydd
- Guto Bebb (tan 28 Chwefror 2026)
- Wyn Innes
- Denise Lewis Poulton (o 19 Mawrth 2026)

Yn ystod y flwyddyn adrodd, roedd y materion a ystyriwyd gan y pwyllgor yn cynnwys:

- Cymeradwyo cynlluniau blynyddol a derbyn adroddiadau perthnasol gan yr archwilwyr mewnol ac allanol;
- Adolygu'r Gofrestr Risgiau Strategol ym mhob cyfarfod, gan gynnwys trafodaethau manwl ar risgiau sy'n dod i'r amlwg o ran ymgysylltu â'r gynulleidfa, llywodraethu a chydymffurfiaeth, a'r amgylchedd darlledu allanol;
- Goruchwylio'r broses dendro gystadleuol ar gyfer penodi archwilwyr mewnol o fis Ebrill 2026, ac ailbenodi TIAA yn dilyn y broses honno;
- Adolygu a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2024–25 i'w cyflwyno i Fwrdd S4C, gan gynnwys craffu ar y Datganiad Llywodraethu; a
- Hunanwerthuso effeithiolrwydd y pwyllgor, gan gynnwys gwerthusiad yn erbyn meini prawf arfer da'r NAO ac adolygu cylch gorchwyl y pwyllgor.

### Y Pwyllgor Taliadau

Ar ran y Bwrdd, mae'r Pwyllgor Taliadau yn monitro perfformiad uwch swyddogion S4C ac yn cymeradwyo eu cyflogau a'u telerau cyflogaeth eraill. Mae hefyd yn goruchwylio'r trefniadau cyffredinol ar gyfer cyflogau staff S4C ac yn monitro effeithiolrwydd y trefniadau hynny.

Yn ystod 2025–26, roedd y canlynol yn aelodau o'r pwyllgor:

- Dr Gwenllian Lansdown Davies – Cadeirydd
- Delyth Evans
- Suzy Davies (tan 21.09.2025)
- Dyfrig Davies (o 22.09.2025)

Ni chaniatawyd i unrhyw gyflogai S4C – boed yn aelod o'r pwyllgor neu'n fynychwr – fod yn bresennol pan fyddai'r pwyllgor yn ystyried materion yn ymwneud â'u cyflogaeth eu hunain, gan gynnwys canlyniad eu hadolygiad blynyddol neu drafodaethau ynghylch eu cyflog. Mewn achosion o'r fath, gofynnwyd i'r unigolyn dan sylw adael y cyfarfod dros dro.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, roedd y materion a ystyriwyd gan y pwyllgor yn cynnwys:

- Adolygiad diwedd cyfnod prawf y Prif Weithredwr, a chadarnhau ei benodiad parhaol;
- Setliad cyflog blynyddol staff S4C, meincnodi cyflogau ar gyfer yr Uwch Dîm Arwain, a'r adroddiadau statudol cysylltiedig, gan gynnwys y bwlch cyflog rhwng y rhywiau; a
- Adolygiad o gylch gorchwyl y pwyllgor a'i ddull o gynllunio olyniaeth ar gyfer yr Uwch Dîm Arwain.

# Gweithgareddau Masnachol

**Caiff gweithgareddau masnachol S4C eu rheoli drwy S4C Masnachol. Mae S4C Masnachol yn gyfrifol am amrywiaeth o weithgareddau a buddsoddiadau masnachol sydd â'r nod o greu ffrwd incwm gynaliadwy ychwanegol ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus S4C.**

Mae gweithgareddau masnachol S4C yn cyfrannu oddeutu £900k y flwyddyn ar gyfartaledd i gronfa gwasanaeth cyhoeddus S4C. Mae hyn yn cynnwys y difidend blynyddol gan S4C Masnachol a thaliadau a wneir gan y grŵp masnachol i gronfa gwasanaeth cyhoeddus S4C am amser awyr, ad-dalu cyflogau a gwasanaethau eraill, gan gynnwys cyfraniad at ddata mesur cynulleidfa mwy cynhwysfawr gan BARB.

Er yn ganran fechan o holl incwm S4C, mae'n gyfraniad ariannol pwysig sy'n galluogi S4C i fuddsoddi mewn cynnwys a gwasanaethau na fyddai modd fel arall eu darparu.

Mae'r arian sy'n cael ei ddal yng nghronfa fasnachol S4C yn arian sydd wedi cael ei gynhyrchu gan weithgareddau masnachol y S4C yn y gorffennol.


Argymhellodd yr Adolygiad Annibynnol o S4C (Creu S4C ar gyfer y dyfodol) a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 y dylai'r Llywodraeth ddiwygio'r gofynion cymeradwyo statudol er mwyn cynnig rhagor o ryddid i S4C fuddsoddi a chynhyrchu refeniw masnachol. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth y DU, gan arwain at ddiwygio pwerau masnachol S4C fel rhan o'r Mesur Cyfryngau 2024. Daeth y rhannau perthnasol i rym ar 01 Ionawr 2026.

Mae unrhyw weithgareddau masnachol newydd yn gofyn am gymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy weithdrefn symlach nag o'r blaen. Ym mis Chwefror 2026, ymrwymodd yr Ysgrifennydd Gwladol a S4C i Femorandwm o Ddealltwriaeth sy'n rhoi cymeradwyaeth ymlaen llaw i rai mathau neu lefelau o weithgarwch masnachol, ac sy'n nodi'r broses ar gyfer cael cymeradwyaeth lle bo angen.

# S4C Masnachol

## Strwythur gweithgareddau masnachol S4C

Mae yna 5 o gwmnïau yng ngrŵp masnachol S4C ar hyn o bryd. Maent i gyd yn is-gwmnïau i S4C, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae'r strwythur yn sicrhau bod yr incwm o'n gweithgareddau masnachol ar wahân i'r arian cyhoeddus mae S4C yn ei dderbyn trwy ffi'r drwydded.




### S4C Masnachol Cyf

Mae hwn yn gweithredu fel "holding company" ac nid yw yn masnachu. Mae ganddo dri is-gwmni uniongyrchol: S4C Rhyngwladol Cyf; S4C2 Cyf; ac S4C PTG Cyf.

Mae S4C Masnachol Cyf yn talu difidendau i S4C ar ôl eu derbyn gan S4C Rhyngwladol Cyf, S4C2 Cyf, ac S4C PTG Cyf.

### S4C Rhyngwladol Cyf

Dyma'r cwmni sy'n gyfrifol am fwyafrif gweithgareddau masnachol S4C, gan gynnwys:
- Gwerthu gofod hysbysebu, nawdd a telewerthu (trwy asiant hysbysebu);
- Trwyddedu nwyddau ar gyfer brandiau fel Cyw;
- Derbyn incwm o ecsploetio ôl-gatalog rhaglenni S4C yn fasnachol;
- Derbyn incwm o gyd-gynyrchiadau y buddsoddodd S4C ynddynt yn y gorffennol;
- Buddsoddi mewn cynnwys trwy'r Gronfa Gynnwys Fasnachol;
- Ariannu trac sain Saesneg ar rai o raglenni chwaraeon a digwyddiadau S4C (lle gellir dangos cynnydd mewn incwm hysbysebu o ganlyniad).

### S4C2 Cyf

Dyma'r cwmni oedd yn arfer darparu sianel S4C2, ond caewyd y sianel rai blynyddoedd yn ôl.

Mae dal gan S4C2 gytundeb i ddefnyddio un ffrwd deledu yng Nghymru ar Freeview. Fodd bynnag, defnyddir y ffrwd hon gan ddarlledwr arall trwy is-gytundeb gydag S4C2. Adnewyddwyd y trefniant hwn yn ystod 2022–23, gyda'r is-gytundeb presennol nawr mewn lle tan 2028.

### S4C Digital Media Ltd (SDML)

Buddsoddodd SDML yn SDN, y cwmni sy'n dal y drwydded i Multiplex A ar Freeview, yn 1998. Gwerthodd SDML ei siars yn SDN yn 2005, gan fuddsoddi'r enillion.

Erbyn hyn, mae gan SDML y buddsoddiadau canlynol:
- Buddsoddiadau ecwiti mewn cwmnïau sy'n gweithredu yn y sectorau cynnwys a digidol, gan gynnwys trwy'r Gronfa Dwf Fasnachol; a
- Chronfeydd buddsoddi a reolir gan reolwr cronfa allanol.

### S4C PTG Cyf

Cafodd y cwmni yma ei greu yn 2019 ar gyfer prynu ystâd Parc Tŷ Glas, pencadlys blaenorol S4C, a rhedeg y busnes o rentu unedau i denantiaid.

Yn ystod 2022–23, cwblhawyd y broses o werthu ystâd Parc Tŷ Glas, ac yn dilyn hynny daeth S4C PTG Ltd i ben â masnachu.

Asedau net yr adain fasnachol ar 31 Mawrth 2026 oedd £18.845m (31 Mawrth 2025: £19.3m) a'r elw ar weithgareddau cyffredin cyn trethiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 oedd £0.013m (31 Mawrth 2025: elw o £0.242m). Roedd yr elw yn cynnwys enillion heb eu gwireddu mewn cronfa fuddsoddi a gedwir o fewn y Grŵp. Ar gyfer 2025–26, y golled cyn y newid yng ngwerth marchnadol y gronfa fuddsoddi, treth a throsglwyddo difidend oedd £0.205m (2024–25: £0.071m).

Mae perfformiad ariannol yr is-gwmnïoedd masnachol yn ymddangos yn y datganiadau ariannol ar gyfer y Grŵp oddi fewn i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Yn ystod 2025–26, cyfrannodd gweithgareddau masnachol S4C £0.500m i gronfa gwasanaeth cyhoeddus S4C (2024–25: £0.750m).

### Llywodraethiant

Penodir cyfarwyddwyr yr is gwmnïoedd masnachol S4C gan Fwrdd S4C, ac mae'r cyfarwyddwyr hyn yn gwasanaethu ar Fwrdd y Grŵp Masnachol.

Mae Bwrdd y Grŵp Masnachol yn gyfrifol i Fwrdd S4C am ddatblygu strategaeth fasnachol S4C, ac am oruchwylio gweithgareddau masnachol S4C yn unol â'r strategaeth honno.

## Aelodaeth Bwrdd y Grŵp Masnachol

Mae aelodaeth y Bwrdd y Grŵp Masnachol yn cynnwys rhai o aelodau anweithredol Bwrdd S4C, cyfarwyddwyr anweithredol annibynnol, a swyddogion S4C.

Cadeirir Bwrdd y Grŵp Masnachol gan Brif Weithredwr S4C.

Yn ystod 2025–26, gwasanaethodd y canlynol fel cyfarwyddwyr is-gwmnïoedd masnachol S4C (ac felly ar Fwrdd y Grŵp Masnachol):

- Geraint Evans, Prif Weithredwr S4C – Cadeirydd Bwrdd y Grŵp Masnachol
- Dyfrig Davies, aelod anweithredol o Fwrdd S4C (o 19 Mai 2025)
- Adele Gritten, aelod anweithredol o Fwrdd S4C (tan 30 Ebrill 2025)
- Richard Johnston, aelod anweithredol annibynnol
- Chris Jones, aelod anweithredol o Fwrdd S4C (tan 30 Ebrill 2025)
- Oliver Lang, aelod anweithredol annibynnol
- Elin Morris, Prif Swyddog Gweithredu S4C
- Catryn Ramasut, aelod anweithredol o Fwrdd S4C (o 19 Mai 2025)
- Gwyn Roberts, aelod anweithredol annibynnol (tan 30 Ebrill 2025)
- Luci Sanan, aelod anweithredol annibynnol
- Sharon Winogorski, Prif Swyddog Cyllid S4C

Mae Ysgrifennydd Bwrdd S4C yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd y Grŵp Masnachol ar ran Bwrdd S4C. Gall Cadeirydd Bwrdd S4C hefyd fynychu yn ôl yr angen.

## Y Strategaeth Fasnachol

Ar 20 Hydref 2022, cymeradwyodd Bwrdd S4C Strategaeth Fasnachol newydd ar gyfer S4C. Cafodd y Strategaeth Fasnachol hon ei hadolygu ymhellach gan Fwrdd y Grŵp Masnachol yn ystod hydref 2025 er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd â Strategaeth Gorfforaethol newydd S4C ar gyfer y cyfnod hyd at 2030.

Mae'r Strategaeth Fasnachol ar gyfer S4C wedi ei llunio gyda phwrpas clir iddi: cyflawni gwerth ariannol a strategol i S4C, ei chynulleidfa ac i Gymru.

Bwriedir i'r strategaeth gyflawni mwy o elw ariannol; gwella gwerth ar sgrin a mewnbwn creadigol S4C; adeiladu perthnasoedd uniongyrchol cryfach gyda chynulleidfa S4C; a chefnogi twf economaidd a datblygu sgiliau yng Nghymru.

Mae'r strategaeth yn nodi 6 maes gweithgarwch masnachol ar gyfer S4C Masnachol:

- Cyd-gynhyrchu – lle mae S4C yn cynyddu maint a gwerth cynnwys sy'n cael ei gyd-gynhyrchu;
- Eiddo Deallusol Cynnwys – lle mae S4C yn cynyddu'r gwerth y mae'n ei gynhyrchu o gynnwys ac eiddo deallusol;
- Buddsoddi yn nhwf busnes – cynyddu elw strategol ac ariannol o ganlyniad i fuddsoddi mewn twf drwy sefydlu cronfa fuddsoddi i gymryd cyfranddaliadau mewn busnesau Cymreig sy'n agos at bwrpas S4C, ac sydd â photensial cynyddol;
- Hysbysebu a Noddi – datblygu cyfleoedd cyffroes a parhaol ar draws llwyfannau S4C i gynyddu incwm o hysbysebu a noddi;
- Brandiau – mabwysiadu dull gweithredu ar draws y sefydliad o ran adeiladu brand defnyddwyr, i greu gwerth o ran cyllid ac i'r gynulleidfa, o frandiau S4C yn y presennol a'r dyfodol; a
- Digidol – creu sylfaen ar gyfer strategaeth ddigidol fasnachol, gan gynnwys buddsoddi mewn cynnyrch ac adnoddau sy'n cefnogi strategaeth ddigidol S4C ac sydd â defnydd masnachol ychwanegol.

Mae'r strategaeth fasnachol yn bwriadu cynyddu'r cyfraniad ariannol blynyddol o weithgareddau masnachol S4C i gronfa'r gwasanaeth cyhoeddus, a thyfu gwerth y gronfa fasnachol dros amser i gefnogi buddsoddiadau yn y dyfodol.

Mae gwerthiant Parc Tŷ Glas, yn ogystal â chael gwared â rhai buddsoddiadau ecwiti hanesyddol gan SDML, wedi darparu cyllid ychwanegol yn y gronfa fasnachol wrth gefn, i gefnogi gweithredu'r strategaeth fasnachol.

# Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg ar gyfer blwyddyn ariannol 2025–26

Cymeradwywyd yr adroddiad canlynol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei gyfarfod ar 14 Mai 2026, i'w gyflwyno i Fwrdd S4C, a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo.

# Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg ar gyfer blwyddyn ariannol 2025–26

**Cymeradwywyd yr adroddiad canlynol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei gyfarfod ar 14 Mai 2026, i'w gyflwyno i Fwrdd S4C, a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo.**

**Mae'r adroddiad hwn yn nodi cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio a Risg cynghorol, ac yn rhoi crynodeb o'r busnes a gynhaliwyd gan y Pwyllgor yn ystod y cyfnod rhwng 01 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026.**

**Mae'r adroddiad hefyd yn egluro sut mae'r Pwyllgor wedi helpu Swyddog Cyfrifo a Bwrdd S4C i adolygu cynhwysedd, dibynadwyedd a chywirdeb fframwaith llywodraethu corfforaethol S4C; yr amgylchedd rheolaeth fewnol S4C, gwaith y pwyllgor o ran adolygu effeithiolrwydd yr archwilwyr mewnol ac allanol, yn ogystal â goruchwylio gweithgareddau a phrosesau i sicrhau gwerth am arian.**

### Aelodaeth y Pwyllgor

Rhaid i aelodau'r Pwyllgor feddu ar amrediad eang o brofiad ym meysydd busnes, cyllid, a llywodraethu, sy'n galluogi'r pwyllgor i gyflawni ei gylch gorchwyl mewn modd cadarn ac annibynnol.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2025–26, bu'r unigolion isod yn gwasanaethu fel aelodau o'r Pwyllgor:

- Suzy Davies, Cadeirydd
- Guto Bebb (tan 28 Chwefror 2026)
- Wyn Innes (o 01 Mai 2025)
- Denise Lewis Poulton (o 19 Mawrth 2026)

Mae holl aelodau'r Pwyllgor yn cael hyfforddiant priodol o bryd i'w gilydd a sesiynau gwybodaeth un i un gyda Chadeirydd y Pwyllgor, Ysgrifennydd Bwrdd S4C, a staff perthnasol eraill fel rhan o'u cynefino.

Roedd Prif Weithredwr S4C, y Prif Swyddog Gweithredu, y Prif Swyddog Cyllid ac Ysgrifennydd Bwrdd S4C hefyd wedi mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor yn ystod y cyfnod dan sylw.

Roedd cynrychiolwyr yr archwilwyr mewnol ac allanol hefyd yn bresennol mewn cyfarfodydd fel yr oedd yn briodol.

### Cyfarfodydd

Cyfarfu'r Pwyllgor pum gwaith yn ystod y flwyddyn, sef:

- 21 Mai 2025
- 27 Mehefin 2025
- 01 Hydref 2025
- 20 Tachwedd 2025
- 19 Chwefror 2026

Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.

Cafodd holl aelodau Bwrdd S4C wahoddiad i ddod i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2025 i dderbyn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar yr archwiliad allanol o'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

Yn unol ag arferion gorau, mae aelodau'r Pwyllgor yn cyfarfod â'r archwilwyr mewnol ac allanol yn breifat bob blwyddyn – fel arfer cyn y cyfarfod y cyflwynir yr Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol er ystyriaeth ynddo.

Cyflwynir cofnodion y Pwyllgor yn ffurfiol i Fwrdd S4C ar ôl bob cyfarfod o'r Pwyllgor.

### Cylch Gorchwyl

Adolygodd Bwrdd S4C cylch gorchwyl y Pwyllgor ddiwethaf ar 19 Mawrth 2026, gan dynnu ar hunan-asesiad y Pwyllgor o'i effeithiolrwydd yn ystod chwarter olaf y flwyddyn adrodd 2025–26.

Yn unol â'i gylch gorchwyl presennol, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cefnogi Bwrdd S4C a'r Prif Weithredwr (fel Swyddog Cyfrifo S4C) yng nghyswllt trefniadau sicrwydd a rheolaeth fewnol y sefydliad. Mae'n atebol i'r Bwrdd. Mae cylch gorchwyl llawn y Pwyllgor i'w weld ar wefan S4C.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar gynllun gwaith blynyddol sy'n sicrhau bod yr holl gyfrifoldebau sydd wedi'u nodi yn y cylch gorchwyl yn cael eu hystyried ar yr adeg briodol yn y cylch cyfarfodydd. Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o'r prif faterion a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2025–26.

# Archwilio Mewnol

**Trefniadau**
Yn ystod 2025–26, parhaodd y Pwyllgor i oruchwylio gwaith archwilwyr mewnol S4C, sef TIAA, gan ystyried eu hadroddiadau, ymateb rheolwyr, a chynlluniau gweithredu a oedd yn ymateb i argymhellion perthnasol. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi ystyried asesiad o anghenion archwilio S4C ac wedi cymeradwyo cynllun gwaith blynyddol yr archwilwyr mewnol.

Penodwyd TIAA yn archwilwyr mewnol S4C yn gyntaf yn 2019, yn cwmpasu'r tair blynedd adrodd hyd 2021–22. Yn dilyn proses dendro gystadleuol yn gynnar yn 2022, roedd y Pwyllgor wedi ailbenodi TIAA yn o 01 Ebrill 2022 am gyfnod o dair (a hyd at bum) mlynedd.

Ar 01 Hydref 2025, cytunodd y Pwyllgor i gynnal tendr cystadleuol pellach ar gyfer penodi archwilwyr mewnol o 01 Ebrill 2026. Cwblhawyd y broses dendro a chyflwynwyd y canlyniad i'r Pwyllgor ar 19 Chwefror 2026. Yn y cyfarfod hwnnw, ailbenododd y Pwyllgor TIAA o 01 Ebrill 2026 am gyfnod o dair (a hyd at bedair) blynedd.

**Y Cynllun Archwilio Mewnol ac Adroddiadau**
Cyflwynodd TIAA ei Gynllun Archwilio Mewnol drafft ar gyfer 2025–26 i'r Pwyllgor ar 29 Ionawr 2025. Lluniwyd hwn mewn ymgynghoriad ag uwch reolwyr – gan adeiladu ar raglen dreigl o archwiliadau ar gyfer tair blynedd cyntaf penodiad presennol TIAA (2022–23 hyd 2024–25).

Cwblhaodd TIAA chwe archwiliad mewnol yn ystod 2025–26 mewn perthynas â'r canlynol (roedd pedwar ohonynt yn archwiliadau sicrwydd, tra bod y ddau arall yn archwiliad cydymffurfiaeth ac archwiliad cynghorol):

- Llywodraethiant – Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Rheolaethau Ariannol Allweddol
- Rheoli Risg – Dulliau Lliniaru
- Y System Rheoli Darlledu newydd – Adolygiad Parodrwydd Prosiect
- S4C Masnachol [Archwiliad cydymffurfiaeth]
- Llywodraethu Gwybodaeth [Archwiliad cynghorol]

Roedd TIAA wedi darparu asesiadau sicrwydd priodol yng nghyswllt yr archwiliadau sicrwydd a gynhaliwyd. Nododd yr aelodau yn arbennig fod yr holl archwiliadau hyn yn parhau i ddarparu asesiadau sicrwydd 'Sylweddol' neu 'Rhesymol'.

Cyflwynwyd yr holl adroddiadau i'r Pwyllgor i'w hystyried. Canolbwyntiodd y ar yr holl wendidau ac argymhellion oedd wedi'u nodi yn adroddiad yr Archwilwyr Mewnol, ond rhoddodd sylw penodol i'r meysydd hynny lle'r oedd y casgliad wedi cael effaith sylweddol ar y sgôr sicrwydd.

Ni chynhaliwyd unrhyw waith ychwanegol gan TIAA y tu hwnt i'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Archwilio Mewnol y flwyddyn.

**Cofnod Argymhellion**
Fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol y cytunwyd arno ar gyfer y flwyddyn, cynhaliodd TIAA archwiliad 'Dilynol' i ystyried y cynnydd yn erbyn argymhellion yr archwiliad mewnol a godwyd yn 2024–25, yn ogystal â'r rheini a godwyd mewn blynyddoedd blaenorol ond oedd eto i'w cyflawni.

Roedd saith o'r naw argymhelliad o flynyddoedd cynt a adolygwyd wedi cael eu cyflawni.

Cytunodd aelodau'r Pwyllgor i barhau i fonitro gweithrediad y camau oedd yn weddill drwy'r Cofnod Argymhellion mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**Perfformiad ac Asesiad yr Archwilwyr Mewnol**
Yn ei Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor ar 14 Mai 2026, roedd TIAA wedi cynnwys hunanasesiad o'i berfformiad yn ystod 2025–26. Roedd 100 y cant o'r archwiliadau wedi cael eu cwblhau o fewn y dyddiau a glustnodwyd ar eu cyfer yn y gyllideb y cytunwyd arni yng Nghynllun Archwilio Mewnol 2025–26 (2024–25: 100 y cant), ac roedd TIAA wedi cyhoeddi 100 y cant o'i adroddiadau terfynol o fewn 10 diwrnod gwaith i gael ymatebion (2024–25: 100 y cant).

Cadarnhaodd y Pwyllgor ei fod yn fodlon ar gywirdeb y crynodeb ac ar berfformiad cyffredinol yr Archwilwyr Mewnol ar gyfer y flwyddyn.

**Barn Flynyddol yr Archwilwyr Mewnol 2025–26**
Cyflwynwyd Barn Flynyddol Pennaeth yr Archwiliad Mewnol ar gyfer 2025–26 i'r Pwyllgor ar 14 Mai 2026, gan ddatgan bod:

*TIAA yn fodlon, yng nghyswllt y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, bod gan S4C brosesau rheoli risg, llywodraethu a rheoli rhesymol ac effeithiol ar waith.*

*Mae'r farn hon yn seiliedig ar y materion a ddaeth i sylw TIAA yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn unig, ac nid yw'n farn ar holl elfennau'r prosesau rheoli risg, llywodraethu a rheoli nac ar hyfywedd ariannol parhaus nac ar allu'r (sefydliad) i gwrdd â'i rwymedigaethau ariannol. Rhaid i S4C gael y rhain gan ei hamrywiol ffynonellau sicrwydd.*

## Archwilio Allanol

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol oedd yn gyfrifol am gynnal yr archwiliad allanol o Grŵp S4C ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

Yn ystod 2025–26, ystyriodd a chytunodd y Pwyllgor ar gais gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i ymestyn penodiad y Cyfarwyddwr Ymgysylltu sy'n arwain archwiliad allanol S4C am flwyddyn ychwanegol a therfynol, yn cwmpasu blwyddyn adrodd 2025–26. Gan fod hyn yn cynrychioli estyniad y tu hwnt i'r cyfnod cylchdroi a gymhwysir fel arfer gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ond o fewn y cyfnod cylchdroi a ganiateir o dan y safonau moesegol perthnasol, sicrhaodd y Pwyllgor ei hun fod yr amgylchiadau eithriadol yn cyfiawnhau'r estyniad, a chytunodd arno ar y sail y byddai trefniadau trosglwyddo rhagweithiol yn cael eu rhoi ar waith ac na fyddai unrhyw gost ychwanegol yn codi i S4C. Cytunwyd yn unol â hynny ar drefniadau ar gyfer trosglwyddo i Gyfarwyddwr Ymgysylltu newydd o 2026–27 ymlaen.

Cyflwynwyd y Cynllun Archwilio Allanol i'r Pwyllgor ar 19 Chwefror 2026. Roedd y cynllun yn nodi dull y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o fynd i'r afael â'r risgiau archwilio yng ngwasanaeth cyhoeddus S4C, gan gynnwys y prif farnau a'r ansicrwydd amcangyfrifol a amlinellir yn nodyn 2 o'r Datganiadau Ariannol, yn ogystal â'r risgiau archwilio a nodwyd yn y cwmnïau masnachol sy'n faterol i Grŵp S4C. Cododd y Pwyllgor gwestiynau er mwyn derbyn sicrwydd bod y gwaith archwilio'n cael ei gyflawni yn unol â'r safonau ansawdd allanol sy'n ddisgwyliedig ar gyfer archwiliad allanol o gorff cyhoeddus, tra'n sicrhau gwerth am arian yng nghostau archwilio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Cyflwynwyd yr adroddiad a ddeilliodd o hyn – yn crynhoi canlyniad y broses archwilio – i'r Pwyllgor ar 27 Mehefin 2026. Gwahoddwyd holl aelodau Bwrdd S4C i'r cyfarfod hwn i dderbyn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Cyflwynwyd rhai elfennau o Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 – gan gynnwys yr Adroddiad Llywodraethu arfaethedig – i'r Pwyllgor ar 14 Mai 2026 er ystyriaeth. Rhoddodd Aelodau adborth ar y fersiynau drafft hyn.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, bu i'r Pwyllgor hefyd fonitro'r cynnydd mewn perthynas ag unrhyw argymhellion perthnasol a wnaed yn Adroddiad yr Archwilwyr Allanol ar gyfer 2024–25.

## Rheoli Risg

Mae'r sefydliad yn gweithredu model amddiffyn 'tri llinell', ond yn elwa ar graffu allanol pellach gan Adran Llywodraeth y DU dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a phwyllgorau seneddol.

Trwy gydol 2025–26, roedd y Prif Swyddog Cyllid wedi cyflwyno adroddiadau a diweddariadau i'r Pwyllgor ar y datblygiadau ym maes rheoli risg yn S4C, ynghyd â chopïau o'r Gofrestr Risgiau Strategol. Cynhaliwyd adolygiad trwyadl er mwyn diweddaru'r Gofrestr Risg Strategol ei hun yn ystod y flwyddyn. Felly, bu mwy o gyfleoedd i ddiweddaru'r Pwyllgor, a chaniatau i aelodau graffu ar, y prosesau i adnabod a chytuno ar newidiadau penodol i sgorau risg, felly hefyd ffactorau lliniarol.

### Trafodaethau Manwl ar Risgiau Unigol

Yn unol â'i gylch gorchwyl, cynhaliodd y Pwyllgor gyfres o sesiynau manwl, strwythuredig yn ystod 2025–26 i ystyried risgiau penodol yn fanylach, gyda chefnogaeth aelodau perthnasol o'r Uwch Dîm Arwain a, lle bo'n briodol, cyfranwyr allanol.

Roedd y trafodaethau manwl a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Trefniadau seiberddiogelwch (21 Mai 2025), a oedd yn cynnwys sesiwn gyda Phrif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth y BBC i ystyried risgiau a rennir a'r mesurau diogelu sydd ar waith drwy bartneriaeth dechnegol S4C gyda'r BBC;
- Amnewid System Rheoli Darlledu S4C (01 Hydref 2025), gyda ffocws penodol ar symud data, caffael cyflenwyr, a'r cyd-ddibyniaethau â Chytundeb Gwasanaethau Technegol y BBC;
- Risgiau Llywodraethu a Chydymffurfiaeth (20 Tachwedd 2025); a
- Risgiau sy'n ymwneud â chynulleidfa S4C (19 Chwefror 2026), gan archwilio comisiynu a gwerthuso cynnwys, marchnata ac ymgysylltu, a strategaeth llwyfannau yng nghyd-destun newid patrymau gwylio.

## Adolygiad Polisi

Yng nghyd-destun y Gofrestr Risgiau Strategol wedi'i hadnewyddu, ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor fân ddiwygiadau i Bolisi Rheoli Risg S4C ar 01 Hydref 2025.

Adolygodd y Pwyllgor Ddatganiad Archwaeth Risg a'r Matrics yn ystod 2025–26, ac ar 20 Tachwedd 2025 argymhellodd i'r Bwrdd gymeradwyo diwygiadau i'r Matrics i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed tuag at y lefel archwaeth a gytunwyd. Ni ystyriwyd bod angen unrhyw newidiadau i'r lefel archwaeth sylfaenol.

## Busnes Arall Allweddol

Yn ystod y flwyddyn adrodd, roedd y Pwyllgor hefyd wedi ystyried y busnes arall allweddol canlynol:

### Gwerth am Arian

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol ar asesu a chynnal gwerth am arian yng nghyswllt gwasanaethau S4C. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd y gwaith i reoli costau cynhyrchu cynnwys yn ystyriaeth allweddol i'r aelodau.

### Adolygu sut mae'r Pwyllgor yn gweithredu

Yn ystod 2025–26 roedd Ysgrifennydd y Bwrdd wedi adolygu sut roedd y Pwyllgor yn gweithredu yn erbyn y rhestr wirio hunanasesu i Bwyllgorau Archwilio a Risg a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Cyflwynwyd yr asesiad a ddeilliodd o hyn i'r Pwyllgor er ystyriaeth ar 19 Chwefror 2026.

Yn gyffredinol, roedd yr aelodau'n cytuno bod y Pwyllgor eisoes yn cydymffurfio â'r arferion a argymhellir i raddau helaeth.

### Hyfforddiant y Pwyllgor ac Ymgysylltu Allanol

Yn ystod 2025–26, derbyniodd aelodau'r Pwyllgor nifer o fewnbynnau hyfforddi a datblygu i gefnogi eu cyfrifoldebau goruchwylio. Darparodd TIAA sesiynau briffio ar drefniadau archwilio mewnol S4C (Mehefin 2025), arfer gorau mewn goruchwylio risg (Hydref 2025), a thwyll ac atal twyll, gan gynnwys chwythu'r chwiban (Tachwedd 2025). Cyflwynodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol hefyd drosolwg o'i rôl a'i chyfrifoldebau yng nghyfarfod Chwefror 2026, yng nghyd-destun cyflwyno'r Cynllun Archwilio Allanol.

Cynrychiolodd Cadeirydd y Pwyllgor S4C mewn fforymau ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Risg cyrff a noddir gan DCMS a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Ymgysylltodd y Cadeirydd hefyd â fforwm ehangach y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio. Adroddwyd ar y mewnwelediadau o'r ymgysylltiadau allanol hyn yn ôl i'r Pwyllgor mewn cyfarfodydd dilynol.

**Casgliad a Sicrwydd**

Yn ystod y cyfnod sydd dan sylw yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor wedi:

- adolygu adroddiadau gan yr archwilwyr mewnol a darparwyr sicrwydd eraill,
- asesu'r camau roedd y rheolwyr wedi rhoi cychwyn arnynt er mwyn mynd i'r afael â'r materion cysylltiedig â rheolaeth a godwyd,
- canolbwyntio ar sicrhau bod camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflwyno a'u monitro, ac
- ystyried gwybodaeth arall a gyflwynwyd iddo.

Ar sail y gwaith hwn, a'r sicrwydd hwn, gall y Pwyllgor Archwilio a Risg roi sicrwydd i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifo ei fod yn rhesymol dweud y gall ddibynnu ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd mesurau rheoli mewnol S4C, ei systemau rheoli risg a'i phrosesau llywodraethu. Gall y Pwyllgor hefyd sicrhau'r Bwrdd bod trefniadau'r sefydliad ar gyfer sicrhau gwerth am arian, ar y cyfan, yn effeithiol.

Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod yr archwiliadau a gwblhawyd yn rhoi sicrwydd rhesymol ynghylch y mesurau rheoli yn y meysydd dan sylw, er ei fod yn cydnabod na ddylai rôl y Pwyllgor Archwilio a Risg gymryd lle gweithredu, a chydymffurfio â, mesurau rheoli mewnol, ac mai Uwch Dîm Arwain S4C sy'n gyfrifol am hyn, ac, yn y pen draw, y Bwrdd.

# Adroddiad Polisi Cyflogaeth a Thaliadau

# Adroddiad Polisi Cyflogaeth a Thaliadau

**Mae'r adroddiad hwn yn nodi materion yn cynnwys polisi cyflogaeth a threfniadau taliadau S4C, ac yn ymgorffori adroddiad cyflog ar sail rhyw.**

### Cyfleoedd cyfartal

Mae S4C yn gyflogwr cyfle cyfartal. Nid yw'n goddef gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, niwroamrywiaeth, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol, cyflogaeth ran-amser neu weithwyr llawn-amser, crefydd, daliadau gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, defnydd o iaith neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall, ac mae'n ymroddedig i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol. Wrth benodi i swyddi, defnyddir egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored a gwneir penodiadau ar sail teilyngdod, gan ystyried y sgiliau a'r profiadau sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r swydd yn effeithiol (sy'n cynnwys y lefel berthnasol o sgiliau Cymraeg).

Mae S4C yn gweithredu system arfarnu sy'n pennu amcanion personol ar gyfer pob aelod o staff gan gynnwys yr Uwch Dîm Arwain. Mae'r amcanion hyn yn seiliedig ar amcanion corfforaethol blynyddol S4C a chaiff perfformiad mewn perthynas â'r amcanion hyn gan bob aelod o staff ei fonitro a'i werthuso fel rhan o system arfarnu staff S4C.

### Cydnabyddiaeth Aelodau Anweithredol y Bwrdd

Caiff cydnabyddiaeth a chyfnod penodiad y Cadeirydd ac aelodau anweithredol y Bwrdd eu pennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Nodir manylion tâl y Cadeirydd a'r aelodau yn Nodyn 5 y Datganiad Ariannol.

Ni ddyfarnwyd unrhyw gynnydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystod y cyfnod adrodd i lefel cydnabyddiaeth aelodau anweithredol y Bwrdd na'r Cadeirydd.

### Cyflogau staff S4C

Mae cyflogau'r Prif Weithredwr, yr Ysgrifennydd ac aelodau'r Uwch Dîm Arwain yn cael eu pennu gan aelodau anweithredol y Bwrdd. Lle bo'r unigolyn hefyd yn gwasanaethu fel aelod gweithredol o'r Bwrdd, mae'r cyflog hefyd yn adlewyrchu'r cyfrifoldebau sy'n deillio o'r swyddogaeth honno

Caiff cyflogau aelodau eraill staff S4C eu pennu gan yr uwch-reolwyr perthnasol, yn unol â'r meincnod priodol ac o fewn y gyllideb flynyddol a gymeradwywyd gan y Bwrdd.

Caiff pob setliad cyflog cyffredinol blynyddol ar gyfer aelodau staff ei gadarnhau gan y Bwrdd ar argymhelliad y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arwain. Daw i rym ar 01 Awst yn flynyddol. Cyflog canolrif yr holl staff ac eithrio'r Uwch Dîm Arwain ar 31 Mawrth 2026 oedd £41,657 (ar 31 Mawrth 2025 – £41,230).

### Polisi Taliadau

Yn ystod y flwyddyn adrodd 2025–26, cymeradwyodd y Bwrdd y setliad cyflog blynyddol o 3.1% ar gyfer cyflogeion S4C.

Bwriad y setliad cyflog yw sicrhau cydbwysedd rhwng cydnabod cyfraniad pwysig staff i lwyddiant y gwasanaeth gyda'r angen i sicrhau fod costau staffio S4C yn parhau i gyfrif am ganran fechan o gyfanswm gwariant S4C, gan ddarparu gwerth am arian o fewn setliad ariannol presennol S4C.

Mae lefel cyflog penodiadau newydd neu ddyrchafiadau yn cael ei feincnodi gyda swyddi tebyg o fewn y farchnad er mwyn sicrhau y gall S4C ddenu / a neu gadw unigolion sydd â chymwysterau addas.

### Adroddiad Blynyddol ar Gyflogau'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arwain

Cyflog canolrif yr Uwch Dîm Arwain ar 31 Mawrth 2026 oedd £104,489 (ar 31 Mawrth 2025 – £101,347). Roedd y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn derbyn 4.1 gwaith yn fwy na thâl canolrifol yr holl staff ac eithrio'r Uwch Dîm Arwain (2024–25 – 4.0 gwaith).

Nodir manylion cyflog y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arwain yn Nodyn 5 y Datganiad Ariannol.

Caiff holl aelodau'r Uwch Dîm Arwain eu cyflogi ar gytundebau parhaol.

### Perfformiad y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arwain

Mae perfformiad y Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd yn cael eu hasesu yn flynyddol gan y Bwrdd. Mae'r prosesau hyn yn cael eu harwain gan y Cadeirydd.

Mae S4C yn gweithredu system o asesu perfformiad ac amcanion personol a chorfforaethol ar gyfer gweddill aelodau'r Uwch Dîm Arwain. Caiff yr amcanion hyn eu cytuno rhwng y Prif Weithredwr ac aelodau unigol yr Uwch Dîm Arwain ar ddechrau'r flwyddyn a bydd eu perfformiad yn eu herbyn yn cael eu hasesu gan y Prif Weithredwr yn ystod ac yn dilyn diwedd y flwyddyn.

### Cyfansoddiad gweithlu S4C

Ar 31 Mawrth 2026, roedd gweithlu S4C yn cynnwys 62% o fenywod a 38% o ddynion (ar 31 Mawrth 2025 – 63% yn fenywod a 37% yn ddynion).

### Rheoliadau Undebau Llafur (gofynion cyhoeddi amser a neilltuir)

Yn unol â'r Rheoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser a Neilltuir) 2017, mae'r adroddiad hwn yn nodi faint o amser y mae cyflogeion S4C wedi ei dreulio ar faterion yn ymwneud gyda gwaith yr undeb.

Swyddogion undeb perthnasol

Yn ystod y flwyddyn, roedd un cyflogai yn gweithredu fel swyddog undeb perthnasol.

Canran yr amser a dreuliwyd ar waith undebol

Treuliodd y cyflogai perthnasol 2 awr dan gontract ar waith undebol.

Canran y gwariant cyflogau sy'n cael ei dreulio ar amser ar gyfer gwaith undebol

Roedd llai nag 1% o gyfanswm y bil cyflog yn cael ei dreulio ar amser ar gyfer gwaith undebol.

## Adroddiad Cyflog ar Sail Rhywt

Daeth deddfwriaeth cyflog rhwng y rhywiau newydd i rym ym mis Ebrill 2017, gan ei gwneud yn ofynnol i bob cwmni yn y DU sydd â thros 250 o weithwyr gyhoeddi eu bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Er nad oes gan S4C fwy na 250 o weithwyr, rydym wedi penderfynu cyhoeddi data cyflog ar sail rhyw.

Mae bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn dangos y gwahaniaeth rhwng cyflog cyfartalog yr holl staff benywaidd a chyflog cyfartalog yr holl staff gwrywaidd, heb ystyried unrhyw wahaniaethau yn y gwaith y maent yn ei wneud. O ganlyniad, mae'n cael ei effeithio gan natur y gweithlu, gan gynnwys niferoedd mewn gwahanol fathau o swyddi ac ar lefelau gwahanol o fewn y sefydliad.

Nod S4C yw sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ar draws ein gweithlu, o ran statws, cyflog ariannol a natur y gwaith.

Ar draws y sefydliad cyfan, roedd y bwlch cyflog cyfartalog rhwng y rhywiau yn 16.5% (2024–25 – 16.2%) a'r bwlch canolrif mewn cyflogau rhwng y rhywiau ar gyfartaledd yn 26.7% (2024–25 – 25.0%).

Nodir isod ddata ar gyfer canran y staff gwrywaidd a benywaidd a'r bwlch cyflog o fewn sectorau a elwir yn chwarteli (sy'n fandiau cyflog o'r un maint, o'r 25% o weithwyr ar y cyflog isaf i'r 25% ar y cyflog uchaf).

Mae'r chwartel uchaf yn parhau i adlewyrchu cydbwysedd rhyw o bron i 50:50. Mae canolrif bwlch cyflog y chwartel uchaf wedi ehangu ymhellach o blaid menywod (i -10.9%), yn bennaf oherwydd newidiadau o fewn yr Uwch Dîm Arwain (2024–25: -9.7%). Mae'r bwlch canolrif wedi cynyddu ym mhob un o'r tri chwartel arall: mae'r chwartel canol uchaf wedi symud i 3.4% (2024–25: 1.6%), y chwartel canol is i 7.9% (2024–25: 4.9%), a'r chwartel isaf – a oedd yn weddol niwtral y llynedd – i 3.4% (2024–25: -0.1%).

Esbonnir bwlch cyflog rhwng y rhywiau S4C gan ddau brif ffactor:

1. Mae anghydbwysedd rhwng y rhywiau yn y ddau chwartel isaf, lle mae cyfran sylweddol uwch o swyddi'n cael eu cyflawni gan weithwyr benywaidd. Mae'r crynodiad uwch o fenywod yn y chwarteli isaf yn gostwng cyflog cyfartalog menywod ar draws y sefydliad ac, o ganlyniad, yn cynyddu'r bwlch cyflog cyffredinol.
2. Yn y ddau chwartel uchaf, mae cyfran gymharol gyfartal o ddynion a menywod. Yn y chwartel uchaf, mae'r cyflog canolrif i fenywod yn sylweddol uwch nag i ddynion, tra bod y cyflogau cyfartalog yn agos iawn at ei gilydd. Mae hyn yn parhau i helpu i wrthbwyso'r anghydbwysedd yn y chwarteli isaf.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau, mae S4C yn darparu hyfforddiant mewnol i sicrhau prosesau di-duedd wrth recriwtio. Yn ogystal, rydym yn cymryd camau addas i gefnogi'r sefydliad i hybu ymwybyddiaeth ac arfer gorau yn fwy cyffredinol oddi fewn i'r sefydliad. Mae S4C yn cynnig gweithio hyblyg a hybrid ar ei holl swyddi gwag, yn ogystal â sicrhau bod y swyddi'n cael eu hysbysebu ar ystod eang o lwyfannau, gan gymryd camau penodol i gyrraedd pobl o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector.

Mae S4C yn parhau i gymryd camau priodol i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ymhellach, gan gynnwys y mentrau a grybwyllir uchod, ochr yn ochr ag adolygiad rheolaidd o arfer gorau yn y diwydiant ac yn y byd corfforaethol yn ehangach.

| | Cyfanswm | | Chwartel uchaf | | Canol uchaf | | Canol is | | Chwartel Isaf | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw |
| % staff | | | | | | | | | | |
| **2025/26** | **38%** | **62%** | **47%** | **53%** | **48%** | **52%** | **41%** | **59%** | **15%** | **85%** |
| 2024/25 | 37% | 63% | 48% | 52% | 52% | 48% | 35% | 65% | 16% | 84% |
| | | | | | | | | | | |
| **Canolrif cyflog 2025/26** | **£51,840** | **£38,000** | **£77,349** | **£85,779** | **£53,405** | **£51,605** | **£38,000** | **£35,000** | **£31,500** | **£30,428** |
| **Canolrif bwlch cyflog % 2025/26** | **26.7%** | | **-10.9%** | | **3.4%** | | **7.9%** | | **3.4%** | |
| Canolrif cyflog 2024/25 | £49,909 | £37,420 | £83,680 | £91,760 | £50,890 | £50,053 | £36,400 | £34,631 | £28,818 | £28,844 |
| Canolrif bwlch cyflog % 2024/25 | 25.0% | | -9.7% | | 1.6% | | 4.9% | | -0.1% | |
| | | | | | | | | | | |
| **Cyfartaledd cyflog 2025/26** | **£57,620** | **£48,103** | **£88,376** | **£87,329** | **£52,538** | **£51,960** | **£38,428** | **£36,455** | **£31,507** | **£29,849** |
| **Cyfartaledd bwlch cyflog % 2025/26** | **16.5%** | | **1.2%** | | **1.1%** | | **5.1%** | | **5.3%** | |
| Cyfartaledd cyflog 2024/25 | £57,477 | £48,175 | £89,126 | £91,672 | £50,863 | £51,813 | £36,842 | £35,874 | £28,734 | £28,481 |
| Cyfartaledd bwlch cyflog % 2024/25 | 16.2% | | -2.9% | | -1.9% | | 2.6% | | 0.9% | |

# Cyfrifon 2025–26

# Datganiad Ariannol 2025/26

## Adroddiad S4C am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2026

### Rhagair

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys Datganiad Ariannol S4C am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2026, ynghyd â nodiadau esboniadol.

Cyflwynir Datganiad Ariannol S4C am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2026 yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a ryddhawyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i S4C ym mis Mawrth 2020.

Mae'r Bwrdd yn cyflwyno asesiad cytbwys o sefyllfa a rhagolygon S4C yn yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei chyflwyno yn ôl gofynion statudol.

### Prif weithgareddau

Mae S4C yn gweithredu o dan Adrannau 203 hyd 207 (yn gynwysiedig) ac Atodlen 12 Deddf Cyfathrebiadau 2003. O dan adran 204A, cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C yw sicrhau bod ystod eang o gynnwys clyweledol o ansawdd uchel ac amrywiol ar gael, gyda chyfran sylweddol ohono yn y Gymraeg, ac sy'n cyfrannu'n ddigonol at gyflawni cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer teledu yn y DU.

### Strwythur grŵp

O dan adran 204A(4) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, gall S4C wneud unrhyw beth y mae'n ei ystyried yn briodol mewn cysylltiad ag unrhyw beth y mae'n ei wneud wrth arfer ei bŵer pennaf i ddarparu unrhyw gynnwys clyweledol. O dan adran 204B, rhaid i S4C gael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol cyn i S4C neu gwmni S4C wneud unrhyw beth am dâl neu gyda'r bwriad o wneud elw. Ystyrir bod pob gweithgaredd a oedd yn cael ei gyflawni gan S4C neu gwmni S4C yn union cyn i'r adran ddod i rym ar 1 Ionawr 2026 wedi'i gymeradwyo. Ym mis Chwefror 2026, ymrwymodd yr Ysgrifennydd Gwladol i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth a roddodd gymeradwyaeth ymlaen llaw i rai mathau neu lefelau o weithgaredd masnachol, ac a nododd y broses ar gyfer cael cymeradwyaeth pan fo angen.

O fewn y Datganiad Ariannol cyfun hwn, cyfeirir at Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel S4C ac at gyfanswm y gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau masnachol fel Grŵp S4C. Cyfeirir at yr asedau nad ydynt yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel y Gronfa Gyffredinol.

### Cyllid

Mae'r darpariaethau'n ymwneud â gofynion ariannol S4C wedi eu nodi yn Adran 61 Deddf Darlledu 1990. Mae'r adran yn rhoi dyletswydd statudol ar yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau y telir swm i S4C y mae o'r farn ei fod yn ddigonol i dalu cost S4C bob blwyddyn ar gyfer cyflawni ei gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol dros Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyflawni'r ddyletswydd hon drwy wneud taliadau ei hun neu lunio cytundeb ag unigolyn arall i'r unigolyn hwnnw wneud hynny (neu'r ddau). Rhaid i'r cyfryw gyllid gael ei gadw yn y Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus a'i gymhwyso at ddibenion cyflawni gwasanaethau cyhoeddus S4C yn unig. Ni chaniateir unrhyw gymhorthdal o'r Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer unrhyw un o is-gwmnïau S4C.

Yn ystod y flwyddyn, daeth cyllid S4C o ffi'r drwydded trwy'r BBC.
Mae S4C hefyd yn cynhyrchu refeniw drwy weithgareddau masnachol, gan gynnwys gwerthiant hysbysebion a nawdd rhaglenni.

Cafodd y darpariaethau sy'n ymwneud â chyfraniad ffi'r drwydded ar gyfer 2025/26 eu hamlinellu yng Nghytundeb Fframwaith y BBC gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016, (fel y'u diwygiwyd Mai 2022) sy'n cynnwys y darpariaethau ariannol gytunwyd arnynt rhwng y BBC, yr Ysgrifennydd Gwladol ac S4C ar gyfer cyfraniad ffi'r drwydded o 2022/23 i 2027/28.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi nodi'r symiau y bydd y DCMS yn eu cyfrannu i S4C am 2025/26 mewn llythyr setliad ffi drwydded ar 21 Ionawr 2022. Mae'r penderfyniad hwn yn gymwys am weddill gyfnod y setliad hyd at 31 Mawrth 2028.

### Incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Throsiant y Gronfa Gyffredinol

Roedd y cyfanswm a dderbyniwyd oddi wrth yr BBC yn ystod y cyfnod yn £97.609m (cyfnod i 31 Mawrth 2025 - £94.803m). Defnyddiwyd yr incwm hwn i gyllido costau comisiynu a phrynu rhaglenni Cymraeg, costau dosbarthu S4C, gwariant ar asedau sefydlog a gorbenion. Mae balans yr incwm hwn, ar ôl cost darlledu rhaglenni a chostau gweithredu a gweinyddu, felly yn cynrychioli'r prif fodd o gyllido asedau net S4C ac yn cael ei drin fel incwm gohiriedig yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus. Crëwyd trosiant y Gronfa Gyffredinol trwy werthu amser hysbysebu, hawliau mewn rhaglenni teledu, nawdd, marsiandïo, cyhoeddi a gweithgareddau buddsoddi. Yn y cyfnod a derfynodd 31 Mawrth 2026, roedd cyfanswm y trosiant hwn yn £1.448m (cyfnod i 31 Mawrth 2025 - £1.658m). Rhoddir manylion pellach yn nodyn 3 i'r Datganiad Ariannol.

### Gwariant

Mae'r costau a roddwyd yn erbyn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr yn ystod y cyfnod yn cynnwys £92.803m (cyfnod i 31 Mawrth 2025 - £91.128m) ar gyfer costau'r gwasanaeth rhaglenni a chostau darlledu a dosbarthu, £0.865m ar gyfer costau uniongyrchol eraill (cyfnod i 31 Mawrth 2025 - 0.699m) a £4.127m (cyfnod i 31 Mawrth 2025 - £3.875m) ar gyfer costau gweithredu a gweinyddu. Roedd costau'r rhaglenni a ddarlledwyd yn cynnwys £72.960m (cyfnod i 31 Mawrth 2025 - £71.960m) ar gyfer costau rhaglenni a gomisiynwyd neu a brynwyd gan gyflenwyr rhaglenni ac ailddarllediadau. Mae'r costau darlledu a dosbarthu yn codi mewn perthynas â llwyfannau digidol daearol, lloeren rhyngrwyd gan gynnwys gwasanaethau fideo ar alw a ddarperir gan gontractwyr. Roedd y gweddill yn gostau uniongyrchol comisiynu a chyflwyno rhaglenni, costau gweithredol gwasanaethau mynediad S4C ynghyd â chostau perthnasol eraill y gwasanaeth rhaglenni megis costau marchnata a chostau ymchwil cynulleidfa.

Mae costau uniongyrchol eraill yn cynnwys rhaniad elw a oedd yn daladwy i drydydd partïon mewn perthynas â gwerthu rhaglenni, comisiwn asiantaeth a chostau darlledu sy'n ymwneud â hysbysebion a chostau darlledu digidol yn ymwneud â gofod darlledu S4C2 Cyf. Ceir manylion pellach am gostau gweithredu a gweinyddu S4C yn nodyn 4 i'r Datganiad Ariannol.

Derbynnir incwm gan y BBC cyn i'r holl gostau gael eu codi ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr. Ar ddyddiad y Fantolen, trosglwyddir unrhyw incwm a dderbynnir ymlaen llaw i'r Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus. Trosglwyddwyd £2.959m i'r Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus ar 31 Mawrth 2026 (ar 31 Mawrth 2025 – £2.320m i'r Gronfa Gwasanaethau Cyhoeddus).

### Polisi talu

Mae'n bolisi gan S4C i gytuno ar amodau a thelerau addas ar gyfer ei thrafodion â chyflenwyr ac, yn amodol ar eu cydymffurfiad, gwneir taliadau yn unol â'r telerau hyn. Yn arferol yn ystod y flwyddyn, talwyd 94% (cyfnod i 31 Mawrth 2025 - 95%) o gyflenwyr cyn pen 30 diwrnod.

## Oriau a ddarlledwyd a chyfartaledd cost yr awr

Yn ystod y cyfnod darlledodd S4C gyfanswm o 6,504 awr o raglenni (cyfnod i 31 Mawrth 2025 - 6,501 awr), yn cynrychioli cyfartaledd o 125.1 awr yr wythnos (cyfnod i 31 Mawrth 2025 - 125 awr).

Derbyniodd S4C yr oriau statudol a ddarparwyd gan y BBC, a oedd yn cynnwys rhai ailddarllediadau, dan adran 58 (1) Deddf Darlledu 1990 a thalwyd amdanynt gan y BBC o incwm y ffi drwydded. Mae S4C hefyd wedi gwneud taliadau gwerth £0.154m am ddarparu bwletinau tywydd nad yw'n cael eu darparu fel rhan o'r oriau statudol (cyfnod i 31 Mawrth 2025 - £0.636m i'r BBC am ddarparu rhaglenni drama, chwaraeon a bwletinau tywydd).

Yn ystod y cyfnod darlledodd S4C 1,278 awr (cyfnod i 31 Mawrth 2025 - 1,278 awr) o raglenni Cymraeg yn yr oriau brig rhwng 6.30 y.p. a 10.00 y.p. sy'n gyfartaledd yr wythnos o 24.6 awr (cyfnod i 31 Mawrth 2025 - 24.6 awr).

Mae'r gost fesul awr ar gyfer 2024/25 wedi'i hailddatgan er mwyn cyd-fynd â'r driniaeth gyfrifyddu ar gyfer rhaglenni ffrydio chwaraeon yn 2025/26.

| | 2025/26 | | 2024/25 | |
|---|---|---|---|---|
| | Oriau | Cost yr awr £ | Oriau | Cost yr awr £ |
| **Rhaglenni a gomisiynwyd** | | | | |
| Cynyrchiadau annibynnol | **1,400** | **45,595** | 1,337 | 46,869 |
| BBC | **43** | **3,583** | 54 | 11,779 |
| | **1,443** | **44,343** | 1,391 | 45,506 |
| Rhaglenni a brynwyd | **49** | **13,098** | 77 | 12,077 |
| **Ailddarllediadau** | | | | |
| Cynyrchiadau annibynnol | **4,452** | **325** | 4,393 | 247 |
| BBC | **68** | **-** | 108 | - |
| | **6,012** | **10,990** | 5,969 | 10,942 |
| BBC - Oriau Statudol | **492** | | 532 | - |
| **Cyfanswm** | **6,504** | | 6,501 | |
| Cyfartaledd yr wythnos | **125.1** | | 125.0 | |

| Rhaglenni a ddarlledwyd yn ôl categori | 2025/26 | | 2024/25 | |
|---|---|---|---|---|
| | Oriau | Cost yr awr £ | Oriau | Cost yr awr £ |
| **Rhaglenni a gomisiynwyd** | | | | |
| Drama | **72** | **205,195** | 63 | 181,495 |
| Ffeithiol Cyffredinol | **482** | **36,288** | 489 | 35,572 |
| Materion Cyfoes a'r Tywydd | **91** | **39,578** | 89 | 39,984 |
| Cerdd Ysgafn / Adloniant | **94** | **92,890** | 116 | 95,921 |
| Plant | **269** | **23,630** | 266 | 21,617 |
| Cerddoriaeth a Chelfyddydau | **78** | **43,501** | 84 | 46,052 |
| Chwaraeon | **338** | **25,244** | 264 | 34,165 |
| Crefydd | **19** | **58,164** | 20 | 57,384 |
| **Cyfanswm** | **1,443** | **44,343** | 1,391 | 45,506 |

| **Oriau statudol BBC** | 2025/26 | 2024/25 |
|---|---|---|
| | Oriau | Oriau |
| Drama | **61** | 63 |
| Newyddion | **212** | 216 |
| Materion Cyfoes a Ffeithiol | **-** | 8 |
| Pobl Ifanc a Phlant | **19** | 20 |
| Cerddoriaeth a Chelfyddydau | **93** | 96 |
| Chwaraeon | **107** | 129 |
| **Cyfanswm** | **492** | 532 |

### Cynnwys digidol a gyhoeddwyd (ac eithrio cyfryngau cymdeithasol)

Yn ychwanegol i'r cynnwys comsiynwyd uwchben, cyhoeddwyd 302 awr o gynnwys digidol yn y flwyddyn am £6.887m (273 awr am £6.648m yn 2024/25).

| Rhaglenni a gomisiynwyd | 2025/26 | | 2024/25 | |
|---|---|---|---|---|
| | Oriau | Cost yr awr £ | Oriau | Cost yr awr £ |
| Drama | **1** | **73,000** | 3 | 107,073 |
| Ffeithiol Cyffredinol | **13** | **15,811** | 28 | 32,670 |
| Materion Cyfoes a'r Tywydd | **19** | **26,245** | 17 | 12,609 |
| Cerdd Ysgafn / Adloniant | **31** | **60,304** | 27 | 47,596 |
| Plant | **6** | **70,699** | 20 | 28,708 |
| Cerddoriaeth a Chelfyddydau | **4** | **38,488** | 11 | 28,775 |
| Chwaraeon | **228** | **16,064** | 167 | 18,092 |
| **Cyfanswm** | **302** | **22,806** | 273 | 24,350 |

# Datganiad o Gyfrifoldebau

### Paratoi Datganiadau Ariannol

Yn y datganiadau ariannol hyn mae cyfarwyddwyr yn cyfeirio at Fwrdd S4C, Swyddog Cyfrifo S4C a chyfarwyddwyr is-gwmnïau masnachol S4C.

**(a)** Mae'n ofyniad hanfodol o dan gyfraith cwmnïau'r Deyrnas Unedig i gyfarwyddwyr sicrhau bod eu datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol gan roi darlun gwir a theg o sefyllfa eu cwmni ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac o'r elw neu'r golled ar gyfer y cyfnod hwnnw.

**(b)** At hynny, mae'n ofynnol i gyfarwyddwyr:
- fabwysiadu polisïau cyfrifo addas a'u defnyddio'n gyson;
- lunio arfarniadau a gwneud amcangyfrifon yn rhesymol ac yn ddoeth;
- gydymffurfio â safonau cyfrifo sy'n gymwys; a
- baratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn anaddas i gymryd bod y cwmni'n mynd i barhau mewn busnes.

**(c)** Mae cyfarwyddwyr hefyd yn gyfrifol am:
- sicrhau bod cofnodion cyfrifo digonol yn cael eu cadw i ddiogelu asedau'r cwmni; ac
- i gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Cyn belled a bod y cyfarwyddwyr yn ymwybodol:
- Nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y grŵp yn ymwybodol ohoni; ac mae'r cyfarwyddwyr wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi eu cymryd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.
- Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw a chywirdeb y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd wedi ei gynnwys ar wefan y cwmni. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu paratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Yn achos S4C, mae'r cyfrifoldeb am baratoi Datganiad Ariannol wedi ei roi ar S4C fel corff statudol o dan Ddeddf Darlledu 1990, Atodlen 6, paragraffau 12 a 13 (fel yr addaswyd).

Mae'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifo, ynghyd â'r Prif Swyddog Cyllid, yn gyfrifol am sicrhau bod y Datganiad Ariannol yn cael ei baratoi, ac am weithredu'r camau rheoli. Mae'r Swyddog Cyfrifo wedi cael y sicrwydd angenrheidiol ynghylch gweithredu a gweithrediad rheolaethau ar gyfer y cyfnod adrodd llawn er mwyn gallu cyflawni'r cyfrifoldeb hwn.

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau bod Datganiad Ariannol S4C yn cydymffurfio â'r holl ofynion priodol. Mae'r Bwrdd yn ystyried ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau ym mhob un o'r agweddau uchod. Mae cyfanswm o £2.959m wedi'i drosglwyddo i'r Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus o'r cyfrif elw a cholled yn 2025/26 (2024/25 - £2.320m i'r Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus o'r cyfrif elw a cholled).

### Busnes Gweithredol

Mewn perthynas ag asesu hyfywedd y busnes, mae'r Bwrdd wedi asesu rhagolygon busnes S4C am y cyfnod hyd at fis Mawrth 2028. Mae'r cyfnod hwn yn berthnasol i fusnes S4C gan ei fod yn ymwneud â chyfnod setliad ffi'r drwydded hyd at 31 Mawrth 2028, gan gynnwys darpariaethau cymal 39 o Gytundeb Fframwaith y BBC (a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr 2016).

Mae'r Bwrdd wedi ystyried dyletswydd statudol yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau cyllid digonol i S4C er mwyn iddo allu cyflawni ei gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus a'r setliad cyllido ar gyfer y cyfnod 2021/22 i 2027/28.

Yn ei asesiad cyffredinol o hyfywedd busnes S4C, mae'r Bwrdd wedi:

- ystyried y ddyletswydd statudol i sicrhau cyllid digonol i S4C er mwyn iddo allu cyflawni ei gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus;
- cymeradwyo cyllideb grŵp S4C hyd at 31 Mawrth 2027 gan ystyried archwaeth risg y Bwrdd, strategaeth S4C, a'i gylch gwaith o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Roedd y gyllideb yn cynnwys refeniw a chost ynghyd â'i sefyllfa ariannol bresennol a'i adnoddau ariannol. Adolygodd y Bwrdd y rhagolygon ariannol ar gyfer y cyfnodau 2027/28 i 2033/34 hefyd;
- adolygu amcanion strategol a strategaeth cynnwys S4C ar gyfer 2025/26. Yn dilyn cadarnhad o'r setliad cyllido ar gyfer y cyfnod 2021/22 - 2027/28, mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo strategaeth ar gyfer y cyfnod hwnnw;
- adolygu disgwyliadau cynulleidfa o wasanaethau S4C. Monitrodd y Bwrdd ansawdd a pherfformiad y gwasanaeth yn weithredol trwy gydol y flwyddyn ac ymgynghorwyd yn eang â'r gynulleidfa trwy ystod o wahanol ddulliau. Trwy weithio'n agos â chynhyrchwyr annibynnol, mae S4C wedi trafod sylwadau cynulleidfa a nodi ffyrdd o wella'r allbwn rhaglenni tra hefyd yn sicrhau gwerth am arian drwy'r cydweithio hwn;
- ystyried y gofrestr risg strategol a phob un o'r prif risgiau ac ansicrwydd a nodir yn yr Adroddiad Llywodraethu uchod, gan gynnwys sut y cânt eu rheoli;
- ystyriwyd unrhyw faterion perthnasol yn ymwneud â'r broses dod o hyd i ffeithiau yn 2023 a goblygiadau'r penderfyniadau cysylltiedig a wnaed;
- ystyried adroddiadau sy'n crynhoi gwaith sicrwydd busnes yn ystod y flwyddyn; ac
- adolygu'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad arferol y busnes sy'n cynnig y sylfaen i roi strategaeth hirdymor S4C ar waith.

Er nad yw'r asesiad hwn yn ystyried yr holl risgiau y gallai S4C eu hwynebu, mae'r Bwrdd yn cadarnhau bod ei asesiad o'r risgiau strategol y mae S4C yn eu hwynebu yn gadarn.

Ar sail canlyniadau ei weithgareddau yn ymwneud â'r prif risgiau a hyfywedd a'r darpariaethau statudol yn ymwneud â chyllid digonol i S4C, mae gan y Bwrdd ddisgwyliad rhesymol y bydd yn gallu parhau i weithredu a bodloni ei rwymedigaethau, pan fyddant yn ddyledus. Am y rheswm hwn, mae'n parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r Datganiad Ariannol.

### Annibyniaeth yr archwilwyr allanol

Mae'r Bwrdd yn cynnal perthynas briodol gydag archwilwyr allanol.

### Archwilwyr Allanol

Mae adroddiad archwilwyr allanol S4C, y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, ar y Datganiad Ariannol i'w gael ar dudalennau 81 i 82

Ar orchymyn y Bwrdd



Geraint Evans
Prif Weithredwr

01 Gorffennaf 2026

# TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I FWRDD SIANEL PEDWAR CYMRU (S4C), GAN GYDNABOD BOD DAU DŶ SENEDD Y DEYRNAS UNEDIG HEFYD YN DIBYNNU AR ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL S4C

## Barn ar y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Sianel Pedwar Cymru (S4C) a'i Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 o dan Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd).

Mae datganiadau ariannol S4C a'i Grŵp yn cynnwys:

- Mantolen S4C a'r Fantolen Gyfunol ar 31 Mawrth 2026;
- y Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr, y Datganiad Llif Arian Cyfunol a Datganiad S4C o Newidiadau mewn Ecwiti a'r Datganiad Cyfunol o Newidiadau mewn Ecwiti ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi datganiadau ariannol S4C a'i Grŵp yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa S4C a'i Grŵp ar 31 Mawrth 2026 a'i elw ar ôl treth am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- maent wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Darlledu 1990 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan y ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan Senedd y Deyrnas Unedig ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Fe wnes i gynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (y DU), y gyfraith berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2024). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn adran Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig (2024) y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf yn annibynnol ar S4C a'i Grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth rwyf wedi'i chasglu o'r archwiliad yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd S4C a'i Grŵp o sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi dod o hyd i unrhyw ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu S4C a'i Grŵp i barhau i fod yn fusnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu ynghylch busnes hyfyw yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na'm tystysgrif a'm hadroddiad arnynt fel archwilydd. Y Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu, sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni, heblaw pan fo hynny wedi'i ddatgan yn glir yn fy nhystysgrif.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a oes unrhyw anghysonder o bwys rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth rwyf wedi'i chael yn yr archwiliad, neu a oes unrhyw gamddatganiad arall o bwys yn yr wybodaeth arall.

Os byddaf yn canfod anghysonderau o bwys neu'r hyn sy'n ymddangos fel petai'n gamddatganiad o bwys fel uchod, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae rhannau'r Adroddiad Blynyddol sy'n destun archwiliad wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan y Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd); ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Ac ystyried yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o S4C a'i Grŵp a'u hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi dod o hyd i unrhyw gamddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Blynyddol.
Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol lle mae'n ofynnol i mi roi gwybod i chi os wyf i'n credu:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw gan S4C a'i Grŵp neu nad oes ffurflenni perthnasol i'm harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Blynyddol sy'n destun archwiliad yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni.

## Cyfrifoldebau Bwrdd S4C a'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu, o ran y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau, mae Bwrdd S4C a'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am y pethau canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rhoi mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at yr holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ei bod yn berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol, fel cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- rhoi'r wybodaeth a'r esboniadau ychwanegol sydd eu hangen ar y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar gyfer ei archwiliad;
- rhoi mynediad anghyfyngedig i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at yr unigolion hynny o fewn S4C a'i Grŵp y mae'r archwilydd yn barnu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod y rheolaethau mewnol angenrheidiol ar waith er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad;
- paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd);

## TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I FWRDD SIANEL PEDWAR CYMRU (S4C), GAN GYDNABOD BOD DAU DŶ SENEDD Y DEYRNAS UNEDIG HEFYD YN DIBYNNU AR ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL S4C

- paratoi'r adroddiad blynyddol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd); ac
- asesu gallu S4C a'i Grŵp i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes hyfyw a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni bai bod y Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan S4C a'i Grŵp yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

### Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Darlledu 1990.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a rhoi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn golygu lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw hynny'n gwarantu y bydd archwiliad sy'n cael ei gynnal yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn canfod camddatganiadau o bwys pan maent yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac maent yn cael eu hystyried yn gamddatganiadau o bwys os gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr sy'n cael eu gwneud ar sail y datganiadau ariannol hyn.

#### I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â fy nghyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau o bwys yng nghyswllt peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Nodir isod fanylion ynghylch i ba raddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

#### Canfod ac asesu'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth ganfod ac asesu'r risgiau o gamddatganiad o bwys yng nghyswllt diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, fe wnes i'r pethau canlynol:

- ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a'r perfformiad gweithredol, gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu, dangosyddion perfformiad allweddol a chymhellion perfformiad S4C a'i Grŵp;
- holi'r rheolwyr, Pennaeth Archwilio Mewnol S4C a'r bobl hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau S4C a'i Grŵp ar:
    - o nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
    - o canfod ac ymateb i risgiau o dwyll; a'r
    - o rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau S4C a'i Grŵp sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth S4C â Deddfau Darlledu 1990 a 1996, Deddf y Cyfryngau 2024 a Deddf Cyfathrebiadau 2003;
- holi'r rheolwyr, Pennaeth Archwilio Mewnol S4C a'r bobl hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu a oeddent:
    - o yn ymwybodol o unrhyw enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
    - o yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig;
- trafod gyda'r tîm ymgysylltu gan gynnwys timau archwilio elfennau pwysig ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli yn S4C a'i Grŵp ar gyfer twyll a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, cyflwyno dyddlyfrau anarferol, trafodion cymhleth a rhagfarn mewn amcangyfrifon rheoli. Yn yr un modd â phob archwiliad o dan y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU), mae'n ofynnol i mi ddilyn gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod S4C a'i Grŵp a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae S4C a'i Grŵp yn gweithredu yn unol â hwy. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau o bwys yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau S4C a'i Grŵp. Ymysg y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn roedd Deddfau Darlledu 1990 a 1996, Deddf y Cyfryngau 2024 a Deddf Cyfathrebiadau 2003, cyfraith cyflogaeth a threthiant.

#### Ymateb yr archwiliad i'r risgiau a nodwyd

I ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- adolygais ddatgeliadau'r datganiadau ariannol a'r gwaith profi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holais y rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r cwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a rhai posibl;
- adolygais gofnodion cyfarfodydd y bobl hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd ac adroddiadau archwilio mewnol;
- es i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolwyr yn diystyru rheolaethau drwy brofi priodoldeb cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau ar amcangyfrifon yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg fusnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i gyfleu'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o ran twyll i holl aelodau'r tîm ymgysylltu a thimau archwilio elfennau pwysig, ac roeddwn yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy nhystysgrif.

#### Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth archwilio berthnasol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y Deyrnas Unedig a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â'r bobl hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad yr archwiliad a chanfyddiadau pwysig yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol rwy'n dod o hyd iddynt yn ystod fy archwiliad.

### Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

#### Cyfieithiad Cymraeg

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddiol. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae Sianel Pedwar Cymru yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hyn.

Gareth Davies
06 Gorffennaf 2026
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr

## am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2026

Mae'r Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr, y Mantolenni, y Datganiadau o Newidiadau Mewn Ecwiti a'r Datganiad Llif Arian Cyfun yn dangos canlyniadau a pherfformiad S4C yn ogystal â'i grŵp masnachol o gwmnïau. O fewn y Datganiad Ariannol Cyfun hwn, cyfeirir at Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel S4C ac at gyfanswm y gwasanaeth cyhoeddus a'r gweithgareddau masnachol fel Grŵp S4C. Cyfeirir at yr asedau nad ydynt yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel y Gronfa Gyffredinol.

| | Nodyn | 2025/26 | 2024/25 |
|---|---|---|---|
| | | **£000** | £000 |
| Incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Throsiant y Gronfa Gyffredinol | 3 | **99,242** | 96,618 |
| Trosiant S4C | | **99,242** | 96,618 |
| Costau'r gwasanaeth rhaglenni | | **(87,731)** | (85,619) |
| Costau darlledu a dosbarthu | | **(5,072)** | (5,510) |
| Costau uniongyrchol eraill | | **(865)** | (699) |
| Elw gros | | **5,574** | 4,790 |
| Costau gweithredu a gweinyddu | 4 | **(4,127)** | (3,875) |
| Elw gweithredol | 3 | **1,447** | 915 |
| Cynnydd fuddsoddiad | 11 | **218** | 171 |
| Incwm buddsoddiad | | **281** | 307 |
| Llog net | | **426** | 318 |
| Elw ar weithgareddau cyffredin cyn trethiant | | **2,372** | 1,711 |
| Trethiant ar elw ar weithgareddau cyffredin | 6 | **-** | - |
| Elw ar ôl trethiant | | **2,372** | 1,711 |
| Enillion actiwaraidd ar asedau a rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 19 | **100** | 100 |
| Elw cynhwysfawr arall | | **100** | 100 |
| Cyfanswm elw cynhwysfawr am y flwyddyn | | **2,472** | 1,811 |
| Trosglwyddiad i Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus (incwm gohiriedig) | 13 | **(2,959)** | (2,320) |
| Cadwyd yn y Gronfa Gyffredinol | 13 | **(487)** | (509) |

Cymeradwywyd y Datganiad Ariannol gan y Bwrdd ar 01 Gorffennaf 2026. Mae'r nodiadau ar dudalennau 88 i 106 yn ffurfio rhan o'r Datganiad Ariannol.

# Mantolen Gyfun

ar 31 Mawrth 2026

| | Nodyn | | **Ar 31/03/26** | | Ar 31/03/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| **Asedau Sefydlog** | | | | | |
| Asedau diriaethol | 7 | **205** | | 181 | |
| Buddsoddiadau | 8 | **826** | | 516 | |
| | | | **1,031** | | 697 |
| **Asedau Cyfredol** | | | | | |
| Stoc | 9 | **15,086** | | 20,251 | |
| Dyledwyr - symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 10 | **5,348** | | 6,373 | |
| Dyledwyr - symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 10 | **3,403** | | 4,565 | |
| Buddsoddiadau | 11 | **13,588** | | 13,443 | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 18 | **17,202** | | 8,884 | |
| | | | **54,627** | | 53,516 |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | | | | |
| Credydwyr - symiau i'w talu o fewn blwyddyn | 12 | **(14,563)** | | (14,561) | |
| Credydwyr - symiau i'w talu ar ôl mwy na blwyddyn | 12 | **(1,183)** | | (2,212) | |
| Asedau Cyfredol Net | | | **38,881** | | 36,743 |
| **Cyfanswm Asedau llai Cyfanswm Rhwymedigaethau** | | | **39,912** | | 37,440 |
| **Cronfeydd** | | | | | |
| Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | 13 | | **21,069** | | 18,110 |
| Cronfa Gyffredinol | 13 | | **18,843** | | 19,330 |
| **Cyfanswm Cronfeydd** | | | **39,912** | | 37,440 |

Awdurdodwyd cyhoeddi'r Datganiad Ariannol i gydymffurfio ag FRS 102 para 32.09. gan y Bwrdd ar 01 Gorffennaf 2026.

**Delyth Evans** Cadeirydd
**Geraint Evans** Prif Weithredwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 88 i 106 yn ffurfio rhan o'r Datganiad Ariannol.



# Mantolen S4C


ar 31 Mawrth 2026

| | Nodyn | | **Ar 31/03/26** | | Ar 31/03/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| **Asedau Sefydlog** | | | | | |
| Asedau diriaethol | 7 | **205** | | 181 | |
| | | | **205** | | 181 |
| **Asedau Cyfredol** | | | | | |
| Stoc | 9 | **15,086** | | 20,251 | |
| Dyledwyr - symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 10 | **4,903** | | 7,272 | |
| Dyledwyr - symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 10 | **3,403** | | 4,315 | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | **12,720** | | 2,556 | |
| | | | **36,112** | | 34,394 |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | | | | |
| Credydwyr - symiau i'w talu o fewn blwyddyn | 12 | **(14,065)** | | (14,253) | |
| Credydwyr - symiau i'w talu ar ôl mwy na blwyddyn | 12 | **(1,183)** | | (2,212) | |
| Asedau Cyfredol Net | | | **20,864** | | 17,929 |
| **Cyfanswm Asedau llai Cyfanswm Rhwymedigaethau** | | | **21,069** | | 18,110 |
| **Cronfeydd** | | | | | |
| Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | 13 | | **21,069** | | 18,110 |
| Cronfa Gyffredinol | 13 | | **-** | | - |
| **Cyfanswm Cronfeydd** | | | **21,069** | | 18,110 |

Awdurdodwyd cyhoeddi'r Datganiad Ariannol i gydymffurfio ag
FRS 102 para 32.09. gan y Bwrdd ar 01 Gorffennaf 2026.

**Delyth Evans** Cadeirydd
**Geraint Evans** Prif Weithredwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 88 i 106 yn ffurfio rhan o'r Datganiad Ariannol.



## Datganiad Cyfun o Newidiadau mewn Ecwiti ar 31 Mawrth 2026

| Grŵp S4C | **Enillion a gadwyd** | **Cyfanswm ecwiti** |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Ar 1 Ebrill 2025 | **37,440** | **37,440** |
| Elw am y flwyddyn | **2,372** | **2,372** |
| Elw cynhwysfawr arall am y flwyddyn | **100** | **100** |
| Cyfanswm elw cynhwysfawr am y flwyddyn | **2,472** | **2,472** |
| Ar 31 Mawrth 2026 | **39,912** | **39,912** |

## Datganiad Cyfun o Newidiadau mewn Ecwiti ar 31 Mawrth 2025

| Grŵp S4C | Enillion a gadwyd | Cyfanswm ecwiti |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 35,629 | 35,629 |
| Elw am y flwyddyn | 1,711 | 1,711 |
| Elw cynhwysfawr arall am y flwyddyn | 100 | 100 |
| Cyfanswm elw cynhwysfawr am y flwyddyn | 1,811 | 1,811 |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 37,440 | 37,440 |

## Datganiad S4C o Newidiadau mewn Ecwiti ar 31 Mawrth 2026

| S4C | **Enillion a gadwyd** | **Cyfanswm ecwiti** |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Ar 1 Ebrill 2025 | **18,110** | **18,110** |
| Elw am y flwyddyn | **2,859** | **2,859** |
| Elw cynhwysfawr arall am y flwyddyn | **100** | **100** |
| Cyfanswm elw cynhwysfawr am y flwyddyn | **2,959** | **2,959** |
| Ar 31 Mawrth 2026 | **21,069** | **21,069** |

## Datganiad S4C o Newidiadau mewn Ecwiti ar 31 Mawrth 2025

| S4C | Enillion a gadwyd | Cyfanswm ecwiti |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 15,790 | 15,790 |
| Elw am y flwyddyn | 2,220 | 2,220 |
| Elw cynhwysfawr arall am y flwyddyn | 100 | 100 |
| Cyfanswm elw cynhwysfawr am y flwyddyn | 2,320 | 2,320 |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 18,110 | 18,110 |

# Datganiad Llif Arian Cyfun

## am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2026

Mae'r llif arian net o'r gweithgareddau gweithredu yn dangos yr arian a gynhyrchwyd gan weithgareddau craidd cyn buddsoddi ac ariannu.

| | Nodyn | 2025/26 | 2024/25 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | **£000** | £000 |
| Elw am y flwyddyn ariannol | | **2,372** | 1,711 |
| Llog net | | **(426)** | (318) |
| Incwm buddsoddiad | | **(281)** | (307) |
| Elw ar fuddsoddiad | 11 | **(218)** | (171) |
| Dibrisiant ac amorteiddio | 7 | **58** | 549 |
| Lleihad / (cynnydd) mewn stoc | | **5,165** | (168) |
| Lleihad / (cynnydd) mewn dyledwyr | | **2,210** | (1,109) |
| Lleihad mewn credydwyr | | **(819)** | (526) |
| Lleihad mewn buddsoddiadau | | **120** | 128 |
| **Mewnlif / (Allanlif) ariannol net o weithgareddau gweithredol** | | **8,181** | (211) |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| Incwm buddsoddiadau | | **281** | 307 |
| Llog a dderbyniwyd | | **404** | 318 |
| Benthyciadau a ad-dalwyd | | **(109)** | (2,800) |
| **Mewnlif / (Allanlif) ariannol net o weithgareddau ariannu** | | **576** | (2,175) |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Pryniant asedau sefydlog diriaethol | 7 | **(82)** | (165) |
| Gwerthu buddsoddiadau | | **4** | - |
| Prynu buddsoddiadau | | **(361)** | (157) |
| **Allanlif ariannol net o weithgareddau buddsoddi** | | **(439)** | (322) |
| **Cynnydd / (Lleihad) mewn arian** | | **8,318** | (2,708) |
| Cynnydd na wireddwyd mewn buddsoddiad | 11 | **218** | 171 |
| Costau rheoli | 11 | **(73)** | (78) |
| **Symudiadau o fewn cronfeydd net** | | **8,463** | (2,615) |
| Arian yn y banc ar 1 Ebrill 2025 | | **8,884** | 11,592 |
| Arian yn y banc ar 31 Mawrth 2026 | | **17,202** | 8,884 |
| **Cynnydd / (Lleihad) net mewn arian mewn banc** | | **8,318** | (2,708) |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill 2025 | 18 | **22,327** | 24,942 |
| **Cronfeydd net ar 31 Mawrth 2026** | 18 | **30,790** | 22,327 |

# Nodiadau i'r Cyfrifon

am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2026

## 1. Polisïau Cyfrifo

Gwelir isod brif bolisïau cyfrifo S4C. O fewn y Datganiad Ariannol cyfun, cyfeirir at Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel S4C ac at gyfanswm y gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau masnachol fel Grŵp S4C. Cyfeirir at asedau Grŵp S4C nad ydynt yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel y Gronfa Gyffredinol. Cyflwyniad ac arian cyfred y datganiadau ariannol hyn yw sterling. Talgrynnir i'r £000 agosaf ac eithrio yn y datgeliad cyflogau a threuliau staff.

Mae'r Bwrdd yn ystyried bod S4C yn Endid Budd Cyhoeddus fel y'i diffiniwyd gan FRS 102. Endid Budd Cyhoeddus yw endid â'i brif amcan yw darparu nwyddau neu wasanaethau er buddiannau cyhoeddus, cymunedol neu gymdeithasol cyffredinol, a lle darperir unrhyw ecwiti gyda'r bwriad o gefnogi prif amcanion yr endid yn hytrach na gyda'r bwriad o gynhyrchu elw ariannol i ddarparwyr ecwiti, cyfranddalwyr neu aelodau.

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol fel y disgrifiwyd yn yr adran busnes gweithredol a hyfywedd ar dudalen 80.

### (a) Sail paratoi'r Datganiad Ariannol

Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y confensiwn costau hanesyddol yn unol â pharagraff 12 (1) Atodlen 6 Deddf Darlledu 1990 (fel yr addaswyd), y Cyfarwyddyd Cyfrifon a ryddhawyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, ac yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102, sef y Safon Adrodd Ariannol (FRS) sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.

Mae paratoi datganiadau ariannol yn unol â FRS 102 yn mynnu defnyddio amcangyfrifon cyfrifyddu critigol penodol. Mae hefyd yn mynnu bod rheolwyr yn arfer eu barn wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu S4C (gweler nodyn 2).

Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu canlynol wedi'u cymhwyso:

### (b) Sail cyfuno

Mae'r Datganiad Ariannol cyfun yn ymgorffori rhai S4C a'i his-ymgymeriadau (gweler nodyn 8) a luniwyd hyd at 31 Mawrth 2026. Caiff elw neu golledion ar drafodion grŵp eu dileu'n llawn. Pan gaiff is-gwmni ei brynu, caiff holl asedau a rhwymedigaethau'r is-gwmni sy'n bodoli ar ddyddiad ei brynu eu cofnodi yn ôl eu gwerthoedd teg gan adlewyrchu eu cyflwr ar y dyddiad hwnnw.

### (c) Incwm

Mae'r incwm o ffi'r drwydded yn cael ei gydnabod yn unol â'r cytundeb cyllido sylfaenol, wrth i S4C gyflawni ei rhwymedigaethau statudol, yn gyfartal dros y cyfnod.

Mae incwm arall, sydd yn cynnwys incwm o werthu amser hysbysebu, hawliau mewn rhaglenni teledu, nawdd, marsiandïaeth, cyhoeddi, a gweithgareddau buddsoddi yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan ddarperir y gwasanaethau cysylltiedig.

### (ch) Costau rhaglenni

Caiff costau rhaglenni'r gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi'u comisiynu eu gydnabod yn llwyr yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ar y darllediad cyntaf neu pan ddaw yn glir na fydd darllediad.

### (d) Stoc rhaglenni a stoc arall

Mae costau uniongyrchol a gyfyd wrth gomisiynu neu brynu rhaglenni i'r gwasanaeth cyhoeddus sydd heb eu darlledu yn ymddangos fel stoc, ar ôl darparu ar gyfer gwariant ar ddeunydd nad yw'n debygol o gael ei ddarlledu. Am gyfres o raglenni, mae'r dosraniad stoc rhwng rhaglenni a orffennwyd ond heb eu darlledu a rhaglenni ar ganol eu cynhyrchu wedi ei seilio ar gyfanswm y gost hyd yn hyn ynghyd â chost gytundebol pob pennod a gwblhawyd.

Diffinnir cost uniongyrchol fel taliadau a wnaed neu sy'n ddyledus i gwmnïau cynhyrchu neu gyflenwyr rhaglenni.

### (dd) Incwm a dderbyniwyd cyn y gwariant perthnasol

Oherwydd y polisïau uchod, derbynir incwm o'r BBC cyn cynnwys yr holl gostau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Ar ddyddiad y Fantolen, trosglwyddir unrhyw incwm a dderbynnir ymlaen llaw i Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus. Pan mae costau perthynol yn codi, trosglwyddir symiau cyfatebol o incwm perthnasol o Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Mae'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr felly yn cynnwys trosglwyddiad net i Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus, neu oddi wrtho, yn adlewyrchu'r trosglwyddiadau hyn.

### (e) Buddsoddiadau mewn cyd-fentrau a chwmnïau cyswllt

Mae buddsoddiadau mewn cyd-fentrau yn cael eu cydnabod yn y lle cyntaf yn y Mantolen Gyfun ar bris y trafodiad a'u haddasu ar ôl hynny i adlewyrchu cyfran y grŵp o'r cyfanswm incwm cynhwysfawr ac ecwiti'r gyd-fenter, llai unrhyw leihad yn eu gwerth.

### (f) Dyledwyr

Mae dyledwyr tymor byr a hir dymor yn cael eu mesur ar bris y trafodiad, llai unrhyw leihad yn eu gwerth. Mae benthyciadau a dderbyniwyd yn cael eu mesur yn y lle cyntaf ar werth teg, heb gynnwys costau trafodion, a chânt eu mesur ar ôl hynny ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog gweithredol, llai unrhyw leihad mewn gwerth.

### (ff) Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Mae arian parod yn arian mewn llaw a blaendaliadau a gadwyd gan sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gost ar rybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae symiau cyfwerth i arian parod yn fuddsoddiadau hynod o hylif a gellir eu trosi'n hwylus i symiau hysbys o arian parod gyda risg ansylweddol o newid mewn gwerth.

### (g) Offerynnau ariannol

Yn bennaf bydd S4C yn ymrwymo i drafodion offerynnau ariannol sylfaenol sy'n arwain at gydnabod asedau a rhwymedigaethau ariannol fel masnach a chyfrifon eraill sy'n dderbyniadwy a thaladwy, benthyciadau gan fanciau a thrydydd partïon eraill, benthyciadau i bartïon cysylltiedig a buddsoddiadau mewn cyfranddaliadau cyffredin di-roddadwy.

Caiff offerynnau dyled (heblaw am y rheiny sy'n ad-daladwy neu'n dderbyniadwy yn gyfan gwbl o fewn un flwyddyn), gan gynnwys benthyciadau a chyfrifon eraill sy'n dderbyniadwy a thaladwy, eu mesur yn y lle cyntaf ar werth presennol llifoedd arian parod y dyfodol ac ar ôl hynny ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog gweithredol. Mae offerynnau dyled sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy o fewn un flwyddyn, yn nodweddiadol symiau masnach sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy, yn cael eu mesur, yn y lle cyntaf ac ar ôl hynny, ar swm na ddisgowntiwyd yr arian parod neu ystyriaeth arall, a ddisgwylir ei dalu neu ei dderbyn. Fodd bynnag, os yw trefniadau offeryn tymor byr yn gyfystyr â thrafodiad ariannu, fel talu dyled masnach a ohiriwyd y tu hwnt i delerau busnes arferol neu a ariannwyd ar gyfradd llog nad yw ar raddfa'r farchnad neu yn achos benthyciad tymor byr yn gyfan gwbl nad yw ar raddfa'r farchnad, mae'r ased neu rhwymedigaeth ariannol yn cael ei fesur, yn y lle cyntaf, ar werth presennol llifoedd arian parod y dyfodol wedi'u disgowntio ar raddfa llog y farchnad ar gyfer offeryn dyled tebyg ac ar ôl hynny ar gost wedi'i hamorteiddio.

Mae asedau ariannol sy'n cael eu mesur ar gost a chost wedi'i hamorteiddio yn cael eu hasesu ar ddiwedd pob cyfnod adrodd am dystiolaeth wrthrychol o leihad mewn gwerth. Os canfyddir tystiolaeth wrthrychol o leihad mewn gwerth, cydnabyddir colled mewn gwerth yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Ar gyfer asedau ariannol sy'n cael eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio, caiff y golled mewn gwerth ei mesur fel y gwahaniaeth rhwng swm cario ased a gwerth presennol y llifoedd arian parod amcangyfrifedig wedi'i ddisgowntio ar gyfradd llog weithredol gwreiddiol yr ased. Os oes cyfradd llog newidiol i ased ariannol, y gyfradd ddisgownt ar gyfer mesur unrhyw golled mewn gwerth yw'r gyfradd llog weithredol gyfredol a bennir o dan y cytundeb.

Ar gyfer asedau ariannol a fesurir ar gost llai colled mewn gwerth, caiff y golled mewn gwerth ei mesur fel y gwahaniaeth rhwng swm cario ased ac amcangyfrif gorau sy'n frasamcan o'r swm y byddai S4C yn ei dderbyn am yr ased pe bai'n cael ei werthu ar ddyddiad y Fantolen.

Mae asedau a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu gwrthbwyso a'r swm net yn cael ei gofnodi yn y Fantolen pan fydd hawl y gellir eu gorfodi i wrthbwyso'r symiau cydnabyddedig a bod bwriad i setlo ar sail net neu i realeiddio'r ased a setlo'r rhwymedigaeth yr un pryd.

### (ng) Credydwyr

Mae credydwyr tymor byr a hir dymor yn cael eu mesur ar bris y trafodiad. Mae rhwymedigaethau ariannol eraill, gan gynnwys benthyciadau banc, yn cael eu mesur yn y lle cyntaf ar werth teg, heb gynnwys costau trafodion, a chânt eu mesur ar ôl hynny ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog gweithredol.

### (h) Buddsoddiadau asedau sefydlog

Dalir buddsoddiadau asedau sefydlog ar gost hanesyddol llai unrhyw leihad yn eu gwerth.

### (i) Asedau sefydlog diriaethol

Cyfrifir asedau sefydlog diriaethol yn ôl yr hyn a dalwyd amdanynt ynghyd ag unrhyw gostau prynu perthnasol, llai dibrisiant. Caiff dibrisiant ei gyfrif er mwyn dileu cost yr ased sefydlog diriaethol llai gweddill ei werth yn gyfartal dros y cyfnod yr amcangyfrifir y caiff ei ddefnyddio. Mae'r prif gyfraddau a ddefnyddir i'r diben hwn fel a ganlyn:

Offer a chyfarpar 20%

Caiff gwelliannau i adeiladau ar brydles fer eu dibrisio'n gyfartal dros gyfnod y brydles.

### (j) Cyfraniadau pensiwn

### Cynllun budd diffiniedig

Mae cynllun budd diffiniedig wedi nodi'r buddion pensiwn y bydd y gweithiwr yn eu cael pan fydd yn ymddeol. Mae'r buddion pensiwn hyn yn ddibynnol ar sawl elfen fel rheol. Bydd yr elfennau hyn yn cynnwys oedran, hyd gwasanaeth, a chydnabyddiaeth ariannol, ond nid dim ond y rhain o reidrwydd. Ystyr cynllun budd diffiniedig yw cynllun pensiwn nad yw'n gynllun cyfraniadau diffiniedig.

Defnyddir y dull rhagamcanu unedau i gyfrifo'r rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio. Mae S4C yn talu am wasanaeth actiwariaid annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaeth bob blwyddyn. Pennir y gwerth presennol drwy ddisgowntio'r hyn a amcangyfrifwyd ynghylch taliadau'r dyfodol. Gwneir hyn drwy ddefnyddio'r arenillion yn y farchnad ar gyfer bondiau corfforaethol o safon y maent yn rhai sterling ac y mae eu cyfnod yn lled debyg i'r cyfnod amcangyfrif ar gyfer taliadau'r dyfodol ('y gyfradd ddisgowntio').

Mesurir gwerth teg asedau'r cynllun yn unol â hierarchaeth gwerth teg FRS 102 ac yn unol â pholisi S4C ynghylch asedau tebyg sydd ganddo. Mae hyn yn cynnwys defnyddio technegau prisio priodol.

Dan incwm cynhwysfawr arall y credydir/debydir yr enillion a'r colledion actiwaraidd a ddeillia o addasiadau ar sail profiad ac o newid tybiaethau actiwaraidd. Mae'r symiau hyn ynghyd â'r adenillion ar asedau'r cynllun ar ôl tynnu'r symiau a gynhwysir yn y llog net, yn cael eu datgelu dan enillion actiwaraidd ar asedau a rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn.

### Cynllun cyfraniadau diffiniedig

Mae S4C yn gweithredu cynllun cyfraniadau diffiniedig.
Mae cynllun cyfraniadau diffiniedig yn gynllun pensiwn lle mae S4C yn talu cyfraniadau penodedig i mewn i endid ar wahân. Ar ôl talu'r cyfraniadau, nid yw S4C dan ragor o rwymedigaethau talu.

Pan fydd y cyfraniadau'n daladwy, fe'u cydnabyddir yn gost yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Mae'r symiau na thalwyd i'w gweld yn groniadau, ar ffurf rhwymedigaeth, yn y Fantolen.

### (l) Trethiant

Y dreth gyfredol a gynhwysir yng nghostau treth y flwyddyn. Cydnabyddir y dreth yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Ond bydd cost a briodolir i eitem incwm a threuliau a gydnabyddir dan incwm cynhwysfawr arall neu gost a briodolir i eitem a gydnabyddir yn uniongyrchol yn yr ecwiti yn cael ei gydnabod hefyd yn yr incwm cynhwysfawr arall neu'n uniongyrchol yn yr ecwiti.

Paratowyd y Datganiad Ariannol ar y sail na chodir unrhyw dreth ar symiau a dderbynia S4C oddi wrth ffi'r drwydded.

Codir treth gorfforaeth ar elw sy'n cael ei gynhyrchu gan is-ymgymeriadau.

### (ll) Arian tramor

Cynhwysir asedau a rhwymedigaethau mewn arian tramor yn ôl y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y Fantolen. Cynhwysir trafodion yn ôl y gyfradd gyfnewid ar y dyddiad mae'n digwydd. Mae gwahaniaethau cyfnewid sy'n codi o werthiannau tramor a chyfnewid arian yn cael eu dangos yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

### (m) Buddsoddiadau asedau cyfredol

Dalir buddsoddiadau asedau cyfredol ar werth teg gydag unrhyw newid yn cael ei gydnabod yn y cyfrif elw a cholled.

### (n) Eitemau eithriadol

Ystyr eitemau eithriadol yw trafodion sy'n rhan o weithgareddau arferol S4C ond a gyflwynir ar wahân oherwydd eu maint neu eu nifer.

### (o) Newidiadau sydd ar ddod yn FRS 102

Bydd y diwygiadau i FRS 102 a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol ym mis Mawrth 2024 yn dod i rym ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2026. Mae'r newidiadau'n cyflwyno fframwaith diwygiedig ar gyfer cydnabod refeniw o dan Adran 23, yn seiliedig ar fodel pum cam sy'n ei gwneud yn ofynnol i refeniw gael ei gydnabod wrth i rwymedigaethau perfformiad gael eu cyflawni ac wrth i reolaeth dros nwyddau neu wasanaethau drosglwyddo i'r cwsmer, gan ddisodli'r dull blaenorol o risgiau a buddion. Mae'r diwygiadau hefyd yn cynnwys gofynion datgelu gwell mewn perthynas â ffrydiau refeniw, balansau contract a rhwymedigaethau perfformiad.

Yn ogystal, mae Adran 20 yn cyflwyno model newydd ar gyfer cyfrifyddu prydlesi lle bydd y rhan fwyaf o brydlesi'n cael eu cydnabod ar y fantolen fel ased hawl i ddefnyddio, gyda rhwymedigaeth brydles gyfatebol, gan ddileu'r gwahaniaeth rhwng prydlesi gweithredol a phrydlesi ariannol ar gyfer lesddeiliaid. Bydd costau prydles yn cael eu cydnabod fel dibrisiant ar yr ased hawl i ddefnyddio a llog ar y rhwymedigaeth brydles, gan arwain at newid yn y patrwm cydnabod costau. Mae eithriadau ar gael ar gyfer prydlesi tymor byr a phrydlesi asedau o werth isel. Disgwylir i'r diwygiadau hyn effeithio ar gyflwyniad ac amseriad refeniw a balansau a chostau sy'n gysylltiedig â phrydlesi mewn cyfnodau'r dyfodol.

Ar 31 Mawrth 2026, roedd gan Grŵp S4C ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredol (gweler nodyn 14). O dan y gofynion newydd ar gyfer cyfrifyddu prydlesi, mae S4C yn disgwyl i'r ymrwymiadau hyn gael eu cydnabod ar y fantolen, gyda rhwymedigaeth brydles yn seiliedig ar werth disgowntiedig ymrwymiadau yn y dyfodol, gan gynnwys taliadau sy'n ymwneud â chyfnodau estyn dewisol lle bernir eu bod yn rhesymol sicr, ac ased 'hawl i ddefnyddio' cyfatebol.

Mae'r rheolwyr yn adolygu contractau refeniw presennol er mwyn penderfynu ar yr effaith gyffredinol ar gydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu.

## 2. Dyfarniadau wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu a ffynonellau allweddol ansicrwydd amcangyfrif

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol rhaid i reolwyr wneud dyfarniadau ac amcangyfrifon arwyddocaol. Mae'r eitemau yn y datganiadau ariannol lle mae'r dyfarniadau a'r amcangyfrifon hyn wedi'u gwneud yn cynnwys:

### Lleihad mewn gwerth buddsoddiadau asedau sefydlog

Mae gwerth cario'r buddsoddiadau strategol yn cael eu hasesu am leihad posibl mewn gwerth gan ddefnyddio model llif arian wedi'i ddisgowntio a gymeradwywyd gan y rheolwyr. Lle nad yw rhagolygon ffurfiol ar gael, mae technegau prisio cyffredin eraill yn cael eu defnyddio yn y model lleihad mewn gwerth.

### Stoc

Mae costau uniongyrchol yr eir iddynt wrth gomisiynu neu brynu rhaglenni i'r gwasanaeth cyhoeddus sydd heb eu darlledu yn cael eu cario ymlaen fel stoc, ar ôl darparu ar gyfer gwariant ar ddeunydd nad yw'n debygol o gael ei ddarlledu. Caiff cost rhaglenni gwasanaeth cyhoeddus a gomisiynwyd ei chostio i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr ar y darllediad cyntaf. Mae hyn yn unol â thueddiadau gwylio a'r ffordd y caiff cynnwys S4C ei ddefnyddio. Rydym wedi gweld nifer o ddarlledwyr yn symud (neu'n asesu'r posibilrwydd o symud) tuag at sail gost sy'n adlewyrchu ymddygiad gwylwyr gwahanol, lle mae cynnwys yn cael ei wylio'n gynyddol ar alw – ac mae hyn yn golygu mai dyfarniadau allweddol yw hyn.

### Cynllun budd diffiniedig

Mae'r costau pensiwn a godir ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr wedi'u seilio ar y dulliau a damcaniaethau actiwaraidd sydd â'r amcan o wasgaru'r costau pensiwn disgwyliedig dros fywydau gwasanaethol y gweithwyr yn y cynllun, er mwyn sicrhau bod y gost pensiwn reolaidd yn cynrychioli canran sylweddol llyfn o'r gyflogres bensiynadwy gyfredol a'r dyfodol disgwyliedig. Mae amrywiaethau o'r gost reolaidd wedi'u gwasgaru dros weddill cyfartaledd bywydau gwasanaethol gweithwyr cyfredol yn y cynllun.

Yn absenoldeb unrhyw gytundeb i dalu ad-daliad i S4C ac oherwydd bod y cynllun wedi'i gau bellach i groniad gwasanaeth yn y dyfodol, mae gwarged y cynllun ar 31 Mawrth 2026 wedi'i gyfyngu ym Mantolen S4C i ddim.

## 3. Incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus a throsiant y Gronfa Gyffredinol

Derbynnir incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus er mwyn i S4C gyflawni ei gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus (o fewn ystyr Adran 204A Deddf Cyfathrebiadau 2003). Mae trosiant y Gronfa Gyffredinol yn cynrychioli'r incwm a grëwyd gan weithgareddau masnachol a gweithgareddau nad ydynt yn rhan o'r cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus.

Mae'r incwm o ffi'r drwydded yn cael ei gydnabod yn unol a'r cytundeb cyllido sylfaenol, pan gaiff ei dderbyn. Mae'r incwm arall, sydd yn cynnwys incwm o werthu amser hysbysebu, hawliau mewn rhaglenni teledu, nawdd, marsiandïo, cyhoeddi a gweithgareddau buddsoddi, yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr ar sail croniadau.

| | | 2025/26 | | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | | | | |
| Incwm a dderbyniwyd oddi wrth ffi'r drwydded | 97,609 | | 94,803 | |
| Incwm arall | 185 | | 157 | |
| | | 97,794 | | 94,960 |
| Trosiant y Gronfa Gyffredinol | | | | |
| Gwerthiant rhaglenni a hysbysebu | 1,024 | | 1,234 | |
| Cyhoeddi a marsiandïo | 30 | | 35 | |
| Eraill gan gynnwys ymelwad digidol | 394 | | 389 | |
| | | 1,448 | | 1,658 |
| Trosiant y Grŵp | | 99,242 | | 96,618 |

Ceir isod ddadansoddiad o drosiant y Gronfa Gyffredinol yn ôl marchnad ddaearyddol:

| | 2025/26 | 2024/25 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Y Deyrnas Unedig | 1,437 | 1,633 |
| Unol Daleithiau America | 1 | - |
| Gweddill y Byd | 10 | 25 |
| | 1,448 | 1,658 |

Elw gweithredol

Yr elw gweithredol yw gwarged / (diffyg) Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus a'r (colled) / elw o'r gweithgareddau masnachol cyn incwm buddsoddi, llog a threth. Dangosir dadansoddiad o elw / (golled) gweithredol y Grŵp fesul gweithgarwch isod:

| | | 2025/26 | | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | | | | |
| Gweithgareddau Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | 2,067 | | 1,304 | |
| | | 2,067 | | 1,304 |
| Cronfa Gyffredinol | | | | |
| Gwerthiant rhaglenni a hysbysebu | 153 | | 665 | |
| Cyhoeddi a marsiandïo | (97) | | (46) | |
| Gweithgareddau eraill | (676) | | (1,008) | |
| | | (620) | | (389) |
| | | 1,447 | | 915 |

Mae'r gweithgareddau eraill yn cynnwys darparu gwasanaethau rheoli i is-gwmnïau masnachol gan S4C Masnachol Cyf. a ddarpariaeth o wasanaethau darlledu digidol gan S4C2 Cyf..

Asedau net
Asedau net Grŵp S4C yw cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau.

| | | 2025/26 | | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | | | | |
| Gweithgareddau Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | **21,069** | | 18,110 | |
| | | **21,069** | | 18,110 |
| Cronfa Gyffredinol | | | | |
| Gwerthiant rhaglenni a hysbysebu | **295** | | 332 | |
| Cyhoeddi a marsiandïo | **10** | | 10 | |
| Gweinyddiaeth | **135** | | 134 | |
| Gweithgareddau eraill | **18,403** | | 18,854 | |
| | | **18,843** | | 19,330 |
| | | **39,912** | | 37,440 |

## 4. Elw gweithredol

Yr elw gweithredol yw gwarged / (diffyg) Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus a'r (colled) / elw o'r gweithgareddau masnachol cyn incwm buddsoddi, llog a threth.

| Nodir yr elw gweithredol ar ôl: | 2025/26 | 2024/25 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Cost y gwasanaeth rhaglenni | | |
| Dibrisiant | **25** | 17 |
| Costau staffio | **6,372** | 5,637 |
| Teithio a chynhaliaeth | **215** | 158 |
| | | |
| Costau gweithredu a gweinyddu | | |
| Costau staffio | **2,276** | 2,077 |
| Dibrisiant | **33** | 22 |
| Ffi'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol am archwilio cyfrifon blynyddol Grŵp S4C | **158** | 153 |
| Gwasanaethau heb fod yn ymwneud ag archwilio gydag archwilwyr eraill: | | |
| Gwasanaethau cydymffurfio â threthiant | **27** | 25 |
| Gwasanaethau archwilio mewnol | **12** | 13 |
| Costau gweinyddu eraill | **1,355** | 1,316 |
| Taliadau prydlesi gweithredol: | | |
| Taliadau prydlesi gweithredol - Tir ac adeiladau | **203** | 198 |
| Teithio a chynhaliaeth | **63** | 71 |
| | **4,127** | 3,875 |

Mae'r dadansoddiad o gostau gweithredu a gweinyddu fel a ganlyn:

| | 2025/26 | 2024/25 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Costau Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | **3,551** | 3,187 |
| Costau'r Gronfa Gyffredinol | **576** | 688 |
| | **4,127** | 3,875 |

Ni ddarparodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol unrhyw wasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio yn ystod y flwyddyn.

## 5. Aelodau a swyddogion cyflogedig

| Mae cyfanswm cydnabyddiaeth swyddogion cyflogedig yn ystod y flwyddyn yn cynnwys: | **2025/26** | 2024/25 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Cyflogau gros | **6,443** | 5,898 |
| Cyfraniadau YG y cyflogwr | **850** | 647 |
| Cyfraniadau pensiwn | **1,296** | 1,104 |
| | **8,589** | 7,649 |

Yn ystod y flwyddyn gwnaed tri thaliad o dan y cynllun diswyddo gwerth cyfanswm o £0.059m (2024/25 - tri thaliad gwerth cyfanswm o £0.018m). Mae cyfraniadau pensiwn yn cynnwys cyfraniadau'r cyflogwr. Nid oedd gan S4C unrhyw ymrwymiadau 'oddi ar y gyflogres' sy'n dod o dan y meini prawf a nodir yng nghanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi mewn perthynas â threfniadau treth uwch benodiadau cyhoeddus.

Mae cyfansoddiad y ffigur cymharol ar gyfer cydnabyddiaeth cyflogeion ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2024/25 wedi'i ddiwygio i gywiro'r rhaniad rhwng cyflogau, cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr a chyfraniadau pensiwn. Nid yw'r diwygiad hwn yn newid cyfanswm cydnabyddiaeth cyflogeion 2024/25.  Mae Nodyn 19 hefyd wedi'i ddiweddaru.

| Roedd nifer cyfartalog y gweithwyr yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn: | | **2025/26** | | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|
| | **Rhif Dynion** | **Rhif Menywod** | Rhif Dynion | Rhif Menywod |
| Comisiynu | **7** | **13** | 9 | 11 |
| Cyhoeddi a dosbarthu | **12** | **26** | 8 | 22 |
| Datblygu cynnyrch | **6** | **1** | 6 | 1 |
| Cyfathrebu a data | **14** | **19** | 14 | 19 |
| Corfforaethol a pholisi masnachol | **7** | **19** | 8 | 17 |
| | **46** | **78** | 45 | 70 |

Cyfanswm teithio a chynhaliaeth a dalwyd i swyddogion cyflogedig yn ystod y cyfnod a derfynodd 31 Mawrth 2026 oedd £263,145 (cyfnod i 31 Mawrth 2025 - £220,174).

### Cydnabyddiaeth yr aelodau

Dangosir taliadau i aelodau'r Bwrdd am y flwyddyn isod:

| | **2025/26** | 2024/25 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Cyfanswm y taliadau | **113** | 79 |

Dangosir taliadau i aelodau'r Bwrdd am y flwyddyn isod:

| | **2025/26** | 2024/25 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Guto Bebb | **11,321** | 40,000 |
| Suzy Davies | **9,650** | 9,650 |
| Dyfrig Davies | **8,846** | - |
| Delyth Evans | **36,667** | - |
| Adele Gritten | **804** | 9,650 |
| Wyn Innes | **8,846** | - |
| Chris Jones | **804** | 9,650 |
| Gwenllian Lansdown Davies | **8,846** | - |
| Denise Lewis Poulton | **9,650** | 9,650 |
| Betsan Powys | **8,846** | - |
| Catryn Ramasut | **8,846** | - |

Penodwyd Delyth Evans yn Gadeirydd ar 1 Mai 2025.

Penodwyd Guto Bebb yn Gadeirydd Dros Dro o 1 Ebrill 2024 hyd at 30 Ebrill 2025. Ymddeolodd Guto Bebb ar 28 Chwefror 2026.

Penodwyd Dyfrig Davies, Catryn Ramasut, Wyn Innes, Gwenllian Lansdown Davies a Betsan Powys ar 1 Mai 2025.

Ymddeolodd Adele Gritten a Chris Jones ar 30 Ebrill 2025.

Yn ystod y cyfnod, hawliodd aelodau'r Bwrdd y treuliau canlynol wrth gyflawni eu dyletswyddau:

| Treuliau aelodau'r Bwrdd | Teithio | Llety a Chynhaliaeth | Lletygarwch | **2025/26 Cyfanswm** | 2024/25 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | **£** | £ |
| Guto Bebb | 669 | 421 | - | **1,090** | 3,469 |
| Suzy Davies | 236 | 236 | - | **472** | 1,319 |
| Dyfrig Davies | 1,243 | 462 | - | **1,705** | - |
| Delyth Evans | 1,776 | 530 | 74 | **2,380** | - |
| Adele Gritten | - | - | - | **-** | 1,704 |
| Wyn Innes | 331 | 83 | - | **414** | - |
| Chris Jones | - | - | - | **-** | 1,186 |
| Gwenllian Lansdown Davies | 232 | 75 | - | **307** | - |
| Denise Lewis Poulton | 1,079 | - | - | **1,079** | 1,684 |
| Betsan Powys | 451 | 92 | - | **543** | - |
| Catryn Ramasut | 199 | 80 | - | **279** | - |
| Rhodri Williams | - | - | - | **-** | 142 |
| Cyfanswm | 6,216 | 1,979 | 74 | **8,269** | 9,504 |

## Cydnabyddiaeth yr Uwch Dîm Arwain

Dangosir taliadau i aelodau'r Uwch Dîm Arwain yn ystod y cyfnod isod:

| | **2025/26 Tâl gros** | 2024/25 Tâl gros |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Nadine Beaton | **98** | 23 |
| Manon Edwards-Ahir | **95** | 92 |
| Geraint Evans | **168** | 142 |
| Llion Iwan | **122** | 7 |
| Elin Morris | **109** | 112 |
| Iestyn Morris | **103** | 18 |
| Geraint Pugh | **95** | 17 |
| Catrin Whitmore | **-** | 27 |
| Sioned Wiliam | **-** | 124 |
| Mali Williams | **62** | 10 |
| Sharon Winogorski | **111** | 108 |

Ymunodd Nadine Beaton a'r Uwch Dîm Arwain ar 6 Ionawr 2025.

Penodwyd Geraint Evans yn Brif Weithredwr ar 1 Ionawr 2025.

Ymunodd Llion Iwan a'r Uwch Dîm Arwain ar 10 Mawrth 2025.

Ymunodd Iestyn Morris a'r Uwch Dîm Arwain ar 27 Ionawr 2025.

Ymunodd Geraint Pugh a'r Uwch Dîm Arwain ar 27 Ionawr 2025.

Ymadawodd Catrin Whitmore yr Uwch Dîm Arwain ar 2 Gorffennaf 2024.

Penodwyd Sioned Wiliam yn Brif Weithredwr Dros Dro ar 8 Ebrill 2024 a gadawodd ar 31 Rhagfyr 2024.

Ymunodd Mali Williams a'r Uwch Dîm Arwain ar 27 Ionawr 2025.

Yn ystod y cyfnod, hawliodd aelodau'r Uwch Dîm Arwain y treuliau canlynol wrth gyflawni eu dyletswyddau:

| Treuliau aelodau'r Uwch Dîm Arwain | Teithio | Llety a Chynhaliaeth | Lletygarwch | **2025/26 Cyfanswm** | 2024/25 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | **£** | £ |
| Nadine Beaton | 1,334 | 1,813 | - | **3,147** | 2,055 |
| Manon Edwards-Ahir | 3,159 | 2,865 | 315 | **6,339** | 6,023 |
| Geraint Evans | 7,376 | 5,718 | 256 | **13,350** | 13,828 |
| Llion Iwan | 8,483 | 9,648 | 172 | **18,303** | 682 |
| Elin Morris | 2,458 | 555 | 501 | **3,514** | 2,661 |
| Iestyn Morris | 1,032 | 157 | - | **1,189** | 117 |
| Geraint Pugh | 3,278 | 2,648 | - | **5,926** | 689 |
| Sioned Wiliam | 90 | - | - | **90** | 1,775 |
| Mali Williams | 3,838 | 3,762 | 72 | **7,672** | 508 |
| Sharon Winogorski | 271 | - | - | **271** | 431 |
| **Cyfanswm** | 31,319 | 27,166 | 1,316 | **59,801** | 28,769 |

Cynllun cyfraniadau diffiniedig - cyfraniadau S4C

| | **2025/26** | 2024/25 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Nadine Beaton | **15** | 4 |
| Manon Edwards-Ahir | **15** | 14 |
| Geraint Evans | **27** | 22 |
| Llion Iwan | **19** | 1 |
| Elin Morris | **65** | 31 |
| Iestyn Morris | **16** | 3 |
| Geraint Pugh | **31** | 4 |
| Catrin Whitmore | **-** | 6 |
| Sioned Wiliam | **-** | 19 |
| Mali Williams | **13** | 2 |
| Sharon Winogorski | **49** | 40 |

Mae S4C yn gweithredu cynllun cyfraniadau diffiniedig er budd ei gweithwyr. Mae S4C yn cynnig yr opsiwn i staff gyfnewid cyflog i mewn i'r cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Mae'r cyfraniadau pensiwn a restrir yn y tabl uchod yn cynnwys taliadau cyfnewid cyflog yr unigolyn i'r cynllun.

## 6. Trethiant

Paratowyd y Datganiad Ariannol ar y sail na chodir unrhyw drethiant ar symiau a dderbynia S4C oddi wrth yr Adran dros Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC.

| | **2025/26** | 2024/25 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Treth gorfforaeth y Deyrnas Unedig ar 25% (2024/25 - 25%) | **-** | - |
| Treth gohiriedig | **-** | - |
| Tâl trethiant cyfredol am y cyfnod | **-** | - |

| | **2025/26** | 2024/25 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Elw ar weithgareddau cyffredin cyn trethiant | **2,372** | 1,711 |
| Elw ar weithgareddau cyffredin wedi'i lluosi â'r gyfradd treth safonol yn y DU o 25% (2024/25 - 25%) | **593** | 428 |
| Effeithiau: | | |
| Costau na ellir eu tynnu at ddibenion treth | **30** | 131 |
| Symud mewn treth ohiriedig sydd heb ei gydnabod | **239** | 64 |
| Incwm nad yw'n drethadwy at ddibenion treth | **(863)** | (623) |
| Enillion / (colledion) cyfalaf | **1** | - |
| Tâl trethiant cyfredol am y cyfnod | **-** | - |

Ar ddyddiad yr adroddiad, roedd gan y grŵp golledion treth heb eu defnyddio o £31.252m (2024/25: £27.048m) ar gael i'w gwrthbwyso yn erbyn elw trethadwy yn y dyfodol. Nid yw ased treth ohiriedig wedi'i gydnabod mewn perthynas â'r colledion hyn oherwydd ansicrwydd ffrydiau elw yn y dyfodol. Gellir cario'r colledion hyn ymlaen am gyfnod amhenodol.

## 7. Asedau sefydlog diriaethol

| Grŵp S4C | | Tir ac Adeiladau | |
|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Prydles | Offer a Chyfarpar |
| Cost | £000 | £000 | £000 |
| Ar 1 Ebrill 2025 | 1,179 | 209 | 970 |
| Ychwanegiadau | 82 | - | 82 |
| Gwerthiannau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **1,261** | **209** | **1,052** |
| | | | |
| Dibrisiant | | | |
| Ar 1 Ebrill 2025 | 998 | 209 | 789 |
| Cost am y flwyddyn | 58 | - | 58 |
| Gwerthiannau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **1,056** | **209** | **847** |
| | | | |
| Gwerth llyfr net | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **205** | **-** | **205** |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 181 | - | 181 |

Tir ac adeiladau
Pafiliwn S4C ar faes y Sioe Amaethyddol Frenhinol yn Llanelwedd yw'r eiddo dan brydles fer.

## 8. Buddsoddiadau asedau sefydlog

Mae'r buddsoddiadau asedau sefydlog isod yn cael eu dal yn y grŵp masnachol o gwmnïau.

| Mae cyfanswm buddsoddiadau asedau sefydlog yn cynnwys: | Buddsoddiadau mewn endidau heb eu rhestru | Buddsoddiadau mewn cyd-fentrau | Buddsoddiadau mewn cwmnïau. cyswllt | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cost neu brisiad | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ar 1 Ebrill 2025 | 1,047 | 125 | 50 | 1,222 |
| Ychwanegiadau | 350 | - | - | 350 |
| Gwerthiannau | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **1,397** | **125** | **50** | **1,572** |
| | | | | |
| Lleihad mewn gwerth | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2025 | 691 | 125 | 50 | 866 |
| Gwerthiannau | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **691** | **125** | **50** | **866** |
| | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 356 | - | - | 356 |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **706** | **-** | **-** | **706** |

Yn ogystal â'r buddsoddiadau uchod, buddsoddodd S4C Rhyngwladol Cyf. £11,288 (2024/25 – £156,613, 2023/24 - £3,550) mewn datblygu cynnwys. Yn ystod y cyfnod, gwaredodd S4C Rhyngwladol Cyf. £3,550 a gostyngodd werth £47,575 o gyllid datblygu cynnwys.

Buddsoddiadau mewn cyd-fentrau

| | Gwlad ymgorfforI | Dosbarth y cyfranddaliad a ddaliwyd | Canran a ddaliwyd: Gan y prif ymgymeriad | Canran a ddaliwyd: Gan Grŵp S4C | Natur y busnes |
|---|---|---|---|---|---|
| Media Rocket Ltd | Cymru a Lloegr | Cyffredin | 50% | 50% | Cwmni buddsoddi |

Symudiadau mewn buddsoddiadau cyd-fenter yn ystod y flwyddyn:

| Cost | £000 |
|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2025 | 125 |
| Ar 31 Mawrth 2026 | 125 |
| | |
| Lleihad mewn gwerth | |
| Ar 1 Ebrill 2025 | 125 |
| Ar 31 Mawrth 2026 | 125 |
| | |
| Gwerth llyfr net | |
| Ar 31 Mawrth 2025 | - |
| Ar 31 Mawrth 2026 | - |

Buddsoddiadau mewn cwmnïau cyswllt
Mae gan S4C Digital Media Limited fuddsoddiadau yn y cwmnïau cyswllt canlynol:

| Enw | Gwlad ymgorffori | Dosbarth y cyfranddaliad a ddaliwyd | Canran a ddalir |
|---|---|---|---|
| Aria Studios Cyf | Cymru a Lloegr | Cyffredin | 40% |

Ar 31 Mawrth 2026 roedd gan Grŵp S4C gyfranddaliadau ecwiti sylweddol o’r canlynol:

| | Gwlad ymgorffori | Dosbarth y cyfranddaliad a ddaliwyd | Canran a ddaliwyd: Gan y prif ymgymeriad | Canran a ddaliwyd: Gan Grŵp S4C | Natur y busnes |
|---|---|---|---|---|---|
| S4C Masnachol Cyf | Cymru a Lloegr | Cyffredin | 100% | 100% | Darparu gwasanaethau rheoli i is-gwmnïau masnachol |
| S4C Digital Media Ltd | Cymru a Lloegr | Cyffredin | - | 100% | Cwmni buddsoddi |
| S4C Rhyngwladol Cyf | Cymru a Lloegr | Cyffredin | - | 100% | Gwerthu gofod hysbysebu a rhaglenni |
| S4C2 Cyf | Cymru a Lloegr | Cyffredin | - | 100% | Darlledu digidol a darparu gwasanaethau darlledu digidol |
| S4C PTG Cyf | Cymru a Lloegr | Cyffredin | - | 100% | Eiddo Buddsoddi |

Yn y flwyddyn 2022/23 gwaredodd S4C PTG Cyf. ar yr eiddo fuddsoddi a ddelir o fewn y cwmni. Yn dilyn y gwerthiant, mae’r cwmni wedi rhoi’r gorau i fasnachu ac felly wedi paratoi ei gyfrifon ei hun ar sail busnes nad yw’n weithredol.

Mae’r is-ymgymeriadau i gyd wedi eu cyfuno yn y Datganiad Ariannol. Maent i gyd yn is-ymgymeriadau yn rhinwedd cyfranddaliadau o 100%. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon hawl mynediad llawn i ddatganiadau ariannol holl is-ymgymeriadau Grŵp S4C sydd mewn bodolaeth nawr neu a grëir yn y dyfodol.

## 9. Stoc

Mae'r stoc raglenni heb eu darlledu fel y ganlyn:

| | Grŵp S4C | | S4C | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ar 31/03/26** | Ar 31/03/25 | **Ar 31/03/26** | Ar 31/03/25 |
| | **£000** | £000 | **£000** | £000 |
| Rhaglenni ar ganol eu cynhyrchu | **14,977** | 20,136 | **14,977** | 20,136 |
| Rhaglenni a orffennwyd ond eto i'w darlledu | **109** | 115 | **109** | 115 |
| | **15,086** | 20,251 | **15,086** | 20,251 |

## 10. Dyledwyr

Symiau dyledwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | Grŵp S4C | | S4C | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ar 31/03/26** | Ar 31/03/25 | **Ar 31/03/26** | Ar 31/03/25 |
| | **£000** | £000 | **£000** | £000 |
| Dyledwyr masnachol | **356** | 563 | **226** | 447 |
| Dyledwyr eraill | **180** | 229 | **-** | - |
| Symiau sy'n ddyledus gan ymgymeriadau grŵp | **-** | - | **162** | 1,446 |
| Benthyciadau i swyddogion | **2** | 1 | **2** | 1 |
| TAW | **3,595** | 3,007 | **3,500** | 2,932 |
| Blaendaliadau ac incwm cronedig | **1,215** | 2,573 | **1,013** | 2,446 |
| | **5,348** | 6,373 | **4,903** | 7,272 |

Mae'r benthyciadau i swyddogion o dan y Cynllun Beicio i'r Gwaith.

Symiau dyledwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| | Grŵp S4C | | S4C | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ar 31/03/26** | Ar 31/03/25 | **Ar 31/03/26** | Ar 31/03/25 |
| | **£000** | £000 | **£000** | £000 |
| Blaendaliadau | **3,403** | 4,315 | **3,403** | 4,315 |
| Dyledwyr eraill | **-** | 250 | **-** | - |
| | **3,403** | 4,565 | **3,403** | 4,315 |

Mae blaendaliadau'n ymwneud â'r prosiect cydleoli a rhent a ragdalwyd ar gyfer pencadlys S4C yn Yr Egin.

## 11. Buddsoddiadau asedau cyfredol

| Cronfa fuddsoddi: | Grŵp S4C | |
|---|---|---|
| | **Ar 31/03/26** | Ar 31/03/25 |
| | **£000** | £000 |
| Ar 1 Ebrill | **13,443** | 13,350 |
| Newid yng ngwerth marchnadol y buddsoddiad | **218** | 171 |
| Costau rheoli | **(73)** | (78) |
| Ar 31 Mawrth | **13,588** | 13,443 |

Mae'r gronfa fuddsoddi yn cynnwys portffolio o ecwitïau, bondiau, arian ac asedau eraill a reolir ar ran S4C Digital Media Ltd. gan Sarasin & Partners LLP. Mesurir y buddsoddiad ar werth teg drwy'r elw a cholled lle mae prisiad y gronfa ar 31 Mawrth 2026 trwy bris y farchnad a ddyfynnwyd mewn marchnad weithredol.

Caiff y gronfa fuddsoddi ei hamlygu i risg y farchnad yn unig a lliniarir hyn trwy ddefnyddio rheolwr y gronfa.

Mae'r gronfa fuddsoddi wedi'i dosbarthu fel ased cyfredol gan fod y gallu gan S4C i dynnu allan o'r gronfa a chau'r gronfa ar fyr rybudd.

## 12. Credydwyr

| Symiau credydwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | Grŵp S4C | | S4C | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ar 31/03/26** | Ar 31/03/25 | **Ar 31/03/26** | Ar 31/03/25 |
| | **£000** | £000 | **£000** | £000 |
| Credydwyr masnachol | **332** | 214 | **291** | 212 |
| Credydwyr rhaglenni | **1,588** | 1,159 | **1,588** | 1,159 |
| Credydwyr eraill | **213** | 183 | **213** | 183 |
| Incwm rhagdaledig ac incwm gohiriedig | **187** | 182 | **-** | - |
| Blaendal Cymorth Grant | **1,029** | 109 | **1,029** | 109 |
| Symiau cronedig | **11,214** | 12,714 | **10,944** | 12,590 |
| | **14,563** | 14,561 | **14,065** | 14,253 |

| Symiau credydwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | Grŵp S4C | | S4C | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ar 31/03/26** | Ar 31/03/25 | **Ar 31/03/26** | Ar 31/03/25 |
| | **£000** | £000 | **£000** | £000 |
| Blaendal Cymorth Grant | **1,183** | 2,212 | **1,183** | 2,212 |
| | **1,183** | 2,212 | **1,183** | 2,212 |

Darparodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Cymorth Grant ymlaen llaw i S4C i ariannu'r prosiect cydleoli gyda BBC Cymru ac adleoli pencadlys S4C i Yr Egin, Caerfyrddin. Mae ad-daliadau i'w gwneud yn unol ag amserlen dalu y cytunwyd arni.

## 13. Cronfeydd

Cronfeydd wrth gefn Grŵp S4C a ddangosir isod yw'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer S4C, y Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus, a chronfeydd wrth gefn y cwmnïau masnachol, y Gronfa Gyffredinol. Mae'r cronfeydd wrth gefn eraill yn cynnwys dyledwyr, buddsoddiadau, arian parod llai credydwyr. Caiff cronfeydd wrth gefn y Gronfa Gyffredinol eu defnyddio ar gyfer buddsoddiadau a phrosiectau i wella gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus S4C, wrth geisio adenillion masnachol hefyd. Caiff unrhyw adenillion masnachol eu talu fel difidendau i S4C i'w defnyddio yn ei wasanaethau cyhoeddus.

Cronfeydd Grŵp S4C

| | Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Asedau Sefydlog | Stoc | Eraill | Cronfa Gyffredinol | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | **£000** |
| Ar 1 Ebrill 2025 | 181 | 20,251 | (2,322) | 19,330 | **37,440** |
| Gwarged y Gronfa Gyffredinol am y cyfnod | - | - | - | 13 | **13** |
| Trosglwyddiad Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus i'r cyfrif elw a cholled | 24 | (5,165) | 7,600 | - | **2,459** |
| Trosglwyddiad i Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | - | - | 500 | (500) | **-** |
| Ar 31 Mawrth 2026 | **205** | **15,086** | **5,778** | **18,843** | **39,912** |

Cronfeydd S4C

Dangosir cronfeydd wrth gefn y Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus ar 31 Mawrth 2026 ar wahân isod:

| | Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Asedau Sefydlog | Stoc | Eraill | Cronfa Gyffredinol | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | **£000** |
| Ar 1 Ebrill 2025 | 181 | 20,251 | (2,322) | - | **18,110** |
| Trosglwyddiad y Gronfa Gyffredinol am y cyfnod | - | - | - | 500 | **500** |
| Trosglwyddiad Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus i'r cyfrif elw a cholled | 24 | (5,165) | 7,600 | - | **2,459** |
| Trosglwyddiad i Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | - | - | 500 | (500) | **-** |
| Ar 31 Mawrth 2026 | **205** | **15,086** | **5,778** | **-** | **21,069** |

Mae cyfanswm o £2.959m wedi'i drosglwyddo i'r Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus o'r cyfrif elw a cholled yn 2025/26 (2024/25 - £2.320m) i'r Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys y trosglwyddiad o £0.500m (2024/25 - £0.750m) o'r Gronfa Gyffredinol, y trosglwyddiad Gwasanaeth Cyhoeddus o £2.459m (2024/25 - £1.570m) a nodir uchod.

## 14. Ymrwymiadau prydlesi gweithredol

Mae taliadau prydles lleiaf Grŵp S4C yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredu fel a ganlyn:

| | **Ar 31/03/26** | Ar 31/03/25 |
|---|---|---|
| Tir ac Adeiladau | **£000** | £000 |
| Llai nag un flwyddyn | **206** | 199 |
| Hwyrach nag un flwyddyn, ddim yn hwyrach na phum mlynedd | **821** | 765 |
| Hwyrach na phum mlynedd | **1,861** | 2,052 |
| | **2,888** | 3,016 |

## 15. Ymrwymiadau ariannol

Ar 31 Mawrth 2026, roedd gan Grŵp S4C ymrwymiadau ariannol yn gyfanswm o £125,000 yn ymwneud â buddsoddiadau mewn endidau heb eu rhestru o fewn S4C Digital Media Ltd. Ar 31 Mawrth 2025, roedd gan Grŵp S4C ymrwymiadau ariannol yn gyfanswm o £600,000 yn ymwneud â benthyciadau i'w had-dalu o fewn S4C Rhyngwladol Cyf..

Mae S4C wedi ymrwymo i gontractau ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn rhaglenni fel rhan o'i weithrediadau arferol. Mae'r rhain yn arwain at ymrwymiadau ariannol yn y dyfodol nad ydynt yn cael eu cydnabod fel rhwymedigaethau ar ddyddiad adrodd, gan nad yw'r nwyddau a'r gwasanaethau cysylltiedig eto wedi'u derbyn. Gall yr ymrwymiadau hyn gynnwys elfennau sefydlog ac amrywiol, a byddant yn cael eu cyflawni dros gyfnod y cytundebau. Mae'r mwyafrif o'r trefniadau hyn yn ymwneud â gwasanaethau trosglwyddo, trwyddedau darlledu a mesur cynulleidfaoedd.

Ni ddarperir datgeliad o werth cyfanredol yr ymrwymiadau hyn oherwydd presenoldeb cymalau terfynu, cyfnodau rhybudd, a hyblygrwydd contractiol eraill sy'n effeithio ar faint y rhwymedigaethau gorfodadwy sydd gan S4C.

## 16. Ymrwymiadau rhaglenni

Ar 31 Mawrth, yr oedd Grŵp S4C ac S4C wedi ymrwymo'n gytundebol i wario'r symiau a ganlyn ar raglenni:

| | **Ar 31/03/26** | Ar 31/03/25 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Ymrwymiadau rhaglenni | **22,376** | 17,837 |

## 17. Offerynnau ariannol

| | Grŵp S4C | | S4C | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ar 31/03/26** | Ar 31/03/25 | **Ar 31/03/26** | Ar 31/03/25 |
| | **£000** | £000 | **£000** | £000 |
| Asedau ariannol | **34,922** | 26,376 | **16,609** | 7,381 |
| Asedau ariannol | **34,922** | 26,376 | **16,609** | 7,381 |
| Rhwymedigaethau ariannol | **(13,346)** | (14,269) | **(13,037)** | (14,145) |
| Rhwymedigaethau ariannol | **(13,346)** | (14,269) | **(13,037)** | (14,145) |

Mae asedau ariannol yn cynnwys cronfeydd buddsoddi wedi eu mesur ar werth teg drwy'r cyfrif elw a cholled ac arian parod, dyledwyr masnach (gan gynnwys TAW), symiau sy'n ddyledus gan ymgymeriadau grŵp a dyledwyr eraill a fesurir ar gost wedi'i hamorteiddio llai unrhyw leihad mewn gwerth.

Mae rhwymedigaethau ariannol yn cynnwys credydwyr masnach, symiau sy'n ddyledus i ymgymeriadau grŵp a chroniadau a fesurir ar gost wedi'i hamorteiddio.

## 18. Dadansoddiad o'r newidiadau mewn cronfeydd net

| | Ar 01/04/25 | Llifarian | Arian parod heb eu gwireddu | Ar 31/03/26 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 8,884 | 8,318 | - | 17,202 |
| Adnoddau parod eraill | 13,443 | - | 145 | 13,588 |
| | 22,327 | 8,318 | 145 | 30,790 |

## 19. Cynllun pensiwn

Cynllun cyfraniadau diffiniedig
Mae'r Grŵp S4C yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig er budd gweithwyr.

Mae cynllun cyfraniadau diffiniedig yn gynllun pensiwn lle mae'r Grŵp S4C yn talu cyfraniadau penodedig i mewn i endid ar wahân. Ar ôl talu'r cyfraniadau, nid yw S4C dan ragor o rwymedigaethau talu.

Pan fydd y cyfraniadau'n daladwy, fe'u cydnabyddir yn gost yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Mae'r symiau nas talwyd i'w gweld yn groniadau, ar ffurf rhwymedigaeth, yn y Fantolen.

Mae asedau'r cynllun yn cael eu gweinyddu gan ymddiriedolwyr mewn cronfeydd unigol sy'n annibynnol o rai S4C. Cafwyd tâl pensiwn o £1,296,026 ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2026 (blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025 - £1,104,545).

Cynllun budd diffiniedig
Mae'r Grŵp S4C yn gweithredu cynllun budd diffiniedig, sydd yn rhan o gynllun Pensiwn Staff Ofcom (CTA gynt). Ar 31 Mai 2011, caewyd y cynllun budd diffiniedig i groniad yn y dyfodol. Trosglwyddwyd yr holl aelodau gweithredol i'r cynllun cyfraniadau diffiniedig. Mae asedau'r cynllun yn cael eu gweinyddu gan ymddiriedolwyr mewn cronfa sy'n annibynnol o rai Grŵp S4C.

Mae cynllun buddion diffiniedig wedi nodi'r buddion pensiwn y bydd y gweithiwr yn eu cael pan fydd yn ymddeol. Mae'r buddion pensiwn hyn yn ddibynnol ar sawl elfen fel rheol. Bydd yr elfennau hyn yn cynnwys oedran, hyd gwasanaeth, a chydnabyddiaeth ariannol, ond nid dim ond y rhain o reidrwydd. Ystyr cynllun buddion diffiniedig yw cynllun pensiwn nad yw'n gynllun cyfraniadau diffiniedig.

Defnyddir y dull rhagamcanu unedau i gyfrifo'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig. Mae Grŵp S4C yn talu am wasanaeth actiwariaid annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaeth bob blwyddyn. Pennir y gwerth presennol drwy ddisgowntio'r hyn a amcangyfrifwyd ynghylch taliadau'r dyfodol. Gwneir hyn drwy ddefnyddio'r arenillion yn y farchnad ar gyfer bondiau corfforaethol o safon y maent yn rhai sterling ac y mae eu cyfnod yn lled debyg i'r cyfnod amcangyfrif ar gyfer taliadau'r dyfodol ('y gyfradd ddisgowntio').

Mesurir gwerth teg asedau'r cynllun yn unol â hierarchaeth gwerth teg FRS 102 ac yn unol â pholisi'r cwmni ynghylch asedau tebyg sydd ganddo. Mae hyn yn cynnwys defnyddio technegau prisio priodol.

Dan incwm cynhwysfawr arall y credydir neu ddebydir yr enillion a'r colledion actiwaraidd a ddeillia o addasiadau ar sail profiad ac o newid tybiaethau actiwaraidd. Mae'r symiau hyn ynghyd â'r adenillion ar asedau'r cynllun, ar ôl tynnu'r symiau a gynhwysir yn y llog net, yn cael eu datgelu dan 'Ailfesur y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net'.

Mae'r pensiwn net sydd dros ben yn cael ei gydnabod fel naill ai gall yr asedau gael eu hadennill gan y cynllun neu gall arwain at gyfraniadau is yn y dyfodol. Mewn achos pan nad yw'r amodau hyn yn bodoli nid yw'r cyfanswm net sydd dros ben yn cael ei gynnwys ar y Fantolen fel sydd ar 31 Mawrth 2026 a 31 Mawrth 2025.

Seilir costau a rhwymedigaethau'r cynllun ar brisiad actiwaraidd. Cynhaliwyd y prisiad actiwaraidd llawn diweddaraf ar 31 Mawrth 2024 gan actwari annibynnol cymwys.

Y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actwari oedd:

| | **Ar 31/03/26** | Ar 31/03/25 | Ar 31/03/24 |
|---|---|---|---|
| Chwyddiant Prisiau Manwerthu | **3.40%** | 3.10% | 3.20% |
| Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr | **RPI llai 1.0% cyn 2030/ RPI llai 0.2% ar ôl 2030** | RPI llai 0.9% cyn 2030/ RPI llai 0.2% ar ôl 2030 | RPI llai 0.9% cyn 2030/ RPI llai 0.2% ar ôl 2030 |
| Cyfradd disgownt rhwymedigaethau'r cynllun | **6.00%** | 5.70% | 4.80% |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau cysylltiedig yn llawn a'r mynegai pris manwerthu | **3.40%** | 3.20% | 3.30% |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau sydd â mynegai pris cyfyng | **3.20%** | 3.00% | 3.10% |
| Disgwyliad oes dynion / menywod 60 oed ar ddyddiad cyfrifyddu | **26.9/29.6** | 26.7/29.5 | 26.1/29.0 |
| Disgwyliad oes dynion / menywod 60 oed, 20 mlynedd o'r dyddiad cyfrifyddu | **28.4/31.0** | 28.3/31.0 | 27.6/30.4 |

Mae'r swm sy'n gynwysedig yn y Fantolen yn tarddu o oblygiadau'r Grŵp S4C i'r cynllun fel â ganlyn:

| | **Ar 31/03/26 Gwerth** | Ar 31/03/25 Gwerth | Ar 31/03/24 Gwerth |
|---|---|---|---|
| | **£000** | £000 | £000 |
| Bondiau Llywodraeth | **700** | 700 | 800 |
| Blwydd-daliadau yswiriedig | **23,700** | 23,900 | 26,400 |
| Arian | **300** | 200 | 400 |

Ar ôl cwblhau pryniant ar gyfer y rhwymedigaethau anyswiriedig gweddilliol yn yr Adran S4C ym mis Mai 2019, delir y mwyafrif helaeth o asedau'r Adran mewn polisïau blwydd-dal sy'n symud yn unol â rhwymedigaethau'r Adran. Mae gweddill asedau'r Adran wedi'u buddsoddi mewn arian parod a giltiau indecs-gysylltiedig i dalu am gostau rhedeg ac unrhyw dreuliau ychwanegol a allai godi o'r pryniant. Mae Bwrdd S4C yn ymwybodol o achos yn ymwneud â Virgin Media ac NTL Pension Trustees, a allai o bosibl arwain at rwymedigaethau ychwanegol i rai cynlluniau pensiwn a noddwyr, gan gynnwys (os yw'n berthnasol) Bwrdd S4C. Mae'r achos hwn yn destun apêl ac nid yw'r effaith (os o gwbl) yn hysbys a bydd yn cael ei asesu fel un perthnasol yn y dyfodol.

| | **Ar 31/03/26** | Ar 31/03/25 | Ar 31/03/24 |
|---|---|---|---|
| | **£000** | £000 | £000 |
| Cyfanswm gwerth marchnadol yr asedau | **24,700** | 24,800 | 27,600 |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | **(23,800)** | (23,900) | (26,500) |
| Ased pensiwn net | **900** | 900 | 1,100 |
| Ased pensiwn heb ei gydnabod | **(900)** | (900) | (1,100) |
| Sefyllfa mantolen net | **-** | - | - |

Yn unol ag FRS 102, dangosir y cynllun ar y Fantolen ar 31 Mawrth 2026 fel ased net o £dim (ar 31 Mawrth 2025 - £dim).

Mae'r symiau a gydnabuwyd yn y datganiad incwm fel â ganlyn:

| | **2025/26** | 2024/25 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Cost gwasanaeth presennol | | |
| Enillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun pensiwn | **(1,400)** | (1,300) |
| Costau rhedeg | **100** | 100 |
| Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | **1,300** | 1,200 |
| Llog ar nenfwd asedau | **100** | 100 |
| Cyfanswm costau gweithredol | **100** | 100 |

Cynhwysir y symiau a godwyd neu a gredydwyd yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn yr incwm a thaliadau gweithredol ac o fewn llog taladwy.

Mae newidiadau i werth presennol oblygiadau'r budd diffiniedig fel â ganlyn:

| | **Ar 31/03/26** | Ar 31/03/25 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Oblygiadau agoriadol y budd diffiniedig | **23,900** | 26,500 |
| Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | **1,300** | 1,200 |
| Buddion a dalwyd | **(1,400)** | (1,700) |
| Enillion actiwaraidd ar rwymedigaethau | **-** | (2,100) |
| Oblygiadau terfynol y budd diffiniedig | **23,800** | 23,900 |

Mae newidiadau yng ngwerth marchnadol asedau'r cynllun fel â ganlyn:

| | Ar 31/03/26 | Ar 31/03/25 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Gwerth marchnadol asedau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod | **24,800** | 27,600 |
| Enillion disgwyliedig asedau'r cynllun | **1,400** | 1,300 |
| Costau rhedeg | **(100)** | (100) |
| Buddion a dalwyd | **(1,400)** | (1,700) |
| Colledion actiwaraidd ar asedau | **-** | (2,300) |
| Gwerth marchnadol asedau'r cynllun ar ddiwedd y cyfnod | **24,700** | 24,800 |

Prif gategorïau buddsoddiadau asedau'r cynllun, fel % o gyfanswm asedau'r cynllun:

| | Ar 31/03/26 | Ar 31/03/25 |
|---|---|---|
| Bondiau Llywodraeth | **3%** | 3% |
| Arian | **1%** | 1% |
| Blwydd-daliadau yswiriedig | **96%** | 96% |

Gwir enillion asedau'r cynllun:

| | Ar 31/03/26 | Ar 31/03/25 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Enillion disgwyliedig asedau'r cynllun | **1,400** | 1,300 |
| Colledion actiwaraidd ar asedau | **-** | - |
| Gwir enillion ar asedau'r cynllun | **1,400** | 1,300 |

Enillion o £0.1m (blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025 - enillion o £0.1m) yw'r cyfanswm a gydnabuwyd yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr Arall ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2026.

Dadansoddiad hanesyddol o werthoedd asedau, rhwymedigaethau'r cynllun a gwarged cyffredinol:

| | Ar 31/03/26 | Ar 31/03/25 | Ar 31/03/24 | Ar 31/03/23 | Ar 31/03/22 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Gwerth marchnadol asedau'r cynllun | **24,700** | 24,800 | 27,600 | 27,700 | 36,200 |
| Rhwymedigaethau'r cynllun | **(23,800)** | (23,900) | (26,500) | (26,500) | (34,900) |
| Gweddill yn y cynllun | **900** | 900 | 1,100 | 1,200 | 1,300 |

## 20. Rhwymedigaethau amodol – Grŵp S4C ac S4C

Mae S4C wedi derbyn nifer o hawliadau cyfreithiol yn ymwneud â digwyddiadau a ddigwyddodd yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24. Ar 31 Mawrth 2026 mae un hawliad yn parhau. Ar sail y wybodaeth sydd ar gael i ni ar hyn o bryd yn y broses gyfreithiol, mae'n anymarferol asesu'r hawliadau fel y'u cyflwynwyd, ac fe'i cydnabyddir fel rhwymedigaeth amodol nad yw wedi'i meintioli, er ein bod yn disgwyl y bydd unrhyw gostau yn cael eu talu'n llawn gan yswiriant.

## 21. Trafodion partïon cysylltiol

Partïon cysylltiedig S4C yw ei is-gwmnïau masnachol sy'n eiddo llwyr iddo, cyd-fentrau, aelodau'r Bwrdd, aelodau'r Uwch Dîm Arwain, a'r rhai a drafodir isod.

Yn ystod y cyfnod ymgymerodd y cwmni â'r trafodion canlynol gyda chwmnïau cyswllt y tu allan i'r grŵp sy'n gymwys fel partïon cysylltiol:

| | **2025/26** | 2024/25 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Incwm yn gysylltiedig ag Aria Studios Cyf | **2,500** | 24,817 |

Yn ystod 2022/23 rhoddodd y cwmni fenthyciad, sy'n ad-daliadwy mewn arian parod, i Aria Studios Cyf ac roedd balans o £467,351 yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn (2025: £467,351). Mae darpariaeth yn erbyn adennill y benthyciad hwn wedi'i chynnwys yn y datganiadau ariannol.

Datgelir cydnabyddiaeth ariannol aelodau'r Bwrdd a'r Uwch Dîm Arwain yn nodyn 5.

Yn ystod y flwyddyn, prynodd S4C nwyddau gwerth £621,710 gan dri parti cysylltiol (2024/25 £432,701 gan dri barti cysylltiol). Nid oes unrhyw falansau heb eu talu. Mae aelod o Fwrdd S4C yn aelod anweithredol o fwrdd parti arall, ac mae aelod agos o deulu Uwch Dîm Arwain S4C yn gadeirydd ar ddau barti arall.

Mae'r holl drafodion a balansau gydag is-gwmnïau sy'n eiddo llwyr i S4C wedi'u dileu yn y broses gyfuno. Mae S4C wedi manteisio ar yr esemptiad o dan Safonau Adrodd Ariannol 102 rhag datgelu trafodion gydag unrhyw gwmni grŵp arall.

## 22. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Nid oedd gan Grŵp S4C nac S4C unrhyw digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd 31 Mawrth 2026.

E03614713
ISBN 978-1-5286-6535-3